Cyngor Sir Gâr

# Adroddiad Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn Sir Gâr

## Adroddiad 2016-2021

Crëwyd gan uned Polisi a Phartneriaeth
Cyngor Sir Gâr
iaithgymraeg@sirgar.go.uk

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Cynnwys | Rhif y Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad**<br>- Y Broses o lunio a sefydlu Strategaeth Hybu'r Gymraeg<br>- Gweithredu'r Strategaeth a chraffu a monitro ar gynnydd | **4** |
| **Amcan 1: Caffael sgiliau.** | |
| 1.1 Caffael Sgiliau Sylfaenol: Cynnydd yn erbyn Y Strategaeth Hybu? | **8** |
| 1.2 Caffael Sgiliau Sylfaenol: Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu? | **12** |
| 1.3 Caffael Sgiliau Sylfaenol: y fframwaith mesur traweffaith | **18** |
| 1.4 Caffael Sgiliau Sylfaenol a phellach: CSGA | **20** |
| 1.5 Caffael Sgiliau Sylfaenol a phellach: CSGA y fframwaith mesur traweffaith | **22** |
| 1.6 Caffael Sgiliau Pellach: Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hybu? | **24** |
| 1.7 Caffael sgiliau pellach: Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu? | **30** |
| 1.8 Caffael Sgiliau pellach: y Fframwaith mesur traweffaith | **34** |
| **Amcan 2: Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.** | |
| 2.2 Cynyddu hyder a defnydd: Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hybu? | **35** |
| 2.3 Cynyddu hyder a defnydd: Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu? | **57** |
| 2.4 Cynyddu hyder a defnydd: y Fframwaith mesur traweffaith | **67** |
| **Amcan 3: Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth** | |
| 3.1 Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth: Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hybu? | **69** |

| | |
|---|---|
| 3.2 Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth: Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu?<br><br>3.3 Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth: y Fframwaith mesur traweffaith | **72**<br><br>**92** |
| **Amcan 4: Targedu Ardaloedd Daearyddol â blaenoriaeth**<br><br>4.1 Targedu Ardaloedd Daearyddol â blaenoriaeth: Cynnydd yn erbyn y Cynllun gweithredu?<br><br>4.2 Targedu Ardaloedd Daearyddol â blaenoriaeth: y Fframwaith mesur traweffaith | <br><br>**94**<br><br>**96** |
| **Amcan 5: Marchnata a Hyrwyddo'r Iaith**<br><br>5.1 Marchnata a hyrwyddo'r iaith: Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hybu a'r Cynllun Gweithredu?<br><br>5.2 Marchnata a hyrwyddo'r iaith: y Fframwaith mesur traweffaith | <br><br>**97**<br><br>**98** |
| **Casgliadau Cyffredinol** | **99** |
| **Pontio i Strategaeth Dau** | **108** |
| **Braslun posib ar gyfer Strategaeth Dau** | **109** |

# Cyflwyniad

**Llunio a gwreiddio Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

Erbyn i'r Safonau Hybu gael eu gosod ar gynghorau sir yn 2016, roedd Cyngor Sir Gâr eisoes wedi cynnull Grŵp Tasg a Gorchwyl aml-bleidiol gyda'r bwriad penodol o ymateb i ganlyniadau siomedig Cyfrifiad Cenedlaethol 2011. Yn ystod 2013, gwnaed gwaith ymchwil a chomisiynwyd dadansoddiad o ddata'r Cyfrifiad, ac ymmis Mawrth 2014, cyhoeddwyd Y Gymraeg yn Sir Gâr, oedd i bob pwrpas yn Strategaeth Hybu, yn ddogfen ddadansoddol, gyda 73 o argymhellion ar sut i hybu'r Gymraeg yn y sir. Roedd i'r adroddiad Gynllun Gweithredu yn ogystal, a oedd yn cael ei ddiweddaru pob chwarter.

Fis Tachwedd 2014, yn unol ag un o argymhellion 'Y Gymraeg yn Sir Gâr', ehangwyd grŵp o staff a gwirfoddolwyr y Mentrau Iaith yn y sir i gynnwys cyrff eraill a ffurfiwyd Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg. Tua'r un adeg ffurfiolwyd y grŵp tasg a gorffen aml-bleidiol yn Banel Ymgynghorol y Gymraeg, i arwain, gydag aelod portffolio'r Gymraeg, ar y gwaith o weithredu argymhellion 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'.

Yna, yn 2016, fel ymateb i ofyniad Safonau Hybu 145 a 146, aed ati i lunio Strategaeth Hybu a'i wreiddio yng ngwaith y Fforwm Strategol sirol. Yn ystod 2016, cytunodd y Fforwm a'r Panel ymgynghorol ar weledigaeth ag amcanion ar gyfer y Strategaeth hybu. Mewn ymdrech i barhau â gwaith y gweithgor tasg a gorffen, tra'n ymateb o'r newydd i ofyniad y Safon, aed ati i ymgorffori rhai o argymhellion yr adroddiad hwnnw yn y CSGA ac eraill yn y Strategaeth Hybu newydd. Yn ogystal, cytunwyd i gydnabod bod Cynlluniau Gwaith cyrff y Fforwm yn bwydo i mewn i'r Strategaeth ac y byddai'r Strategaeth hefyd yn adnabod rhai blaenoriaethau newydd, cychwynnol ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y sir. Fis Hydref 2017, cymeradwywyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2016-21 gan y Bwrdd Gweithredol.

Dechreuwyd ar unwaith ar y gwaith o lenwi bylchau cychwynnol a adnabuwyd. Cynhaliwyd gwaith mapio newydd, gan gydweithio ar y prosiect Ardaloedd â Blaenoriaeth, lluniwyd taflen newydd i hyrwyddo addysg Gymraeg. Yn ogystal, aethpwyd ati i lunio holiadur i ganfod ymwybyddiaeth trigolion y sir o'r Gymraeg a gweinyddu'r holiadur hwnnw. a lluniwyd a gweinyddwyd holiadur i ganfod ymwybyddiaeth trigolion y sir o'r Gymraeg.

Wedi cychwyn bywiog i greu momentwm i'r gwaith, cymerwyd cam yn ôl a llunio Cynllun Gweithredu, a fyddai'n sicrhau ffocws strategol a chynnydd ymarferol yn y meysydd gwaith o dan pob un o amcanion y Strategaeth.

**Gweithredu'r Strategaeth Hybu: y Cynllun Gweithredu**

Adnabuwyd themâu o dan 5 amcan y Strategaeth, sef

| **Amcan** | **1 Caffael Sgiliau (addysg a throsglwyddo iaith)** | **2 Cynyddu hyder a defnydd** | **3 Symudiadau poblogaeth** | **4 Ardaloedd â blaenoriaeth** | **5 Marchnata a hyrwyddo** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Themâu** | Cyn oed ysgol, Cymraeg i Oedolion, addysg ôl-16 | Hamdden, ieuenctid, Cymraeg yn y gweithle | Tai, Cynllunio, cymathu mewnfudwyr, pobl ifanc a'r byd gwaith, sector preifat | Prosiect ar y cyd | Mesur effaith, Hyrwyddo'r Gymraeg |

**Amcanion a Themâu'r Strategaeth**

Yn ystod y cyfnod rhwng llunio'r Cynllun Gweithredu a'r adroddiad hwn, cynhaliwyd 10 o gyfarfodydd gan edrych ar faes gwaith gwahanol ymhob cyfarfod. Yn y cyfarfodydd yma, cafwyd cyflwyniadau gan swyddogion o'r Cyngor Sir a chynrychiolwyr allweddol sy'n gweithredu yn y meysydd dan sylw. Yn dilyn y drafodaeth, lluniwyd camau gweithredu o'r newydd ar gyfer y meysydd gwaith. Gosodwyd y camau gweithredu newydd yn y Cynllun gweithredu ac yna fe'u diweddarwyd ymhen tua 9 mis pan oedd y thema'n cael ei thrafod ymhellach yn y cyfarfodydd sirol. Parhaodd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw felly drwy gydol y cyfnod. Yn ogystal â chyfarfodydd Fforwm, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag adrannau amrywiol o fewn y Cyngor i gynllunio ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi i gyflwyno i'r Fforwm ac yna yn dilyn y cyfarfod i gynnig ac i ymrwymo i gamau gweithredu newydd.

Fis Medi 2019, cychwynnodd Meri Huws gadeirio cyfarfodydd chwarterol y Fforwm, gan ddarparu sefydlogrwydd ac arweiniad deheuig i'r trafodaethau a'r cyd-gynllunio.
Bu'n rhaid diwygio cynnwys yr amserlen o ganlyniad i COVID-19 wrth reswm. Roedd y cyfnod clo wedi bwrw nifer fawr o ddarparwyr gwasanaethau a gweithgarwch cymunedol yn drwm ac roedd yn rhaid oedi'r gwaith craffu ar rai meysydd o ganlyniad. Er hyn, nid ataliwyd y cyfarfodydd. Trosglwyddwyd yn syth i blatfform digidol heb golli dim o fomentwm nac ymrwymiad yr aelodau.

**Amserlen y cyfarfodydd a'r themâu**

| Amcan | Thema | Amserlen | Amserlen (wedi ei diwygio yn dilyn COVID-19) |
|---|---|---|---|
| 1: Caffael Sgiliau (addysg a throsglwyddo iaith) | Cyn oed ysgol | Mehefin 2019 | Rhagfyr 2021 |
| | Cymraeg i Oedolion a Chymraeg yn y Gweithle | Mawrth 2020 | Mawrth 2022 |
| 2: Cynyddu hyder a defnydd | Hamdden | Rhagfyr 2018 | Medi 2021 |
| | Ieuenctid (ac addysg?) | Rhagfyr 2019 | Mehefin 2022 |
| | Cymraeg yn y gweithle | | |
| 3: Symudiadau poblogaeth | Tai | Medi 2018 | Rhagfyr 2020 |
| | Cynllunio a chymathu mewnfudwyr (+ adroddiad Symud Sir Gâr wledig ymlaen) | Medi 2019 | Mehefin 2021 |
| | Adfywio, sector preifat, pobl ifanc a'r byd gwaith | Mawrth 2019 | Mawrth 2021 * yn cynnwys prentisiaethau |
| 4: Ardaloedd Daearyddol | Ardaloedd â blaenoriaeth | | Medi 2020 |

Cafwyd ysbaid i'r gwaith hwn yn dilyn cyfarfod arbennig ym mis Gorffennaf 2021 pan gychwynnwyd ar y gwaith o adrodd ar y Strategaeth gyntaf a llunio'r strategaeth am y bum mlynedd nesaf, er nad ataliwyd y gwaith yn llwyr. Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth ar brosiect adfywio y deg Tref Marchnad er enghraifft yng nghyfarfod Rhagfyr 2021.

Ochr yn ochr â'r gweithredu hwn drwy'r Fforwm Strategol Sirol, cyfarfu Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg oedd yn craffu ar weithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn llunio Strategaeth newydd. Gan fod nod y ddwy Strategaeth yn gorgyffwrdd yn helaeth, gyda'r naill yn anelu at greu siaradwyr Cymraeg newydd drwy'r system addysg a'r llall yn canolbwyntio ar hybu defnydd y Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sectorau eraill, sicrhawyd cynrychiolaeth o'r Adran Addysg ar y Fforwm Strategol a chynrychiolaeth o Adran Bolisi'r Cyngor ar y Fforwm addysg er mwyn cau'r ddolen.

**Craffu ar gynnydd y Strategaeth a monitro**

Roedd cyfarfodydd chwarterol y Fforwm Sirol a chyfarfodydd y Panel ymgynghorol yn fodd o graffu ar gynnydd gweithrediad y Strategaeth, a'r diweddariadau ar bapur fel rhan o'r Cynllun Gweithredu hefyd yn sbarduno hunan-fonitro o dan y meysydd yn y strategaeth. Caed cyflwyniadau ac adroddiadau cyson drwy gydol y cyfnod dan sylw.

Fodd bynnag, roedd monitro effaith y strategaeth yn elfen a oedd angen cryn waith paratoi. Nid oeddem mewn sefyllfa i medru monitro effaith y Strategaeth wrth i ni weithredu. Roedd y Fforwm wedi penderfynu ar nod uchelgeisiol oedd yn adlewyrchu gweledigaeth i adfer y sir i fod yn un lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, gan roi llai o sylw i ganrannau siaradwyr fel yr oedd y Safon yn gofyn. Roedd y weledigaeth hon yn galw am yr angen i fesur defnydd y Gymraeg, ymwybyddiaeth a hyder siaradwyr Cymraeg yn ogystal â niferoedd siaradwyr a'u rhuglder. Gwnaed gwaith paratoi mewn dau gam, sef dosbarthu holiadur i geisio canfod ymwybyddiaeth trigolion y sir o'r Gymraeg, a chomisiynu fframwaith i fesur traweffaith y Strategaeth. Fe fyddai ail-ddosbarthu'r holiadur yn ein galluogi i fesur statws y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth o gymharu â'r cychwyn. Yn yr un modd, bydd y Fframwaith yn ein galluogi i gael darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth ar gyfer mesur effaith y strategaeth nesaf. Mi fydd yn ormod o dasg i ganfod data ar gyfer cymhariaeth ddefnyddiol yn ystod cyfnod y Strategaeth hwn. Mae amryw o'r mesuryddion yn parhau i fod yn anodd eu casglu. Fe fyddwn yn defnyddio'r fframwaith i fesur y sefyllfa bresennol a'i gymharu â sefyllfa'r Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd nesaf, sef 2026.

Bydd yr Adroddiad hwn yn cynnwys tair elfen o ran adrodd ar bob Amcan, a bydd yr amcanion wedi'u his-ddosbarthu er eglurder lle bo angen. Ar gyfer pob amcan, fe fydd:

- elfen yn archwilio i ba raddau y cyflawnwyd y Strategaeth,
- elfen yn egluro'r hyn a wnaed yn unol â'r Cynllun Gweithredu
- elfen sy'n crynhoi'r data ar gyfer y fframwaith mesur traweffaith.

Wrth adrodd ar Amcan 1 a 2, ceir adrodd helaeth ar weithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu fel ei gilydd. Ar gyfer Amcan 3, mae'r rhan fwyaf o'r adrodd yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu gan ei fod yn faes nad sy'n cael ei gydlynu'n strategol cyn cyfnod y Strategaeth hon. Mae Adroddiad Amcan 4 yn fyr ac yn gryno gan fod adroddiad cynhwysfawr ar gael o brif brosiect y cynllun gweithredu sef, 'Adroddiad Prosiect Ardaloedd Blaenoriaeth Sir Gâr 2018 -2020'. A chan fod y gwaith marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio ato dro ar ôl tro yng nghorff y 4 amcan arall, mae'r adroddiad ar Amcan 5 hefyd yn fyr ac yn gryno, ac yn cynnwys dolenni at yr holl ddeunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg newydd a grëwyd.

# 3. Adroddiad

## *Amcan 1: Cynyddu niferoedd sy'n caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo iaith yn y cartref.*

**1.1.1 Caffael Sgiliau Sylfaenol: Darpariaeth gofal cyn oed ysgol yn Gymraeg.**
**I ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein Strategaeth hybu?**

Fel y gellir gweld o adroddiadau blynyddol Mudiad Meithrin 2016-2020, mae'r Mudiad wedi parhau i gefnogi darpariaeth gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod cyfnod y Strategaeth hon. Mae'r gefnogaeth i gylchoedd meithrin a Ti a Fi Sir Gâr wedi parhau ar yr un lefel yn ystod y cyfnod, sef gyda thri swyddog cefnogi yn gweithio'n benodol â chylchoedd Meithrin a Ti a fi yn y sir. Mae hefyd tri swyddog arall sy'n gwneud rhywfaint o fewn y sir yn y cylchoedd sy'n ffinio â siroedd eraill. Ar ben hynny, mae fframwaith ehangach cefnogaeth y mudiad wedi darparu cyngor a chymorth arbenigol yn y maes, gan gynnwys adnoddau megis pecynnau anwytho pwyllgorau a phecynnau rheoli a chymorth i gofrestru yn unol â gofynion y maes gofal cyn oed ysgol.

Mae Mudiad Meithrin, drwy eu hadran hyfforddi, '**Academi**', wedi bod yn darparu hyfforddiant amrywiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr cylchoedd meithrin Sir Gâr yn ystod cyfnod y Strategaeth hon. Mae'r ddarpariaeth wedi newid ychydig rhwng 2016 a 2021 yn yr arlwy a'r modd y'i darperir gyda'r cyrsiau a'r adnoddau i gyd ar gael i'w lawrlwytho neu i'w dilyn yn fyw ar-lein ers 2020 (yn sgîl y pandemig). Gwelwyd cynnydd yn y nifer o aelodau sydd yn gallu dilyn hyfforddiant yn yr 20 mis diwethaf gan fod modd gwylio a dilyn cwrs ar amser cyfleus ac mewn lleoliad hwylus i'r dysgwyr. Mae nifer o gylchoedd Sir Gâr wedi manteisio ar y cyfleoedd hyfforddi hyn ar batrwm sy'n debyg i siroedd eraill. Mae rhai cylchoedd yn dilyn sawl cwrs, ac eraill ddim yn tueddu i ymgysylltu am resymau amrywiol, o ddiffyg hyder i ddiffyg adnoddau. Gwnaed ymchwil tua diwedd cyfnod y strategaeth i nodi rhwystrau ac fe fydd yna gynllun gweithredu'n cael ei ddilyn i sicrhau bod y cylchoedd oll yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant.

O ran darpariaeth **Cymraeg i Blant** yn Sir Gâr, roedd 3 Swyddog rhan amser yn gweithio yn ardaloedd Llanelli, Dyffryn Aman a Chaerfyrddin yn ystod 2016-20. Yn ystod 2021, roedd 1 swyddog rhan amser ar waith, yn dilyn ymddeoliad 2 swyddog a phroblemau recriwtio. Ar ddiwedd 2021, bydd swyddog newydd rhan amser yn cychwyn yn ardal Llanelli a'r cyffiniau. Mae'r ddarpariaeth wedi newid wrth gwrs o ganlyniad i COVID-19. Cyn COVID-19 roedd grwpiau tylino a ioga babi a Stori a Chân yn digwydd yn rheolaidd yn Llyfrgell Llanelli, Llangennech, Ysgol Penrhos, Porth Tywyn, ysbyty Glanaman, Brynaman, yn Nhreioan, Cydweli a Llandeilo ac yn achlysurol yng Nghanolfan Deulu St Paul's Llanelli, Morfa a Felinfoel, yng Nghanolfan Deulu'r Betws, Garnant, Tŷ Croes, a Thrimsaran. O fis Mawrth 2020 symudwyd y ddarpariaeth ar-lein ac o Fedi 2021 ymlaen, canolbwyntiodd y staff ar symud y ddarpariaeth yn ôl i'r gymuned drwy gynnal grwpiau tu allan ac o dan do tra'n parhau i gynnal rhai sesiynau, fel tylino babi, ar-lein.

Mae Cymraeg i Blant yn fodlon gyda'r partneriaethau sydd wedi eu meithrin yn Sir Gâr ac yn adnabod gwelliannau yn y cydweithio maent yn ennyn gan fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, gan swyddogion iaith Hywel Dda. Maent hefyd yn cydweithio gyda Dechrau'n Deg, y tair Menter Iaith, Plant Dewi, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor Sir a thîm integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.

O safbwynt hyfforddi a chymhwyso'r gweithlu, roedd y mudiad yn darparu cynllun hyfforddi cenedlaethol, **Cam wrth Gam**. Rhwng 2016-19 cymhwyswyd 31 dysgwr i Lefel 3 yn Sir Gâr, ac fe gafodd 18 ohonynt eu lleoli mewn cylchoedd meithrin, 11 mewn ysgol a 2 mewn meithrinfeydd. Yn dilyn newidiadau yn y sector, daeth y cynllun fel yr oedd bryd hynny i ben. Yn fwy diweddar, (2020) cyflwynwyd Cynllun Prentisiaeth mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru a Choleg Gŵyr Abertawe. Darparwyd cwrs Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 a hefyd Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5. Mae 7 prentis yn Sir Gâr wedi eu lleoli yn bennaf mewn cylchoedd meithrin.

Mae'r Mudiad yn parhau i ddarparu 'cynllun ysgolion Cam wrth Gam', sef cyrsiau wedi eu dilysu mewn ysgolion uwchradd, ynghyd â chynllun Diploma Lefel 3 mewn lleoliadau. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae 18 ysgol yn rhan o'r cynllun a 143 o ddisgyblion ysgol ôl-14 ac ôl-16 yn astudio'r gwahanol gyrsiau ar draws Cymru. Yn Sir Gâr, mae ysgolion Bro Myrddin, y Strade a Maes y Gwendraeth wedi bod yn rhan o'r cynllun hwn ers 2008. Ers 2008 mae 116 o ddisgyblion o ysgolion Cymraeg Sir Gâr wedi cymhwyso i Lefel 3, a'r mwyafrif wedi cael gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar neu wedi mynd ymlaen i addysg bellach.

Ers Medi 2019, mae'r Mudiad hefyd yn darparu cymwysterau newydd Gofal, Chwarae Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Lefel 3. Cofrestrodd 11 disgybl ym mis Medi 2021 a bydd y rhain wedi cymhwyso erbyn mis Gorffennaf 2023. Mae'r rhain wedi eu lleoli ar brofiad gwaith mewn Cylchoedd Meithrin, Meithrinfeydd Dydd Cymraeg neu Ysgolion Cymraeg yn y Sir. Ers Medi 2021 rydym wedi darparu'r cwrs yma trwy E-sgol. Golyga hyn fod y Tiwtor yn Ysgol y Strade gyda rhai disgyblion wyneb yn wyneb, tra bod disgyblion Bro Myrddin a Maes y Gwendraeth yn ymuno yn rhithiol.

Mae ffigurau **Cylchoedd Meithrin** yn Sir Gâr wedi aros yn weddol gyson yn ystod tair blynedd gyntaf y Strategaeth hon.

| | **Nifer y lleoliadau** | **Nifer y cylchoedd** | **Nifer y plant** | **Nifer a aeth i'r ysgol** | **Nifer i ysgol Gymraeg** | **Canran i addysg Gymraeg** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Medi 2016-17** | 54 | 64 | 1715 | 789 | 704 | 89.2% |
| **Medi 2017-18** | 49 | 61 | 1651 | 766 | 709 | 92.6% |
| **Medi 2018-19** | 51 | 60 | 1606 | 700 | 661 | 94.4% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Medi 2019-20*** | 50 | 57 | 1307 | 677 | 630 | 93.1% |
| **Medi 2020-21** | 52 | 62 | 1392 | 574 | 531 | 92.5% |

*Yn ystod 2019-20, roedd y 50 o gylchoedd yn dal i fod wedi'u cofrestru a'u cefnogi gan y Mudiad. Fodd bynnag, roedd nifer y plant a gofrestrodd yn is. Mae hyn oherwydd ni gychwynnodd unrhyw blant mewn cylchoedd am y tro cyntaf erioed yn ystod tymor yr haf 2020, yn sgîl cyfnod clo'r pandemig yn gorfodi'r cylchoedd i fod ar gau.

Er ein bod yn dal i adeiladu ar sefyllfa anodd y pandemig, mae ffigurau 2020-21 yn galonogol, o ystyried bod nifer y lleoliadau a'r cylchoedd ar gynnydd. Mae cynnydd o tua 90 o blant yn mynychu Cylchoedd eleni, sy'n mynd â'r ffigwr i 1392, ac mae'r canran sy'n trosglwyddo i addysg Gymraeg yn dal ei dir ar 92.5%.

Mae cynllun **Sefydlu a Symud** (SAS) yn brosiect sydd wedi ei sefydlu ers llunio'r Strategaeth hon, mewn ymateb i raglen waith *Miliwn o Siaradwyr 2050*. Sefydlwyd hyn fis Ebrill 2018, a nod y prosiect a reolir gan Mudiad Meithrin, yw sefydlu 40 o Gylchoedd Meithrin newydd (gyda Chylch Ti a Fi ynghlwm) erbyn diwedd 2021. Er gwaethaf effeithiau COVID-19 ar y cynllun bydd 43 Cylch Meithrin newydd wedi agor eu drysau ar draws Cymru erbyn tymor yr Hydref 2021. Yn Sir Gâr, sefydlir 5 Cylch Meithrin newydd sef: CM Glan y Fferi, CM Tŷ Croes, CM Eco Tywi (tref Caerfyrddin), CM Pum Heol, CM Pwll Strade a Sandy.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nodir fod Cylch Meithrin Llangynnwr, Mynydd y Garreg a Llangennech yn llawn gyda rhestrau aros, h.y. mae'r rhai hynny sydd wedi cofrestru eu diddordeb ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi eu rhoi ar restr aros nes bydd y plentyn yn ddigon o oed i ymuno â'r Cylch. Mae hyn yn sefyllfa gref i'r cylchoedd hyn o safbwynt hyfywedd, ond fe olyga na all teuluoedd gael lle ar sail ad hoc, a gallai hyn effeithio ar newydd ddyfodiaid i'r ardal sydd angen lle ar unwaith ac felly'n troi at ddarpariaeth Saesneg. Er y cyfeirir teuluoedd felly at ddarpariaeth Meithrin arall cyfagos, rhaid gochel rhag sefyllfa lle bo teuluoedd yn cael yr argraff fod y Cylch lleol yn llawn ac nad oes pwynt iddyn nhw geisio gan y gallai hyn arwain at deuluoedd yn dewis cyfrwng addysg Saesneg yn y pen draw.

Mae'r ffigurau **trosglwyddo i addysg Gymraeg** o'r cylchoedd meithrin wedi gwella yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, o 89% yn 2016 i 94% yn 2019. O gymharu â siroedd eraill, mae ein ffigurau trosglwyddo diweddaraf yn is na Gwynedd a Cheredigion, sydd ar 99% a 97%, ond yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 88%.

Mae Cylchoedd **Ti a Fi** y Sir yn bwysig o safbwynt magu defnydd y Gymraeg ymysg rhieni ac felly'n cyfrannu at Amcan 2 y Strategaeth hon. Maent hefyd yn bwysig ar gyfer cyflwyno teuluoedd i gylchoedd meithrin ac yna i addysg cyfrwng Cymraeg, felly mae edrych ar ddarpariaeth a defnydd ein trigolion o'r Cylchoedd Ti a Fi hefyd yn ddefnyddiol er mwyn deall y sefyllfa yn well o safbwynt caffael sgiliau iaith. Noda'r Mudiad bod 36 o grwpiau Ti a Fi yn y Sir yn 2016-17, 34 yn 2017-18, 39 yn 2018-19, 35 yn 2019-20. Yn dilyn y pandemig, mae'n naturiol fod yna ostyngiad sylweddol yn y nifer yn 2020-21, gyda 24 o grwpiau Ti a Fi wedi eu

cofrestru yn hanner cyntaf 2021-22. Mae pryder ynglŷn â dychwelyd i gwrdd wyneb yn wyneb, a hynny dan do, yn naturiol yn mynd i bara am gyfnod, yn enwedig tra bod y pandemig yn dal ar ei anterth. Er bod niferoedd yn datblygu'n dda, ar ddiwedd cyfnod y strategaeth hwn, erys cryn waith i wneud i geisio adennill y sefyllfa o safbwynt y grwpiau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Ar ddechrau cyfnod y Strategaeth hon, roedd yna **feithrinfeydd preifat** yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sir, ond doedd dim llawer. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, mae dwy feithrinfa breifat cyfrwng Cymraeg wedi agor, sef Cywion Bach yn Idole a Jac y Do, yn Rhydaman ac mae sawl un arall wedi ennill eu plwyf, e.e. Cwtsh y Clos yn Llanarthne, Twts Tywi ym Maenordeilo ac Ysgubor Fach ym Mancyfelin. Yn wir, nid yw Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn anarferol yn y sir bellach. Gwelwn gynnydd clir yn y tabl hwn sy'n dangos nifer y lleoliadau gofal diwrnod llawn yn cynyddu o 17 i 42 yn ystod cyfnod y Strategaeth hon.

| Math o leoliad | Nifer lleoliadau 2016-17 | Nifer o leoedd 2016-17 | Nifer lleoliadau 2021-22 | Nifer o leoedd 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr Plant | 55 | 295 | 41 | 290 |
| Gofal Diwrnod Llawn | 17 | 630 | 42 | 1016 |
| Gofal Sesiynol | 51 | 935 | 25 | 481 |
| Gofal ar ôl ysgol | 24 | 653 | 26 | 824 |
| **CYFANSWM** | **147** | **2513** | **134** | **2611** |

Fodd bynnag, mae yna nifer o feithrinfeydd sy'n dal i weithredu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ac yn gweithredu ethos Saesneg. Erys cryn waith i'w wneud gan wasanaethau cyngor a chymorth y Cyngor Sir a sefydliadau eraill i gynnig anogaeth a chefnogaeth i'r lleoliadau hyn i symud ar hyd y continwwm tuag at ddarparu mwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhaid derbyn na fydd rhai yn newid hyd nes bydd y farchnad yn galw am ddarpariaeth Gymraeg ym mhob man. Y peryg mwyaf i'r meithrinfeydd yn gyffredinol fodd bynnag yw'r trafferthion recriwtio. Mae tystiolaeth eisoes yn dangos bod rhai meithrinfeydd Cymraeg yn gorfod penodi staff di-gymraeg er mwyn diwallu gofynion yr Arolygaeth Gofal o safbwynt cymwysterau. Gallai hyn achosi i'r sector gymryd cam yn ôl o ran darpariaeth Gymraeg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Nid oedd y **Cynnig Gofal Plant** wedi ei gyflwyno pan luniwyd y strategaeth hwn, ond roedd Sir Gâr mewn sefyllfa da i weithredu'r Cynnig Gofal yn Gymraeg. Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant o 30 awr am ddim ar ddechrau 2019, mae 75% o'r plant oedd yn elwa ar y cynllun yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yng Ngwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr, tra bo cyfartaledd Cymru yn 25%.

**1.1.2 Caffael sgiliau sylfaenol: Darpariaeth gofal cyn oed ysgol yn Gymraeg.**
**I ba raddau yr ydyn wedi cyflawni'r Cynllun Gweithredu?**

| **Nod** |
|---|
| Sicrhau bod darpariaeth gofal cyn oed ysgol safonol ar gael yn Gymraeg ar draws y Sir |
| **Camau Gweithredu** |
| Parhau i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y sir, yn enwedig y rhai a ddarperir gan warchodwyr plant yn unol â'r bylchau a nodwyd yn ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant statudol diweddaraf (2017-2022) |

Gwnaed cynnydd sylweddol cyn cyfnod y Strategaeth hon gyda darparwyr gofal Cymraeg yn cynyddu o 116 yn 2013-14 (49% o'r ddarpariaeth gyfan) i 147 yn 2016-17 (61% o'r ddarpariaeth gyfan). O ran lleoedd gofal, cynyddodd y lleoedd cyfrwng Cymraeg o 2,246 (sef 55% o'r lleoedd i gyd) yn 2013-14 i 2,513 yn 2016/17 (60% o'r lleoedd gofal plant i gyd).

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, cadwyd ffocws ar yr angen i gynyddu darparwyr a lleoedd gofal cyfrwng Cymraeg, ond oherwydd cyfyngiadau yn y gweithlu, ni barhaodd y cynnydd i'r un graddau. Yn wir, gwelwyd y darparwyr cyfrwng Cymraeg yn gostwng erbyn 2019/20 i 139 (sef 56%) o'r darparwyr i gyd. Fodd bynnag, parhawyd i gynyddu'r llefydd cyfrwng Cymraeg i 2,828 (sy'n cynrychioli 62% o'r lleoedd i gyd).

Mae'r ffigurau yma'n dangos y sefyllfa cyn COVID-19. Yn amlwg, gohiriwyd y patrwm hwn o fis Mawrth 2020 ymlaen wrth i'r sector ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol neu gau am gyfnod. Caeodd y cylchoedd meithrin rhwng Mawrth a Medi 2020. Wrth i gyfyngiadau godi, rhoddodd sawl meithrinfa a gofalwr y gorau i ddarparu, ac mae wedi bod yn her enfawr i ail-sefydlu darpariaeth i gyrraedd y lefelau oedd yn bodoli cyn y pandemig. Mae hyn yn wir am ddarpariaeth gofal mewn unrhyw iaith ond cafodd yr effaith ganlynol ar y ddarpariaeth Gymraeg. Bellach, ceir 134 darparwr cyfrwng Cymraeg yn y sir, sy'n cynrychioli 53% o'r darparwyr i gyd, a ceir 2,737 lle cyfrwng Cymraeg, sy'n cynrychioli 58% o'r lleoedd i gyd.
Ceir her anferthol yn y sector yn gyffredinol ar hyn o bryd, sy'n cael effaith uniongyrchol ar argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o ddarparwyr yn methu â denu a recriwtio staff gofal plant cymwys. Mae llawer o feithrinfeydd ledled y sir yn hysbysebu swyddi yn barhaus oherwydd anawsterau o ran cynnal gwasanaeth i fodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC. Mae hyn hefyd yn effeithio ar weithlu presennol y sector, wrth i staff gael eu rhyddhau i fynychu hyfforddiant, e.e. cyrsiau Cymraeg *Camau*. Mae tystiolaeth bod staff yn gadael y sector ac yn dechrau gyrfa newydd y tu allan i ofal plant gan nodi blinder staff oherwydd rheoliadau COVID-19 a gofynion y gwasanaeth. Mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn hysbysebu nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer arweinwyr cylchoedd a swyddi cynorthwyol ac os na fydd yr ymgyrch recriwtio'n llwyddiannus, bydd hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar leoedd gofal plant cofrestredig cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol.

Mae cryn waith yn digwydd ac angen digwydd gan Gofal Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r Mudiad, y colegau a'r ysgolion i gefnogi a denu unigolion i weithlu'r sector gofal plant.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Safonau Serennog - Cylchoedd i gael cadarnhad o'u safon fel darpariaeth cyn oed ysgol cyfrwng Cymraeg drwy ennill y marc ansawdd |

Yn 2016, roedd 18 o gylchoedd y sir wedi derbyn achrediad Cylch Rhagorol. Yn 2016, cyflwynwyd marc safon newydd, sef **Safonau Serennog**. O safbwynt y Gymraeg, mae pob cylch meithrin yn llofnodi polisi trochi Meithrin wrth ymaelodi â'r Mudiad, ac mae hyn yn golygu eu bod yn derbyn y Safon efydd. Wrth ymgeisio am Safonau Serennog arian ac aur, mae Cylchoedd yn gorfod arddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y modd y maent yn gweithredu gyda'r gymuned, gyda theuluoedd, wrth groesawu teuluoedd newydd ac wrth annog trosglwyddiad i addysg Gymraeg ymysg pethau eraill. Ers cyflwyno'r marc ansawdd newydd hwn, mae'r cylchoedd canlynol yn y sir wedi llwyddo i gael Safonau Serennog arian ac aur:

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| **Aur** | Felinfoel | Carwe | | |
| | | | | |
| **Arian** | Ffynnon Wen | | Cwtsh y Clos | Hywel Dda |
| | Llanllwni | | Llangynnwr | |
| | | | | |

Cylchoedd Sir Gâr sydd wedi derbyn Safonau Serennog Aur ac Arian

Bydd y Mudiad yn parhau â'r gwaith o gefnogi'r Cylchoedd i ennill y Safonau Serennog yn y blynyddoedd sydd i ddod o leiaf hyd nes bydd y llywodraeth yn cyflwyno rhaglen genedlaethol i'r sector. Mae'r Mudiad yn ffyddiog y bydd mwy o gylchoedd y sir yn ymgymryd â'r gwaith o ennill Safonau Serennog yn y blynyddoedd sydd i ddod.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Annog lleoliadau gofal plant y sir i weithredu'r cynnig rhagweithiol |

Mae holl ddarparwyr cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac yn cael eu hannog i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant drwy gyfrwng y Gymraeg ac wrth dderbyn arolygiad yn darparu tystiolaeth. Gwnaed ymdrech gref i godi ymwybyddiaeth teuluoedd o'r manteision o addysg ddwyieithog drwy ddosbarthu 'Bod yn Ddwyieithog' ac adnoddau eraill (gweler isod), ond adnabuwyd, yn y Cynllun Gweithredu, y potensial o weithredu ymgyrch benodol i annog teuluoedd i ddewis Gweithiwr Allweddol cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau gofal plant dwyieithog. Nid yw'r cam hwn wedi'i weithredu hyd yma.

Bu partneriaeth **Cwlwm** yn cefnogi gweithlu'r sector gofal plant i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol drwy ddarparu adnoddau ac annog staff yn y sector i ddilyn cyrsiau i ddysgu Cymraeg. Gweithredwyd Prosiect EDI oedd yn asesu'r gweithlu Gofal Plant ar lefelau darllen, siarad, ysgrifennu a gwrando. Bu swyddogion awdurdodau lleol yn annog darparwyr i gymryd rhan er mwyn nodi lefelau ac i allu cynllunio ar gyfer anghenion y ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Casglwyd data ar sgiliau iaith 31 o ymarferwyr y sector yn Sir Gâr. Wedi canfod y

waelodlin yma, sefydlwyd prosiect **Camau**, i gynnig cyrsiau iaith i'r sector. Nid oedd modd casglu data ar niferoedd o Sir Gâr a ddilynodd gyrsiau Camau ac mae'r ddarpariaeth bellach wedi symud ar-lein gyda chwrs Hunan-astudio ar lefel Mynediad. Nid oes ffigurau ar gael ar nifer y dysgwyr a ddilynodd y cyrsiau ar-lein hyd yma.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Annog lleoliadau gofal plant i symud ar hyd y continwwm iaith i gynnig mwy o elfennau Cymraeg yn eu darpariaeth |

Mae staff Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol wedi bod yn annog a chefnogi darpariaeth Gymraeg yn y lleoliadau gofal plant yn ystod eu hymweliadau. Maent wedi darparu adnoddau a syniadau ar gyfer cyfleoedd dysgu a gweithgareddau Cymraeg i'r plant. Maent wedi dosbarthu gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ac adnoddau Cymraeg i'r lleoliadau ar draws y sir ac wedi dosbarthu gwybodaeth am ddarpariaeth Cymraeg i Blant a Chlybiau Cwtsh yn eang. Maent hefyd wedi sicrhau bod gwefan y sector, sef Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg bob amser. Mae'r sianeli cyfathrebu a'r wybodaeth am y Gymraeg i'r sector wedi cryfhau yn ystod cyfnod y Strategaeth hwn.

| Nod |
|---|
| Sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am fagu plant yn ddwyieithog yn treiddio drwy ddarpariaeth gofal plant cyn oed ysgol y sir |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Hyrwyddo manteision magu plant yn ddwyieithog drwy holl leoliadau gofal plant y sir |

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, arweiniodd Cyngor Sir Gâr y gwaith o lenwi'r bwlch lleol a adawyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o safbwynt cyfleu negeseuon cadarnhaol am addysg Gymraeg ac am ddefnyddio Cymraeg gyda phlant drwy lunio ac argraffu adnoddau pwysig. Yn gyntaf, mewn cydweithrediad â holl gyrff y Fforwm Strategol Sirol, crëwyd y llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' gyda'r bwriad o hyrwyddo addysg Gymraeg, egluro rhai cam-ddealltwriaethau am addysg Gymraeg o fewn ein poblogaeth a phwysleisio bod y Gymraeg ar gael i bawb yn y sir. Dosbarthwyd y llyfryn hon drwy leoliadau gofal plant, ysgolion, drwy bapur newydd 'Newyddion Sir Gâr', drwy'r Mentrau, drwy 'Y Lle', drwy 'Dechrau'n Deg' a thrwy'r gofrestrfa. Fe'i rhoddwyd ar wefan y Cyngor a gwefan 'Cymorth i Deuluoedd'. Defnyddiwyd y llyfryn hefyd yn ystod y broses o ymgynghori gyda chymunedau'r ysgolion a oedd yn newid i ddarparu addysg Gymraeg yn ystod mis Cymraeg 2019.

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, aed ati i greu llyfryn dilynol oedd yn cyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd di-Gymraeg. Argraffwyd Cymraeg gyda'r Plant a oedd yn adnodd ymarferol i gynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddefnyddio'r hynny o Gymraeg sydd ganddynt gyda'r plant a hynny er mwyn atgyfnerthu datblygiad ieithyddol y plant. Fe'i ddosbarthwyd i holl ysgolion cynradd y sir i gyd-fynd â gwaith CSGA a'r Siarter Iaith. Yn ôl un Athrawes Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd (AGGaD):

"Mae cryn dipyn o ysgolion yn rhoi'r llyfrynnau yn "Starter Packs" y plant os nad yw'r rhieni yn siarad Cymraeg... Rwy' wedi defnyddio'r llyfrynnau wrth weithio gyda rhieni ac hwyrddyfodiaid hefyd... Mae'r ysgolion yn gweld bod y llyfrynnau yn lliwgar ac yn syml - "user friendly" gydag ymadroddion defnyddiol i'r cartref".

Dosbarthwyd y llyfryn hefyd drwy ein Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a chan ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg.

Yr olaf o'r adnoddau i hyrwyddo manteision magu plant yn ddwyieithog a grëwyd yn ystod cyfnod y Strategaeth hon oedd llyfryn oedd â'r prif nod o leddfu gofidiau teuluoedd di-Gymraeg am beidio â gallu cynorthwyo eu plant gyda gwaith cartref pe bydden yn derbyn addysg Gymraeg. Lluniwyd Gwaith Cartref. Dim Problem ar y cyd gyda'r Adran Addysg mewn fersiwn Saesneg a oedd yn cynorthwyo teuluoedd i oresgyn y rhwystrau ieithyddol canfyddedig o gynorthwyo gyda gwaith cartref, a fersiwn Gymraeg a oedd yn cynorthwyo teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt gyda'r plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu eu haddysg. Gyda chymorth nawdd gan Gronfa Glyndwr, fe'u hargraffwyd i'w dosbarthu i ysgolion y sir ac fe'i ddosbarthwyd i holl ysgolion y sir yn electronig hefyd. Mae rhai ysgolion wedi ei ddosbarthu ar bapur a thrwy ap yr ysgol, ond prin iawn yw'r ysgolion sydd wedi ei gynnwys ar eu gwefannau.

Er mwyn cydlynu ac atgyfnerthu ymdrechion yr holl sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn y sir, sicrhaodd y Cyngor bod holl adnoddau hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael eu rhannu ar Sharefile. Bwriad hyn oedd sicrhau y gallai pawb ddefnyddio deunyddiau ei gilydd. Gwahoddwyd staff y AGGaD, Gwybodaeth i Deuluoedd a Dechrau'n Deg y Cyngor, staff Meithrin, y Mentrau, Cymraeg i Blant, Early Years Wales a'r Awdurdod Iechyd i gael mynediad at y deunyddiau electroneg. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol dros ben wrth i brosiectau newydd gael eu sefydlu yn y maes gan fod modd i'r staff newydd gael mynediad at yr holl adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg heb orfod cysylltu â chyrff unigol. Fodd bynnag, prin iawn y mae'r cyrff hirsefydlog yn y sir wedi defnyddio'r adnodd.

Rhannwyd yr adnodd gyda siroedd eraill Cymru gyda'r gwahoddiad iddynt ei addasu a'i ddefnyddio at eu dibenion ac fe wnaed hynny gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

| **Nod** |
|---|
| Sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn greiddiol i wasanaethau *Dechrau'n Deg* |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau bod gofyniad iaith digonol ar swyddi Iaith a Chwarae *Dechrau'n Deg* |

Dim ond dau swyddog Iaith a Chwarae sydd gan Dechrau'n Deg ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae un yn meddu ar sgiliau Cymraeg a'r llall yn uniaith Saesneg.

Yn ystod, 2020 ail-gomisiynwyd lleoliadau i ddarparu gofal plant o dan faner Dechrau'n Deg. Ail-luniwyd yr adran ar amodau iaith i nodi fod yn rhaid i bob lleoliad fod yn un sy'n darparu'n Gymraeg neu'n Gymraeg a Saesneg yn unol â diffiniadau'r llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n debygol fod y pandemig wedi amharu ar y cynlluniau hyn ac na fydd modd cadw at yr amodau hyn yn y cytundebau newydd i gyd. Os nad oes digon o ddarparwyr ar gael, mae'n bosib y bydd yn rhaid llacio'r amodau mewn rhai amgylchiadau. Byddwn yn ail-asesu'r sefyllfa ac yn rhoi camau gweithredu newydd ar waith i gadw golwg manwl ar y sefyllfa a sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gymreigio lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg i gyd.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Archwilio'r posibiliadau o gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu cyrsiau gwella'r Gymraeg i ymwelwyr iechyd *Dechrau'n Deg* |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Ymdrechu i gynyddu nifer y rhieni sy'n dewis lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant a ddarperir gan D*echrau'n Deg* |

Mae systemau cofrestru Dechrau'n Deg yn gofyn i deuluoedd i nodi eu dewis iaith ar gyfer gofal plant er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg os ydynt yn ei ddymuno. Ym mis Mawrth 2016 a Medi 2016, gofynnodd 23% a 25% o deuluoedd Dechrau'n Deg am ofal plant cyfrwng Cymraeg. Fis Mawrth 2019, gofynnodd 18 allan o 114 am ofal plant Cymraeg (16%). Fis Medi 2019 gofynnodd 46 allan o 256 am ofal plant Cymraeg (18%). Yn 2020-21 (sef y flwyddyn a gaeth ei effeithio gan gyfnodau clo COVID-19), gofynnodd 56 allan o 480 am ofal plant Cymraeg (12%). Does dim patrwm o gynnydd yn y ffigurau hyn a fyddai'n awgrymu bod y gwaith marchnata rydyn ni wedi ymgymryd ag ef yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, rhaid cofio y byddai angen dadansoddiad llawer manylach, gan gynnwys astudiaeth o ffigurau mewnfudo i'r ardaloedd dan sylw, er mwyn deall yn iawn y newid yn nemograffeg y teuluoedd perthnasol dros y cyfnod o 5 mlynedd.

O safbwynt y nifer a'r canran o deuluoedd sy'n derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy Dechrau'n Deg, mae llawer mwy yn derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg nag sy'n gofyn yn benodol amdano. Yn ystod 2020-21, er mai dim ond 12% gofynnodd am ofal plant Cymraeg, clustnodwyd gofal cyfrwng Cymraeg i 59 allan o'r 161 (37%) o'r plant oedd yn derbyn gofal plant drwy Dechrau'n Deg. Ac yn ystod 2021-22, hyd yma er mai 13% o'r teuluoedd a ofynnodd am ofal plant cyfrwng Cymraeg, clustnodwyd gofal cyfrwng Cymraeg i 38% ohonynt.

Yn ystod 2019, argraffwyd taflenni 'Bod yn Ddwyieithog' gyda nodyn ar y clawr yn annog pobl i ystyried gofal plant cyfrwng Cymraeg:

**Gall cael gofal Cymraeg i'ch plentyn fod yn ffordd wych o ddechrau eich plentyn ar ei daith i ddod yn ddwyieithog!**

**Edrychwch am yr arwydd ar wefan [www.fis.carmarthenshire.gov.wales](www.fis.carmarthenshire.gov.wales) neu gofynnwch i'r ymwelydd iechyd am gyngor.**

Ar yr un pryd, newidiwyd y wybodaeth ar wefan FIS i sicrhau bathodyn iaith gwaith wrth leoedd gofal plant Cymraeg er mwyn i rieni / gwarchodwyr allu gweld yn haws ble i gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Trefnu dosbarthu Bod yn Ddwyieithog ac adnodd y Llywodraeth drwy ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg a thrwy becynnau llyfrau sy'n mynd i bob teulu |

Dosbarthwyd 'Bod yn Ddwyieithog' drwy leoliadau gofal plant a thrwy sesiynau iaith a chwarae yn ystod 2017-18 ac yn y bagiau llyfrau a roir i bob teulu o fewn prosiect Dechrau'n Deg o 2019 ymlaen.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Ystyried y posibilrwydd o gynnwys negeseuon cadarnhaol am ddwyieithrwydd mewn hyfforddiant rhianta Dechrau'n Deg |

Cynhaliwyd cyflwyniadau yn ystod 19/20 i staff rhianta Dechrau'n Deg i godi eu hymwybyddiaeth o'r angen i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y rhaglen. Mae unrhyw ddeunyddiau a ddosberthir yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd, ond cydnabyddir fod y staff wedi eu cyfyngu i raddau gan fod rhaid cyflwyno rhaglenni *fidelity* ac yn aml nid yw'r rhain ar gael yn Gymraeg.


### 1.1.3 Caffael sgiliau sylfaenol: Darpariaeth gofal cyn oed ysgol yn Gymraeg Fframwaith Traweffaith

| **Amcan Strategol 1**<br><br>Cynyddu niferoedd sy'n **caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau uwch** yn y Gymraeg drwy'r **system addysg** a thrwy **drosglwyddo iaith** yn y cartref | | | |
|---|---|---|---|
| Dangosydd Deilliant | Mesur | Mesur Technegol | Ffynhonnell |
| **3**<br><br>**Mwy o blant a phobl ifanc yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ac uwchdrwy'r system addysg (ffurfiol ac anffurfiol)** | 3.1 Nifer a chanran plant 3 oed sy'n derbyn gofal plant neu addysg cyfrwng Cymraeg | Nifer a chanran y plant 3 oed sy'n derbyn addysg gynnar a gofal dydd a ddarperir yn y sector a chynhelir ac nas cynhelir yn Gymraeg<br><br>*Ar hyn o byd does dim modd gwybod am y plant sy'n derbyn gofal cyfrwng Cymraeg mewn meithrinfeydd dwyieithog | Data ysgolion, Mudiad Meithrin + darparwyr gofal plant eraill<br>Data niferoedd plant 3 oed mewn lleoliadau Cymraeg Meithrin ac Ysgolion Cymraeg<br>Nifer plant 3 oed mewn meithrinfeydd dydd Cymraeg<br>Nifer yng ngharfan gyfan y flwyddyn o ystadegau gwladol |


### 1.1.4 Caffael Sgiliau Sylfaenol ac Uwch: CSGA
### I ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein Strategaeth Hybu?

Nid y Strategaeth hon sy'n gyfrifol am gynllunio na gweithredu darpariaeth addysg Gymraeg, ond yn hytrach Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2032 allan i ymgynghoriad ar adeg llunio'r adroddiad hwn. Ceir manylder ar sefyllfa a thargedau addysg Gymraeg y sir yn y ddogfen honno. Dyma ddarlun ystadegol bras o'r sefyllfa ar gyfer ystyriaethau'r adroddiad hwn gan ddechrau gyda nifer a chanrannau'r plant sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r sefyllfa o ran canran y plant 5 oed (dosbarth derbyn) sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gadarn. Roedd 62.5% o blant 5 oed Sir Gâr yn cael addysg yn Gymraeg yn 2021.




Mae'r canran hwn wedi bod yn cynyddu ers 2016, gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld ers 2018.




Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel disgyblion, mae'r nifer o blant blwyddyn 2 (sef diwedd y cyfnod sylfaen) yn Sir Gâr wedi aros ar ffigwr o rhwng tua 1,100 yn ystod cyfnod y

Strategaeth hon. Mae'r nifer yn gostwng ychydig yn niwedd y cyfnod cynradd, ond mae'r gostyngiad hwnnw wedi lleihau rhwng 217 pan oedd yn 94 yn llai ym mlwyddyn 6 nac ym mlwyddyn 2 i 38 yn 2020/21. Yn niwedd y cyfnod gorfodol yn yr ysgol, blwyddyn 11, mae'r nifer yn lleihau eto, gan rhwng 197 a 263. Wrth reswm mae'r niferoedd dipyn llai erbyn diwedd y cyfnod ysgol gyda nifer fawr yn gadael yr ysgol yn lle parhau i'r chweched dosbarth.

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 2** | 1,096 | 1,112 | 1,177 | 1,131 | 1,100 |
| **Blwyddyn 6** | 1,002 | 1,039 | 1,138 | 1,055 | 1,062 |
| **Blwyddyn 11** | 805 | 789 | 750 | 794 | 799 |
| **Blwyddyn 13** | 383 | 409 | 459 | 437 | 436 |

O ran canrannau, mae'r plant sy'n astudio yn Gymraeg yn y sir ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn amrywio o 54% i 58% gyda'r canran rhwng 3 a 6 % yn llai ar ddiwedd y cyfnod cynradd. Mae'r canran sy'n astudio yn Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod gorfodol yn yr ysgol wedi aros ar 43% ond mae'r canran o ddisgyblion sy'n astudio yn Gymraeg yn y chweched wedi cynyddu o 58% i 64%.

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 2** | 56% | 54% | 57% | 58% | 57% |
| **Blwyddyn 6** | 53% | 55% | 55% | 52% | 51% |
| **Blwyddyn 11** | 43% | 44% | 41% | 43% | 43% |
| **Blwyddyn 13** | 58% | 61% | 64% | 67% | 64% |

Bydd modd cael data mwy cyflawn a chyfredol wrth sefydlu Strategaeth Dau gan y bydd y CSGA newydd wedi ei gyhoeddi. Byddwn yn medru craffu ar ganran y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg a Chyfnod Allweddol 2 er enghraifft a chanran y disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd modd cynllunio ymgyrchoedd i ymateb i dargedau'r CSGA a gweithredu er mwyn atgyfnerthu gwaith y CSGA a hynny ar lefel gymunedol.

Yn ôl ffigurau *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru* a'r *Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion*, mae canrannau disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg iaith gyntaf wedi aros yn sefydlog yn ystod cyfnod y strategaeth hon, a hynny ar 40%. Mae canrannau Ceredigion, Môn a Gwynedd yn sylweddol uwch na chanrannau Sir Gâr. 63%, 68% ac 83% yw eu ffigurau diweddaraf nhw. Mae gweddill siroedd Cymru gyda chanrannau sylweddol is na sir Gâr o ran TGAU iaith gyntaf, gyda Dinbych ar 20% a RhCT ar 18%.

O ran disgyblion sydd heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg o gwbl (p'un ai yn iaith gyntaf neu ail iaith), mae canran Sir Gâr wedi gostwng ychydig o 8.5% yn 2016 i 7.7% yn 2020. Mae gan siroedd Conwy, Ceredigion, Gwynedd a Môn lai o ddisgyblion sydd heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg o gwbl, ac mae gan weddill siroedd Cymru fwy.

O ran disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel pwnc ar lefel uwch ac uwch gyfrannol yn iaith gyntaf neu ail iaith, mae canran Sir Gâr wedi aros yn gyson yn ystod cyfnod y strategaeth hon rhwng

3 a 4%. Dim ond 8 o siroedd eraill Cymru sydd â chanran is o ddisgyblion yn astudio Cymraeg fel pwnc. Roedd 17% yng Ngwynedd yn astudio Cymraeg yn 2020 a 7.7% yng Ngheredigion.

Gweledigaeth CSGA Sir Gaerfyrddin yw symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith ac ymgorffori dull trochi yn y Cyfnod Sylfaen dros amser gan gynyddu cyfleoedd i bob dysgwr ar draws y sir o bob cefndir ieithyddol gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd gweithio o fewn amserlen o 7-10 mlynedd yn sicrhau nad yw'r un ysgol yn sefyll yn ei hunfan. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn amlygu'r angen enfawr am hyfforddiant iaith dwys i'r holl staff ar draws pob cyfnod allweddol yn ogystal â hyfforddiant sgiliau iaith pwnc yn y sector uwchradd yn arbennig.

Yr hyn na wnaed yn ystod cyfnod y Strategaeth Hybu hon oedd edrych ar dargedau'r CSGA i gyfeirio gwaith y Fforwm. Daeth y gwaith o greu'r daflen 'Gwaith Cartref. Dim Problem' allan o gasgliadau'r adran addysg, ond mae angen gwneud tipyn mwy o waith i graffu ar dargedau'r CSGA ac ymateb gyda gweithgarwch i'w atgyfnerthu. Byddai modd defnyddio'r adnoddau hyrwyddo fel sail i'r gweithgarwch hwn. Mae'r categorïau ysgolion newydd hefyd ar fin cael eu cyhoeddi ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth Hybu a bydd angen ystyried eu goblygiadau yn enwedig mewn perthynas â gwaith marchnata addysg Gymraeg yn y cyfnod nesaf.

Yn ogystal, sefydlwyd Canolfan newydd i hwyrddyfodiad ar ôl cyfnod adrodd y Strategaeth hwn. Bydd y Ganolfan Iaith newydd yn darparu gwersi i hwyrddyfodiaid o'r sector Cynradd ac Uwchradd. Bydd hwn yn adeilad pwrpasol lle gall disgyblion o bob oed ddysgu Cymraeg mewn amgylchedd arloesol uwch-dechnoleg fodern, ac fe allai gynnig cyfleoedd cydweithio gwych o safbwynt lledaenu negeseuon cadarnhaol am fynediad a manteision addysg Gymraeg hefyd.

**1.1.5 Caffael Sgiliau Sylfaenol ac Uwch: CSGA**
**Fframwaith Traweffaith**

| | | |
|---|---|---|
| **3.2 Canran y plant 7 oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf)** | Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) yn seiliedig ar gasgliad data cenedlaethol asesiadau athrawon | Data cenedlaethol asesiadau athrawon |
| **3.3 Canran y disgyblion 11 oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg** | Canran y disgyblion Blwyddyn 7 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). | Data cenedlaethol asesiadau athrawon<br><br>Byddwn ni'n gallu cael niferoedd, ond ar hyn o bryd dim gwybodaeth pellach am o ble maen nhw wedi dod. Mae'n bosib y daw mwy o bosibiliadau o'r adran addysg ar hyn nes mlaen |
| **3.4 Canran y disgyblion 13 oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg** | Canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). (Deilliant 2 CSGA) | Data cenedlaethol asesiadau athrawon |
| **3.5 Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU ac a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg** | Yn seiliedig ar ddata CBAC. Nid yw'n cynnwys llenyddiaeth Gymraeg; mae TGAU cymhwysol a gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. | CBAC |
| **3.6 Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 2 neu fwy o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg** | Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 2 neu fwy o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg (ag eithrio Cymraeg Iaith) | CBAC |
| **3.7 Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 5 neu fwy o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg** | Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 2 neu fwy o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg (ag eithrio Cymraeg Iaith) | CBAC |
| **3.8 Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer un neu fwy o bynciau Safon** | Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 2 neu fwy o bynciau TGAU trwy gyfrwng y | CBAC |

| | | |
|---|---|---|
| **Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.** | Gymraeg (ag eithrio Cymraeg Iaith) | |
| **3.9 Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer safonau uwch Cymraeg Iaith Gyntaf** | Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU ddwy flynedd yn gynharach ar sail data CBAC | CBAC |
| **3.10 Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer safonau uwch Cymraeg Ail Iaith** | Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Ail Iaith TGAU ddwy flynedd yn gynharach | CBAC |
| **3.11 Canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ac sy'n gallu siarad Cymraeg** | Canran y dysgwyr ym mlwyddyn 11 a blwyddyn 13 sydd yn y categorïau CYBLD 'Fluent in Welsh' a 'Speaks Welsh but not fluently' | Data Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD) Cyngor Sir Gâr |
| **3.12 Canran ysgolion y sir sydd wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd** | Datganiad a chamau gweithredu ar gyfer gwneud cynnydd mewn perthynas â rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith o fewn Cynlluniau Datblygu pob ysgol yn y Sir | Adran Addysg Cyngor Sir Gâr + ERW |
| **3.13 Canran myfyrwyr mewn colegau a dysgu seiliedig-ar-waith yn y sir sy'n cael eu haddysg uwch a phellach drwy'r Gymraeg** | Nifer a chanran myfyrwyr Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod sydd wedi'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â diffiniad y Coleg Cymraeg | Y Coleg Cymraeg<br><br>(Bydd yn cynnwys myfyrwyr campws Ceredigion ac Abertawe, nid dim ond Sir Gâr) |
| **3.14 Nifer yr unigolion sy'n byw yn Sir Gâr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg** | Nifer y bobl sydd yn byw yn Sir Gâr ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn Sir Gâr, yn dilyn cyrsiau o bell a chyrsiau y tu allan i Sir Gâr, e.e. cyrsiau dros y ffin yn ardal Abertawe, Sir Benfro neu Geredigion. Cyfanswm a nifer fesul lefel | Data Dysgu Cymraeg y Cyngor Sir + Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth (YGDCG) + Cymraeg Gwaith |

**1.1.6 Caffael Sgiliau Uwch: Darpariaeth Cymraeg i Oedolion**
**I ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein Strategaeth Hybu?**

O safbwynt **addysg bellach**, erbyn hyn mae gan **Goleg Sir Gâr** diwtoriaid sy'n cyflwyno'n ddwyieithog ym meysydd Amaethyddiaeth, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant a Gwaith Saer. Mae dysgwyr yn cyflawni peth o'u gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ceir ethos cryf o ddwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mae llawer o ddysgwyr yn cyfathrebu ar lafar yn Gymraeg yn ystod eu gwersi.

Mae dysgwyr yn defnyddio ac yn gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod lleoliadau gwaith Gofal Plant gan fod dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu cefnogi i mewn i leoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg lle bynnag y bo modd. Hefyd, fe gwblheir asesiadau arsylwi yn Gymraeg. Mae'r holl asesiadau Gofal Plant allanol ar gael yn Gymraeg. Cyfieithwyd yr holl adnoddau Gofal Plant fel bod adnoddau ystafell ddosbarth ar gyfer pob modiwl ac ar bob lefel ar gael yn ddwyieithog. Caiff yr adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eu cryfhau gan yr adnoddau sydd ar gael trwy system Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

O ran darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, gwelwyd cynnydd yn sgîl CBAC yn cynnig y cymhwyster, sy'n golygu nad oes angen dibynnu ar fyrddau arholi Saesneg. Mae pynciau Iechyd a Gofal a Gofal Plant, a oedd yn cael eu cynnig gan BTEC a CACHE yn unig gynt bellach yn cael eu cynnig gan CBAC. Mae hyn yn welliant gan fod yr holl adnoddau a chyfrwng yr asesiadau nawr ar gael yn Gymraeg.

O safbwynt **addysg uwch**, ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg gref ar gyrsiau Amaethyddiaeth Coleg Sir Gâr yn y Gelli Aur. Cyflwynir y cwrs yn ddwyieithog ac mae pob modiwl ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y cyrsiau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi cynyddu i'r ddarpariaeth gyfredol o gynnig 120 o gredydau ar lefel 4, 5 a 6. Felly, mae'r Radd Sylfaen a'r BSc (Anrh) ar gael i'w hastudio'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfoethogir y ddarpariaeth trwy ymgorffori adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael drwy'r rhwydwaith Google Classroom, a hefyd tiwtorialau cyfrwng Cymraeg a darlithoedd grŵp cyfrwng Cymraeg. Hwylusir siaradwyr a gweithdai technegol arbenigol hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant am eu cefnogaeth i gyflwyno Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg ar ein campws yn y Gelli Aur.

Mae'r coleg wedi datblygu llwybr dwyieithog llwyddiannus ar L3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi bod ar waith ers y tair blynedd ddiwethaf. Rhoddir cyfle i'r dysgwyr ffurfio sail ieithyddol gadarn i'w sgiliau iaith. Mae staff yn creu adnoddau dwyieithog sy'n cael eu rhannu ar draws y sector Addysg Bellach. Mae'n ofynnol i bob dysgwr ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg wythnosol a fydd yn gwella cyfleoedd gwaith o fewn y sector.

Trwy gynigion llwyddiannus am grantiau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mae'r Coleg wedi datblygu grwpiau dysgu dwyieithog/cyfrwng Cymraeg ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd grŵp cyfrwng Cymraeg yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fis Ionawr 2022 gan eu bod ar fin hysbysebu swydd a ariennir am diwtor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb dros wella a chefnogi sgiliau Cymraeg ein dysgwyr a'n tîm addysgu.

Yn dilyn newid diweddar yng nghymwysterau'r bwrdd arholi i'r cymhwyster newydd L2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol CBAC: Craidd Cyfunol mewn Oedolion a Phobl Ifanc yn ogystal â Diploma L3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, bellach gellir cynnig pob asesiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewnol ac allanol i'r dysgwyr yn Gymraeg. Mae'r holl ddysgwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn mynychu gwersi 'Cymraeg ar gyfer y Gweithle' bob wythnos ac mae'r coleg yn parhau i weithio ar ddatblygu adnoddau dwyieithog ar gyfer Mynediad i Nyrsio a Hamdden a Thwristiaeth.

Rhoddir cyfle i ddysgwyr Mynediad i Nyrsio wneud cais am fwrsariaethau i gwblhau o leiaf un uned trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml, yr uned profiad gwaith yw'r uned hon.

Drwy gyflogi mwy a mwy o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg yn y maes Celf a Dylunio, bu cynnydd yn nifer y modiwlau a gynigir yn ddwyieithog ar y cyrsiau hyn. Yn yr adran Gelf a Dylunio, mae 13 aelod o'r tîm yn Gymry Cymraeg (mae 7 o'r rhain yn ddysgwyr Cymraeg). Mae staff yn cefnogi dysgwyr i gyflawni modiwlau Addysg Uwch Cymraeg gyda tharged o 40 o gredydau bob blwyddyn academaidd. Ar gampws Pibwrlwyd, caiff dysgwyr Cymraeg eu hiaith eu cefnogi i astudio rhai agweddau ar eu gwaith yn Gymraeg er mwyn eu helpu i symud ymlaen i Lefel 4. Mae'r gyfadran Celf a Dylunio yn darparu cyfleoedd ymchwil a datblygiad creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sicrhau bod cyd-destun diwylliannol Cymreig ar draws yr holl raglenni. Mae cysylltiadau cyflogadwyedd gyda'r sector sy'n cynnwys Yr Egin a diwydiannau creadigol eraill yn y rhanbarth i gefnogi cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth myfyrwyr Cymraeg ar y rhaglenni gradd. Fe gefnogir y Coleg mewn Celf a Dylunio Addysg Uwch gan grant oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a dyma'r ystadegau ar gyfer 2020-21:-

| **1. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** |
|---|
| a) Darpariaeth y brifysgol o fewn y pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg |

| (i) Credydau a gynigwyd yn 2019/20 | | | | | (ii) Credydau a gynigwyd yn 2020/21 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | Bl.4 | OR | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | Bl.4 | OR |
| 100 | 90 | 100 | | | 120 | 120 | 120 | | |

| b) Rhestr cyrsiau gradd o fewn y pwnc sy'n cynnwys elfen o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2020/21) | | |
|---|---|---|
| Teitl | Cod UCAS | % cyf. Cymraeg |
| Celf a Dylunio Lefel 3 (yr0) | n/a | 33% |
| BA (Anrh) Celf A Dylunio: Amlddisgyblaethol | W000 | 35% |
| BA (Anrh) Cerameg a Gemwaith: Gwneuthurwr 3d | WW27 | 33% |
| BA (Anrh) Darlunio Digidol (L5 &L6)/ BA (Anrh) Celf Gysyniadol a Darlunio (L4) | W221 | 35% |
| BA (Anrh) Ffasiwn: Dylunio a Llunio | W2H0 | 30% |

| | | |
|---|---|---|
| BA (Anrh) Cyfathrebu Graffig (L5 &L6) / BA (Anrh) Mewn Dylunio 3d a Rhith-Wirionedd (L4) | W290 | 45% |
| BA (Anrh) Celfyddyd Gain: Peintio, Lluniadu a Gwneud Printiau | W101 | 33% |
| BA (Anrh) Ffotograffiaeth | W640 | 55% |
| BA (Anrh) Cerflunio: Castio, Cerfio, Llunio | W130 | 60% |
| BA (Anrh) Tecstilau: Gwau, Gwehyddu a Chyfryngau Cymysg | W232 | 70% |

| c) Lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir (ym mhob blwyddyn) yn ystod 2020/21? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| rhywfaint yn Gymraeg | | | 40 credyd bob blwyddyn | x |
| 80 credyd bob blwyddyn | | | 120 credyd bob blwyddyn | |

## 2. Niferoedd Myfyrwyr

| a) Niferoedd myfyrwyr sy'n astudio'r pwnc yn y brifysgol hon yn 2020/21 | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (i) Sy'n siarad Cymraeg yn rhugl | | | | | (ii) myfyrwyr rhugl yn astudio 5 cr+ yn Gymraeg | | | | | (iii) myfyrwyr rhugl yn astudio 40cr+ yn Gymraeg | | | | |
| 2020/21 | | | | | 2020/21 | | | | | 2020/21 | | | | |
| Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR | Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR | Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR |
| 28 | 13 | 9 | 9 | | 28 | 13 | 9 | 9 | | 8 | 2 | 5 | 9 | |
| (i) Sy'n siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl | | | | | (ii) myfyrwyr sydd ddim yn rhugl yn astudio 5 cr+ yn Gymraeg | | | | | (iii) myfyrwyr sydd ddim yn rhugl yn astudio 40cr+ yn Gymraeg | | | | |
| 2020/21 | | | | | 2020/21 | | | | | 2020/21 | | | | |
| Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR | Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR | Bl.0 | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | OR |
| 20 | 13 | 12 | 12 | | 20 | 13 | 12 | 12 | | 0 | 0 | 0 | 0 | |

| b) Lefel y niferoedd myfyrwyr a gofrestrir ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (ym mhob blwyddyn ar gyfartaledd) yn ystod 2020/21? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 ymhob blwyddyn | | | 10 ymhob blwyddyn | X |
| 15 ymhob blwyddyn | | | 20 ymhob blwyddyn | |

Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth hon, mae gan **Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** a Choleg Sir Gâr y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr sydd wedi derbyn ysgoloriaethau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y flwyddyn academaidd 2020/21. Derbyniodd 118 o fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr un o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynnwys Ysgoloriaeth William Salesbury, Ysgoloriaethau Cymhelliant, Ysgoloriaethau Ymchwil a'r Brif Ysgoloriaethau, gyda nifer o fyfyrwyr o Sir Gâr yn elwa o'r ysgoloriaethau hyn. Mewn cydweithrediad â'r Coleg mae'r

brifysgol a Choleg Sir Gâr wedi buddsoddi'n helaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn creu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r newydd mewn meysydd megis Celf a Dylunio, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Chwaraeon, Busnes, y Blynyddoedd Cynnar, Gwaith Ieuenctid a Chymuned ac Astudiaethau Crefydd.

Hyd yma, ni chafwyd data rheolaidd yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg gan y Brifysgol. Serch hyn, yn dilyn ailstrwythuro bydd ei Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei diwygio ac mae Rheolwr Gweithrediad Addysg cyfrwng Cymraeg ar fin cael ei benodi. Bydd y ddau ddatblygiad hyn yn greiddiol i ddatblygu'r Gymraeg o fewn y sefydliad ac yn bwydo'n uniongyrchol i'r Strategaeth Hybu nesaf.

O ran dysgu **Cymraeg i Oedolion**, mae'r ffigurau o safbwynt nifer y dysgwyr wedi aros yn gymharol gyson yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, rhwng 716 a 757 ac mae'n galonogol fod y ffigurau wedi adsefydlu a chodi ychydig ers y newidiadau a ddaeth o ran y pandemig. Ym mis Mawrth 2020 daeth holl ddysgu wyneb i wyneb y sector i ben, ac fe drosglwyddwyd y dosbarthiadau i fod yn rhithiol. Ers hynny mae opsiynau newydd wedi eu cyflwyno i'r dysgwyr gan gynnwys cyrsiau cyfunol a hunan-astudio, ond mae'r elfen o ddysgu gyda thiwtor wedi parhau yn rhithiol am y tro.

| Blwyddyn | Dysgwyr unigryw | Gweithgareddau Dysgu |
|---|---|---|
| ***2020/21**** | *757* | *872* |
| **2019/20** | 570 | 748 |
| **2018/19** | 716 | 840 |
| **2017/18** | 731 | 843 |

Ffigurau dysgwyr Cymraeg i oedolion sy'n byw yn sir Gâr. Maent yn cynnwys y rhai sy'n dysgu yn y gymuned ac yn y gweithle.

* Nid yw data 2020/21 yn ddata terfynol. Cyhoeddir y data ar gyfer y flwyddyn 2020/2021 ar 31 Mawrth 2022

Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol, sy'n dangos cynnydd sylweddol mewn dysgwyr a gweithgareddau dysgu yn y flwyddyn academaidd 2019/20, wrth i bopeth drosglwyddo i'r byd digidol. Gellir egluro'r cynnydd yma ymhellach gan fod ystadegau Cymraeg Gwaith wedi eu cynnwys yn y data yma am y tro cyntaf. Gwelwn fod y gweithgareddau dysgu wedi cynyddu gan draean yn genedlaethol rhwng 2018/19 a 2019/20, tra bod y ffigwr wedi gostwng yn sylweddol yn Sir Gâr yn yr un cyfnod er bod ffigurau Cymraeg Gwaith wedi eu cynnwys yma hefyd.

| Blwyddyn | Dysgwyr Unigryw | Gweithgareddau dysgu |
|---|---|---|
| 2020/21 | | |
| 2019/20 | 17,505 | 30,115 |
| 2018/19 | 13,260 | 20,330 |
| 2017/18 | 12,680 | 19,490 |

Mae'n bosib bod diffyg cysylltiad â'r we wedi egluro rhywfaint o ostyngiad dysgwyr Sir Gâr yn 2019/20. Mae'n bosib hefyd fod rhywfaint o'r cynnydd cenedlaethol yn adlewyrchu'r ffaith bod modd i ddysgwyr o'r tu allan i Gymru gymryd rhan mewn gwersi ar-lein bellach.

O ran y **sefydliadau cyhoeddus** mwyaf sy'n gweithredu yn y sir, gosodwyd y Safonau ar y Cyngor Sir a'r Heddlu yn 2016, ar y Brifysgol a'r Coleg yn 2018, ar yr awdurdod iechyd yn 2019. Golyga hyn fod data cyson a dibynadwy gan y sefydliadau i gyd ar sgiliau iaith y gweithlu a'r cyrsiau Cymraeg a ddarperir. Sbardunodd y Safonau nifer o gamau pwysig ymlaen o safbwynt polisïau recriwtio a chynyddu sgiliau iaith yn y gweithlu.

Yn 2017, cyhoeddodd **Heddlu Dyfed Powys** bolisi newydd o ran cefnogi'r staff i ddysgu Cymraeg. Nodwyd ymrwymiad gan y Llu, fel cyflogwr, i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg i staff a swyddogion ar bob lefel. Erbyn 2019, sicrhawyd fod pob proffil swydd newydd ar gyfer swyddogion a staff yn nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus allu cyfathrebu yn Gymraeg ar lefel 1 o leiaf, neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael eu penodi. Rhoddwyd cefnogaeth dros gyfnod o ddeuddeg mis i swyddogion a staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi i gyrraedd lefel 1.

| | Mai-16 | Mai-17 | Mai-18 | Maw-19 | Meh-19 | Mai-20 | Mai-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 355 | 352 | 322 | 284 | 277 | 256 | 252 |
| Lefel 1 | 449 | 537 | 557 | 603 | 600 | 630 | 683 |
| Lefel 2 | 414 | 425 | 400 | 407 | 406 | 395 | 392 |
| Lefel 3 | 204 | 233 | 236 | 242 | 240 | 250 | 259 |
| Lefel 4 | 163 | 203 | 191 | 194 | 191 | 195 | 200 |
| Lefel 5 | 271 | 276 | 253 | 241 | 240 | 244 | 249 |
| Heb ddweud | 122 | 285 | 112 | 88 | 92 | 94 | 92 |
| Cyfanswm | 1978 | 2311 | 2071 | 2059 | 2046 | 2064 | 2127 |

Mae data sgiliau iaith yr Heddlu yn dangos fod canran y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y gweithlu wedi aros yn gyson dros gyfnod y Strategaeth hon ar tua 35%. Gweler fod canran y staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn rhugl wedi cynyddu ychydig, o 57% i 64%. Mae nifer y staff sydd heb sgiliau Cymraeg wedi gostwng gan 5%, o 352 i 252, ac yn sefyll ar hyn o bryd ar tua 10%.

O ran cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu, roedd nifer staff yr heddlu ar gyrsiau Cymraeg yn 2018/19 yn 157, ac yn 163 yn 2020/21. Roedd y ffigurau yma'n cynnwys Dyfed a Powys gyfan ac nid Sir Gâr yn unig.

Cytunodd **Cyngor Sir Gâr** ar Strategaeth Sgiliau Iaith newydd yn 2016. Mapiwyd sgiliau iaith y staff fesul gwasanaeth er mwyn gwireddu ymrwymiadau'r Safonau. Cytunwyd i osod pob swydd ar lefel 1 fel isafswm, ac atgyfnerthwyd yr ymrwymiad i gefnogi staff i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Crëwyd swydd newydd yn 2017 i gefnogi staff i symud ar hyd y continwwm iaith, sef Ymgynghorydd dysgu a datblygu'r iaith Gymraeg. Mae data Cyngor Sir Gâr yn dangos fod canran y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y gweithlu wedi cynyddu gan 1%, o 41% i 42% dros gyfnod y Strategaeth hon. Mae canran y staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn rhugl wedi gostwng gan 1% o 59% i 58%. Mae nifer y staff sydd heb sgiliau Cymraeg wedi gostwng gan 3% o 15% i 12%.

O ran hyfforddi'r gweithlu, mae nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg ar bob lefel wedi cynyddu o 189 (ac 83 o'r rhain yn dilyn cwrs 'Croeso') yn 2017 i 314 (96 ar lefel croeso) yn 2020/21.

Mae adroddiadau **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** o sgiliau iaith y gweithlu yn cychwyn yn 2018. Ond mae'r sampl wedi gwella'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn ac felly nid yw'r gymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn yn un clir. Mae canran y staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cynyddu o 24% yn 2018 i 27% yn 2021. Mae canran y staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn rhugl hefyd wedi cynyddu o 58% i 68%. Mae canran y staff sydd heb sgiliau Cymraeg wedi cynyddu o 28% i 35%. O ystyried y cynnydd yn y sampl, nid yw'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynnydd real. Mae'n debyg y gellid dod i'r casgliad bod y ffigurau'n adlewyrchu cysondeb heb lawer o symudiad ar unrhyw lefel.

O ran hyfforddi staff, roedd 251 o staff Hywel Dda yn derbyn hyfforddiant Cymraeg yn 2019/20 (gydag 89 ohonynt ar gwrs Croeso). Yn 2020/21, roedd 288 yn dilyn cyrsiau Cymraeg (a 112 o'r rheini ar gwrs Croeso). Mae'r ffigurau yn berthnasol i holl ardal Hywel Dda ac nid Sir Gâr yn unig.

Mae data **Coleg Sir Gâr** hefyd yn dyddio o 2018 pan gofnodwyd fod 35% o'i staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, a 64% o'r staff ddim yn medru'r Gymraeg yn rhugl. Roedd 16% o'r staff heb sgiliau Cymraeg. Yn 2019/20, cyfunwyd data Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr wedi uno'r ddau sefydliad. Nodwyd bryd hynny fod 38% yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 61% ddim yn medru siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd 13% o'r staff heb sgiliau Cymraeg.

Yn yr un modd â'r data sgiliau, dechreuodd y Coleg adrodd ar hyfforddiant i'r gweithlu rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2018. Bryd hynny, roedd 40 o staff ar gyrsiau Cymraeg amrywiol ac yn 2019/20, roedd 44. Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth yma, cychwynnodd y Coleg brosiect newydd i gynyddu sgiliau iaith y staff, sef 'Basic, Better, Best'. Yn y rhaglen hon, anogir yr holl staff i wella'u sgiliau Cymraeg lle bynnag y maent ar y continwwm ieithyddol a gosodir targedau yn eu gwerthusiadau blynyddol.

Mae **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** hefyd yn adrodd ar sgiliau iaith staff ar gyfer Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ers 2018. O ran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol), nodir fod 23% o'r staff yn medru'r Gymraeg yn rhugl, nid yw 60% yn medru'r Gymraeg yn rhugl ac ni wyddir sgiliau iaith 18% o'r staff. O safbwynt y staff addysgu, nodir fod y canrannau o staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio'n fawr o gyfadran i gyfadran, gyda 0% o staff yr Adran Bensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg yn gallu addysgu'n Gymraeg, 11% o'r gyfadran Dyniaethau a Chelfyddydau Perfformio a 46% o'r Athrofa yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu, roedd 28 o staff y Brifysgol ar gyrsiau Cymraeg yn 2017/18 a 40 yn 2019/20. Ond yn ogystal â'r rhain, cofrestrodd 232 ar gyrsiau sy'n cael eu cynnig gan y Ganolfan Genedlaethol, a dyma'r tro cyntaf i'r ffigurau yma gael eu cynnwys yn y data.

Ni chafwyd data gan y Gwasanaeth Tân hyd yma.

**1.1.7 Caffael sgiliau Uwch: Darpariaeth Cymraeg i Oedolion**
**I ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein Cynllun Gweithredu?**

| Nod |
|---|
| Sbarduno mwy o gynllunio strategol o safbwynt caffael sgiliau Cymraeg i Oedolion |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Gwahodd y Ganolfan Genedlaethol i'r Fforwm Strategol Sirol |

Gwahoddwyd y Ganolfan i'r Fforwm ond penderfynwyd nad oedd modd iddynt fynychu ar lefel sirol. Mae dau ddarparwr cyrsiau Dysgu Cymraeg yn Sir Gâr, sef y Cyngor Sir a Phrifysgol Aberystwyth. Maent yn cydlynu'r ddarpariaeth gymunedol yn strategol ar y cyd yn ddaearyddol ac o ran lefelau.

Mae'r trefniadau newydd o dan y Ganolfan Ddysgu Cenedlaethol wedi sbarduno mwy o gynllunio strategol o safbwynt darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn Sir Gâr. Gyda Phrifysgol Aberystwyth a Chyngor Sir Gâr yn darparu elfennau gwahanol ar y ddarpariaeth o fewn y sir, mae llinellau clir a chyfleoedd i gydweithio ar farchnata. Mae gan y ddau sefydliad brosbectws ar y cyd ac fe geir yr holl wybodaeth ar gyfer y rhanbarth ar un dudalen we sy'n rhan o wefan ganolog y Ganolfan Genedlaethol. Mae hyn yn darparu un mynediad clir, cyfoes a deniadol i holl ddysgwyr a darpar-ddysgwyr tra'n cyfleu gwybodaeth sirol yn ogystal. O safbwynt y dysgwr, mae mynediad i'r holl ddarpariaeth (ar-lein, wyneb yn wyneb ac ar bob lefel) mewn un lleoliad pwy bynnag fo'r darparwr.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Cynllunio darpariaeth i gyd-fynd âCSGA i atgyfnerthu addysg cyfrwng Cymraeg y plant |

Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau yn y sir drwy'r Grant Arloesi i beilota cyrsiau penodol i rieni drwy Glwb Cwtsh gan y Mudiad Meithrin a chwrs dilynol, Clwb CiT, 'Cymraeg i'r Teulu', gan Gyngor Sir Gâr. Cynigiwyd y cyrsiau mewn 5 ysgol sy'n symud ar hyd y continwwm iaith yn unol â'r CSGA, yn ogystal â lleoliadau eraill.

Gweinyddwyd awdit o sgiliau iaith staff cynradd ac uwchradd y sir a darparwyd adroddiad oedd yn dadansoddi'r canlyniadau i bob pennaeth. Cynigiwyd rhaglen o gyrsiau i'r staff yn ôl y galw, yn cynnwys cyrsiau arbenigol i newid cyfrwng yr addysgu. Hysbysebwyd y cyrsiau yn gyson drwy Fwletin yr Adran Addysg. Darparwyd adnoddau arbenigol i athrawon yn ogystal â syniadau ar newid ethos ysgolion. Datblygwyd cwrs Hyder i rieni sydd yn siaradwyr anfoddog.

| | Dim sgiliau | Lefel Mynediad | Lefel Sylfaen | Lefel Ganolradd | Lefel Uwch | Lefel Hyfedr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 95 | 210 | 195 | 115 | 180 | 745 |
| **Canran** | 6% | 14% | 13% | 7% | 12% | 48% |

Ffigurau sgiliau athrawon Sir Gâr ar gyfer 2020/21

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| Cynllunio darpariaeth i gyd-fynd â datblygiadau yn y sector preifat |

Ni gynlluniwyd darpariaeth i gyd-fynd â datblygiadau yn y sector preifat, ond yn hytrach cyfeiriwyd y sector preifat at ddarpariaeth Cymraeg Gwaith.

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| Casglu gwybodaeth am ddysgwyr i ymchwilio'r tueddiadau amrywiol |

Gyda sefydlu Safle Rhyngweithiol Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (CDCG) cesglir pob math o ddata. Penodwyd aelod staff i sicrhau bod y data yn gywir ac yn cael ei ddadansoddi. O safbwynt yr hyn sy'n symbylu dysgwyr Sir Gâr i fynd ati i ddysgu Cymraeg, y prif resymau a nodwyd oedd, 'Cynyddu cyfleoedd gwaith' a 'Byw mewn cymuned Gymraeg'.

| **Nod** |
| --- |
| Targedu'r oedolion o fewn proffesiynau penodol i gynyddu sgiliau Cymraeg |

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| Gweithredu prosiect ardal Llanelli i gynyddu sgiliau Cymraeg athrawon |

Hyfforddwyd 32 o athrawon a chynorthwywyr dosbarth. Gwnaethon nhw gynnydd da drwy orffen un lefel a rhai ohonynt ddwy lefel. Ni gododd cyfle i geisio am gyllid i ailadrodd y prosiect ledled y sir.

| **Cam gweithredu** |
| --- |
| Codi ymwybyddiaeth o'r cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i staff ysgol |

Trafodwyd hyfforddiant i staff ysgolion mewn cyfarfodydd penaethiaid yn gyson. Hefyd, manteisiwyd ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth am y cyrsiau drwy gyflwyniadau i arweinwyr Siarter Iaith a Chymraeg Campus a chyrsiau hyfforddi eraill. Hyrwyddwyd cyrsiau drwy'r cylchlythyr wythnosol a thargedu ysgolion yn unol â chanlyniadau'r awdit iaith a'r CSGA o ran symud bob ysgol ar hyd y continwwm iaith

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| Ymateb i anghenion ysgolion unigol drwy gynnig cyrsiau amgen |

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, cynigiwyd cyrsiau ar wahanol lefelau i 90 o athrawon a hynny ar bob lefel (Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Gloywi).

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Prifysgol DDS i ddarparu cyrsiau Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru o fewn y rhanbarth |

Mae'r rhaglen Sabothol, sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth, yn cynnig cwrs pum wythnos i gynorthwywyr, cwrs am dymor i athrawon, a chwrs Cymraeg mewn blwyddyn. Mae'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn yn gyfle i athrawon o'r sector cyfrwng Saesneg, sy'n cael eu rhyddhau o'r ysgol am flwyddyn gyfan, gael eu trochi i'r fath raddau eu bod yn cyrraedd lefel canolradd neu uwch ac yn medru dysgu Cymraeg yn y dosbarth yn dilyn y cwrs. Mae'r effaith ar y modd y dysgir Cymraeg fel ail iaith o'r cwrs blwyddyn, a'r effaith ar y modd y mae Cymraeg yn cael ei integreiddio i weddill yr ysgol yn bellgyrhaeddol. Darparodd y Brifysgol 4 o'r cyrsiau hyn yn ystod cyfnod y strategaeth ac roedd 9 allan o'r 56 a fynychodd yn athrawon o Sir Gâr. Roedd y gweddill yn dod o siroedd eraill rhanbarth Erw.

O ran y cyrsiau sabothol eraill, roedd 22 o'r 42 o'r cynorthwywyr o'r sector dysgu cyfrwng Cymraeg a fynychodd gyrsiau yn dod o Sir Gâr ac 17 o'r 56 o gynorthwywyr o'r sector Saesneg yn gynorthwywyr oedd yn gweithio yn ysgolion Sir Gâr. O ran yr arlwy o gyrsiau i athrawon sy'n medru'r Gymraeg, roedd 8 allan o'r 34 a fynychodd gwrs yn athrawon o Sir Gâr.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Prifysgol DDS i ddarparu rhaglenni Cymraeg Gwaith sy'n cynnig cyrsiau wedi'u rhoi mewn cyd-destun ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion mewn sectorau gwaith penodol, e.e. gweithwyr gofal y sector cyn-ysgol, gweithwyr Gofal Cymdeithasol |

Ers 2019, mae'r Brifysgol yn darparu rhaglen *Camau*, sef cwrs wedi pwrpasol ar gyfer darparwyr gofal plant. Yn 2019/20 cwblhaodd 11 o ymarferwyr o Sir Gâr gwrs lefel Uwch a 25 lefel mynediad. Darparodd y Brifysgol gwrs gofal cymdeithasol hefyd yn 2018 gyda 25 o ymarferwyr wedi cofrestru a'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn gweithio i Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Bellach, daeth y rhain i ben. Maent ar gael ar-lein wedi eu darparu gan y darparwyr Cymraeg i Oedolion yn rhanbarthol. Dim ond awduro'r cynnwys y mae'r Brifysgol yn ei wneud bellach.

| **Nod** |
|---|
| Codi ymwybyddiaeth o'r holl gyfleoedd dysgu Cymraeg amrywiol sydd ar gael i drigolion y sir mewn modd cydlynol |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Cydymffurfio â Strategaeth Farchnata'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |

Mae gan y CDCG wefan gynhwysfawr sy'n cynnwys holl gyrsiau a gynigir dros Gymru. Maen nhw'n trefnu ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol gan ddefnyddio hysbysebion teledu, y we ac ati, e.e. 'Wythnos Addysg Oedolion'. Yn lleol, y darparwyr sy'n gyfrifol am farchnata

lleol drwy Facebook, Trydar, mewn canolfannau siopa a digwyddiadau i'r cyhoedd megis Gŵyl Canol Dref a Chynadleddau amrywiol.

Ceir prosbectws electroneg ar y cyd rhwng y ddau ddarparwr ac fe'u hyrwyddir ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gan y ddau ddarparwr aelodau o staff penodol ar gyfer marchnata ac maent yn cydweithio gyda'r sefydliadau ar y Fforwm i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Mae sefydliadau'r Fforwm, yn eu tro, yn hyrwyddo'r wybodaeth am yr holl gyfleoedd dysgu ffurfiol sydd ar gael yn y sir.

| **Nod** |
| --- |
| Sicrhau bod rhwydwaith gyffrous o gyfleoedd i ddysgwyr i gynyddu eu sgiliau drwy fynychu digwyddiadau anffurfiol yn y gymuned |

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| Rhannu gwybodaeth am wasanaethau aelodau'r Fforwm Sirol |

Hyrwyddwyd digwyddiadau fel Sadwrn Siarad, Cyrsiau Atodol, a gweithgareddau a drefnir gan y Mentrau. Yn ogystal, buom yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i ddosbarthu pecynnau Cymraeg i Blant. Rhennir digwyddiadau penodol ar dudalen Facebook dysgu Cymraeg Sir Gâr, boed yn rhai i ddysgwyr neu'n rhai sy'n addas i Siaradwyr Newydd. Mae'r tiwtoriaid a staff yn annog dysgwyr i fynychu digwyddiadau fel sesiynau i ddysgwyr/siaradwyr newydd sy'n rhedeg busnes gyda Helo Blod a'r Ganolfan Genedlaethol.

| **Cam gweithredu** |
| --- |
| Ehangu a chreu cyfleoedd ar y cyd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg |

Trefnir digwyddiadau anffurfiol gan y Cyngor Sir, y brifysgol a'r tair Menter Iaith. Ceir clwb Clecs, clybiau darllen, clybiau ffilm a nifer o gyfleodd am baned a sgwrs. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd hyn yn dal i fod ar lein ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Yn ystod 2020, trefnodd y Cyngor gyfarfod i'r mentrau a'r darparwyr dysgu i drafod hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ar y cyd. Cytunwyd y byddai pob sefydliad yn bwydo gwybodaeth am ddigwyddiadau i galendr Google sy'n eistedd ar wefan *Dysgu Cymraeg Sir Gâr* ac y byddai modd marchnata'r holl ddigwyddiadau ar y cyd o'r fan honno. Bu'r Cyngor yn gweinyddu'r calendr ers hynny. Dechreuwyd ar y gwaith o greu poster ar y cyd. Ei nod oeddcrynhoi'r cyfleoedd i gyd i'w marchnata gan bob sefydliad, ond dim ond unwaith y digwyddodd hyn, ar gyfer hydref 2020. Ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth hon, mae'r arlwy anffurfiol i ddysgwyr yn rhannol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae darpariaeth Menter Gwendraeth Elli wedi newid er enghraifft, gyda thair sesiwn baned a sgwrs, ym Mhontyberem, Llanelli a Chydweli. Mae angen penderfynu sut i farchnata'r arlwy mewn person ac ar-lein fel bod darlun cyflawn o weithgarwch yn y sir i farchnata ar y cyd ac mae angen penderfynu pa gorff sydd fwyaf addas i gydlynu'r ymdrechion yma i'r dyfodol yn Sir Gâr

### 1.1.8 Caffael sgiliau Uwch: Darpariaeth Cymraeg i Oedolion

**Fframwaith Traweffaith**

| | | |
|---|---|---|
| **3.13 Canran myfyrwyr mewn colegau a dysgu seiliedig-ar-waith yn y sir sy'n cael eu haddysg uwch a phellach drwy'r Gymraeg** | Nifer a chanran myfyrwyr Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod sydd wedi'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â diffiniad y Coleg Cymraeg | Y Coleg Cymraeg<br><br>(Bydd yn cynnwys myfyrwyr campws Ceredigion ac Abertawe, nid dim ond Sir Gâr) |
| **3.14 Nifer yr unigolion sy'n byw yn Sir Gâr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg** | Nifer y bobl sydd yn byw yn Sir Gâr ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn Sir Gâr, yn dilyn cyrsiau o bell a chyrsiau y tu allan i Sir Gâr, e.e. cyrsiau dros y ffin yn ardal Abertawe, Sir Benfro neu Geredigion. Cyfanswm a nifer fesul lefel | Data Dysgu Cymraeg y Cyngor Sir + Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth (YGDCG) + Cymraeg Gwaith |

## *Amcan 2: Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, ac annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gynyddol yn gyfrwng naturiol eu gwasanaethau*

### 2.1.1 Cynyddu hyder a defnydd: I ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein Strategaeth Hybu?

**Mentrau cyn COVID-19, 2017-2020.**

Mae **Menter Gorllewin Sir Gâr** yn gweithredu dros ardal orllewinol Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o arfordir Pentywyn yn y de; i fyny at Ddyffryn Teifi yn y gogledd, sydd yn creu ffin sirol naturiol â Cheredigion, ac o Dref Caerfyrddin ac ucheldir mynyddoedd Llanllwni a Phencader yn y dwyrain at y ffin sirol â Sir Benfro yn y gorllewin. Mae swyddfeydd yng Nghastell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin ac mae swyddogion penodol hefyd sy'n canolbwyntio ar ardaloedd Dyffryn Taf a Dyffryn Teifi.

Yn 2017, roedd gan y Fenter 11 aelod o staff, gyda 6 o'r rheiny'n gweithio'n benodol ar y Gymraeg, a 5 yn swyddogion digidol, yn gweithredu cytundebau gyda'r Canolfannau Gwaith i weithio gyda'r di-waith i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau digidol. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth hon, mae 17 aelod o staff, gyda 10 o'r rheiny'n gweithio'n benodol ar y Gymraeg.

Bu'r Fenter yn darparu gweithgareddau i gefnogi defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg ynghlwm wrth ysgolion cynradd yr ardal, fel Cwis Dim Clem, sesiynau ymwybyddiaeth iaith, eisteddfodau dwl a gemau buarth.

Yn ogystal, buont yn trefnu gweithgareddau cymunedol wythnosol yn annibynnol o'r ysgolion ac y tu allan i oriau ysgol, fel sesiynau dawnsio stryd, chwaraeon amrywiol, clwb ffotograffiaeth, clybiau drama, clwb beicio mynydd, Côr Myrddin, Clwb Flogio, Gigiau, Fforwm Ieuenctid a Gweithdai Radio.

<u>Plant a phobl ifanc</u>

| | Nifer y sesiynau | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| 2017-18 | 256 | 3595 |
| 2018-19 | 398 | 6667 |
| 2019-20 | 321 | 8910 |

Yn ogystal, mae'r Fenter yn cefnogi defnydd iaith teuluoedd yr ardal, gan geisio atgyfnerthu trosglwyddiad iaith ar yr aelwyd. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys Sesiynau Iaith a Chwarae i blant a'u rhieni mewn ysgolion cynradd, sesiynau stori rheolaidd mewn lleoliadau amrywiol, gweithgareddau Nadolig, mabolgampau meithrin a diwrnodau hwyl.

<u>Teuluoedd</u>

| | Nifer y sesiynau | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| 2017-18 | 118 | 5970 |
| 2018-19 | 210 | 7334 |
| 2019-20 | 277 | 19,775 |

Yn olaf, mae'r Fenter yn cynnal gweithgareddau cymunedol mewn ymdrech i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i gymdeithasu yn Gymraeg ar draws yr ardal. Cynhelir nosweithiau cymdeithasol, sesiynau Yoga a Zumba, sesiynau Ffit-Fowns a sesiynau anffurfiol i ddysgwyr. Cydlynir llwyfannau perfformio mewn digwyddiadau, ac mae'r Fenter yn trefnu Tudalen Gymraeg a cholofn wythnosol yn y Carmarthen Journal.

Cymunedol/hamdden

| | Nifer y sesiynau | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| 2017-18 | 92 | 5200 |
| 2018-19 | 78 | 6880 |
| 2019-20 | 138 | 13,336 |

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, adnabuwyd yr angen a'r potensial i gynnull cymuned o deuluoedd a phobl ifanc Cymraeg yr ardal ynghyd mewn digwyddiad mawr, cymdeithasol a diwylliannol. Yn 2018 cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre am y tro cyntaf yn ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin, gan ddenu 3,000 o bobl. Roedd yr ŵyl yn ddiwrnod o hwyl ac adloniant i bobl o Sir Gâr a thu hwnt gydag amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys perfformiadau o gerddoriaeth byw, chwaraeon, llenyddiaeth, celf ac amrywiaeth o weithdai. Roedd yna ddau lwyfan ar y maes, un yn cynnwys unigolion a bandiau adnabyddus o'r sîn roc Gymraeg yn perfformio ac un â pherfformiadau amrywiol gan ysgolion yr ardal. Roedd yr ŵyl hefyd yn cynnig platfform i fusnesau gydag ardal stondinau i werthu nwyddau a chynnyrch ac i fudiadau lleol i hyrwyddo eu gwasanaethau. Cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre eto yn 2019 gan ddenu 4,000 o bobl.

Sefydlwyd prosiect Cymraeg Byd Busnes gan y Llywodraeth yn 2018 ac fe benodwyd swyddog lleol ar gyfer Gorllewin Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn Swyddfeydd y Fenter yng Nghaerfyrddin.

Mae **Menter Dinefwr** yn gweithredu dros ardal dwyrain Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys dyffrynnoedd Aman, Tywi a Chothi. Ers ei sefydlu yn 1999, un o brif nodau'r Bwrdd Rheoli yw cynnal mudiad sy'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â chefnogi datblygiad cymunedol ac economaidd, gan greu swyddi a gwaith, gan fod hyn yn greiddiol wrth gefnogi datblygiad y Gymraeg.

Ar ddechrau'r cyfnod dan sylw yn 2017, roedd gan y Fenter 3 chwmni cysylltiol, sef Trywydd (cwmni cyfieithu), Gofal Plant Cyf (yn darparu clybiau gofal plant cyfrwng Cymraeg); a Cyfoes (siop Gymraeg yn gwerthu llyfrau a nwyddau Cymreig). Roedd gan y Fenter swyddfeydd yn Rhydaman a Llandeilo, cangen o siop Cyfoes yn Rhydaman, swyddfeydd Trywydd yng Nghaerfyrddin, Llandeilo ac Aberystwyth, a chlybiau gofal Gofal Plant Cyf yn Llandeilo a Rhydaman.

Mae prif waith y Fenter i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei rannu'n ddwy ran, sef 1) Plant a Phobl Ifanc, a 2) y Gymuned. Ceir crynodeb o niferoedd y gweithgareddau a'r mynychwyr yn y tablau isod. Dros y cyfnod, gwelwyd newid yn y strwythur staffio gan geisio symud hefyd i weithio'n fwy dwys, sy'n golygu llai o niferoedd mewn rhai sefyllfaoedd, ond mwy o effaith ar arferion iaith. Noder hefyd y bu'n rhaid canslo gweithgareddau tuag at ddiwedd chwarter olaf 2019/20 yn sgil COVID-19.

Bu'r Fenter yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg ynghlwm wrth ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal, Coleg Llanymddyfri a Choleg Sir Gâr, e.e. Cwisiau Dim Clem, sesiynau ymwybyddiaeth iaith, eisteddfodau dwl a gemau buarth. Yn ogystal â hyn, mae'r Fenter yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol cyson yn annibynnol o'r ysgolion, a thu allan i oriau ysgol, megis clybiau ieuenctid, fforymau a sesiynau hwyl adeg gwyliau ysgol.

Gweithgareddau Plant a Phobl Ifanc

| | Nifer y sesiynau | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| 2017-18 | 343 | 6391 |
| 2018-19 | 344 | 6992 |
| 2019-20 | 300 | 7011 |

Bu'r Fenter hefyd yn cynnal clybiau gofal dyddiol i blant cynradd yn Llandeilo (8-9am a 3.15-6pm) a Rhydaman (3.30-5.30pm), drwy ei chwaer gwmni Gofal Plant Cyf, ynghyd â chlybiau gofal gwyliau'r haf cyfrwng Cymraeg (8am-6pm) yn y ddwy ardal, yn ystod y cyfnod dan sylw. Pwrpas y clybiau yw cynnig gofal plant proffesiynol i helpu rhieni a theuluoedd, rhoi cyfle i blant allu cymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol dros gyfnod y gwyliau, a chreu rhagor o swyddi tymhorol.

Darpariaeth Clybiau Gofal Plant

| | Nifer y lleoedd gofal plant a ddarparwyd |
|---|---|
| 2017-18 | 20,880 |
| 2018-19 | 20,880 |
| 2019-20 | 21,640 |

O safbwynt gwaith cymunedol y Fenter, mae'n cynnal amryw o weithgareddau i gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, yn ogystal â phrosiectau i hyrwyddo trosglwyddiad iaith yn y cartref, defnydd cymdeithasol o'r iaith, cefnogi dysgwyr, cynnal gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a cherddorol, cefnogi busnesau, mudiadau a chlybiau lleol, a chynnig cyfleoedd amrywiol i deuluoedd ac oedolion.

Darpariaeth Gymunedol

| | Nifer y sesiynau | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| 2017-18 | 490 | 9,017 |
| 2018-19 | 389 | 4,384 |
| 2019-20 | 272 | 7,384 |

O safbwynt gwerth economaidd y Fenter, mae bellach yn cyflogi 35 aelod o staff ar draws y cwmnïau ac o amrywiol leoliadau gyda throsiant ariannol 2020/21 dros £1.5m. Gyda'n canolfan newydd yn Llandeilo, mae bwriad i ehangu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf gan ddatblygu'r ystod o weithgareddau fydd yn cael eu cynnig.

Trosiant Blynyddol

| | Trosiant Blynyddol (i gynnwys y chwaer gwmnïau a Hengwrt) |
|---|---|
| 2017-18 | £742,263 |
| 2018-19 | £831,077 |
| 2019-20 | £1,080,606 |
| 2020-21 | £1,510,028 |

Yn ystod y cyfnod dan sylw (2017-2020), er mwyn ceisio ymestyn allan ymhellach i'r gymuned, symudwyd siop Cyfoes i ganol dref Rhydaman gan ddyblu'r incwm yn y flwyddyn gyntaf, ac agorwyd swyddfa newydd i'r Fenter yno hefyd. Yn ychwanegol at hyn, sicrhawyd nawdd gwerth £1.8 miliwn (cyfalaf a refeniw) i adnewyddu hen adeilad yn Llandeilo a sefydlu canolfan newydd i Fenter Dinefwr, sef Hengwrt.

Gwelwyd llwyddiant y prosiect Ardaloedd â Blaenoriaeth a oedd yn gweithredu ar draws y Sir mewn partneriaeth rhwng y 3 Menter Iaith, gan dreialu gweithredu'n ddwys mewn ardaloedd micro. Sefydlwyd prosiect Cymraeg Byd Busnes gan Lywodraeth Cymru yn 2018 a phenodwyd swyddog lleol ar gyfer Dinefwr, Cwm Gwendraeth a Llanelli gan Fenter Dinefwr, mewn cydweithrediad â Menter Cwm Gwendraeth Elli. Dangosodd y ddau brosiect hyn y canlyniadau posib o weithredu'n ddwys ac o ganolbwyntio ar faes a/neu ardal ddaearyddol benodol.

Mae **Menter Cwm Gwendraeth Elli** yn gweithredu ar draws Cwm Gwendraeth a Llanelli ac mae gan y Fenter ganolfan, sy'n darparu caffi, swyddfeydd a siop ym Mhontyberem. Mae staff y Fenter wedi parhau'n sefydlog dros gyfnod y strategaeth hwn gyda 9 aelod o staff craidd, 4 aelod o staff yn y caffi, a thua 68 o staff rhan amser yn gyflogedig yn y clybiau ar ôl ysgol/gwyliau dros yr ardal. Yn ogystal â darparu prosiectau ieithyddol benodol, mae'r Fenter hefyd yn darparu prosiectau cymunedol eraill fel Sgiliau byw, Ownzone a Gweithredu Lleol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cyfleoedd y mae'r Fenter wedi'u darparu i gynnal defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg yn deillio'n bennaf o'r nifer o glybiau gofal a'r 10 clwb hwyl sy'n cael eu rhedeg yn ysgolion cynradd yr ardal i atgyfnerthu defnydd iaith y plant y tu allan i'r ystafell ddosbarth (200 o blant 2017-18). Bu'r Fenter yn darparu 3 clwb gwyliau i'r un perwyl yng Nghydweli, Llechyfedach a Llangennech. Mae Theatr Iau ac Ieuenctid wedi bod yn rhedeg a darparwyd digwyddiadau torfol i blant yn flynyddol yn yr ardal fel Jambori, Miri Mai a Hydref Heini.

Bu'r Fenter yn cefnogi defnydd anffurfiol pobl ifanc o'r Gymraeg drwy Brosiect Cefnogi Arferion Iaith y llywodraeth a hynny yn Y Strade, Maes y Gwendraeth a Choleg Sir Gâr. Ers i'r prosiect hwnnw ddod i ben, mae'r Fenter wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn yr ysgolion a'r coleg.

Mae'r Fenter wedi rhoi cefnogaeth i ddysgwyr Cwm Gwendraeth a Llanelli i fagu hyder yn eu Cymraeg drwy ddarparu Clybiau Croeso i ddechreuwyr yn Llandyfaelog, Cross Hands, Llanelli, Pontyberem, Pum Heol, Ffwrnes a Trimsaran. Maent wedi bod yn darparu Clybiau Clonc hefyd i annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg dysgwyr a hynny yn Y Ffwrnes, canol tref Llanelli, Llandyfaelog, Cross Hands, Pontyberem a Thrimsaran.
Mae'r Fenter hefyd wedi cydweithio ar Garnifal Pontyberem, Sioe Llandyfaelog, Sioe Pum Heol a Diwrnod Aml-ddiwylliannol Llanelli, Ras yr Iaith 2018 a'r Wyl Gerdd Dant.

O ganlyniad i newidiadau staffio yn ystod cyfnod adrodd y Strategaeth hwn, doedd dim modd cael rhagor o ddata defnyddiol gan Fenter Gwendraeth Elli ar gyfer yr adroddiad. Bellach, gyda'r Fenter o dan reolaeth Bwrdd newydd a chyda phrif weithredwr newydd sefydlog, bydd modd i'r Fenter adrodd ar gynnydd yn gyffelyb i'r mentrau eraill.

## Mentrau ar ôl COVID-19 2020-21

Addasodd y mentrau yng nghyfnod cyntaf y pandemig er mwyn sicrhau bod gweithgarwch digidol ar gael yn Gymraeg i blant, pobl ifanc a theuluoedd, fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Cynhaliodd **Menter Gorllewin Sir Gâr** amrywiaeth o weithgareddau byw dros gyfryngau megis Teams, Zoom, Facebook a YouTube gan gynnwys jambori, sesiynau stori, cwis, disco, coginio, cadw'n heini, clwb llyfrau, cystadlaethau ffotograffiaeth, chwaraeon, drama a mwy. Canlyniad cadarnhaol gorfod darparu fel hyn oedd y cynnydd mawr a welwyd yn y nifer a oedd yn dilyn y fenter ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod 2020-21 gwelwyd cynnydd o dros 3,000 o ddilynwyr ar draws yr holl blatfformau cyfryngau cymdeithasol gyda'r cynnydd yn parhau ar yr un raddfa yn ystod 2021-22.

Gwelwyd nifer uwch o bobl yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r fenter yn ystod 2020-21. Yn ystod y cyfnodau pan roedd canllawiau yn caniatáu, cynhaliwyd rhai gweithgareddau wyneb yn wyneb.

| Math o ymgysylltu | 2020-21 |
|---|---|
| Nifer o negeseuon, cylchlythyrau, lluniau neu fideos sydd wedi cael eu rhannu | 402 |
| Nifer o 'likes', 'shares', sylwadau, ail-drydariadau | 10,796 |
| **Nifer o weithgareddau ar-lein sydd wedi cael eu trefnu** | |
| Teuluoedd | 110 |
| Plant a phobl ifanc | 232 |
| Cymunedol | 270 |
| **Nifer sydd wedi ymuno neu gymryd rhan** | |
| Teuluoedd | 41,939 |
| Plant a phobl ifanc | 112,863 |
| Cymunedol | 203,733 |
| | |
| **Nifer o weithgareddau wyneb yn wyneb** | 42 |
| Nifer mynychwyr | 805 |

**2021-22:** Wrth i'r cyfyngiadau lacio a'r cyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb gynyddu, dechreuodd y Fenter weithio mewn modd hybrid gan gynnal gweithgareddau digidol ac wyneb yn wyneb. Rhoddwyd pwyslais ar sesiynau digidol i ysgolion a siaradwyr newydd, gan geisio datblygu mwy o weithgareddau wyneb yn wyneb yn y gymuned. Cynhaliwyd clybiau beicio, drama, nofio, sesiynau stori, hyfforddiant gwirfoddoli, hyfforddiant meddylgarwch, perfformiadau ac yn y blaen i gyd wyneb yn wyneb gyda nifer uchel yn mynychu pob gweithgaredd. Datblygodd y fenter gynllun ar gyfer gwirfoddolwyr newydd, er mwyn ceisio adfer y sefyllfa o ran gweithgareddau cymunedol wedi COVID-19 a magu hyder grwpiau cymunedol i gynnal gweithgareddau unwaith eto.

Roedd staff cymunedol **Menter Dinefwr** ar ffyrlo am gyfnod o tua chwe mis yn ystod 2020, gan ddychwelyd yn rhan amser wedi hynny nes diwedd y cynllun. O holl staff y Fenter a'i chwmnïau cysylltiol, aeth 20 aelod o staff ar ffyrlo ym mis Ebrill 2020, gyda 9 aelod staff yn parhau i weithio, a 7 o'r rhain yn gweithio'n llawn amser drwy gydol y cyfnod. Ar hyd yr amser, darparwyd gweithgareddau ar-lein a gwnaed gwaith parhaus ar adeilad newydd Hengwrt. Caeodd y clybiau gwyliau tra bod yr ysgolion ar gau, ond cawsant eu hail-agor yn syth pan ddechreuodd yr ysgolion yn ôl yn mis Medi. Mae patrymau gweithio gartref wedi lleihau'r galw am glybiau ar ôl ysgol, felly mae'r ffigurau yn is, ond yn cynyddu, ac mae trefniadau ar y gweill i sefydlu clwb gofal dyddiol newydd yn Llanymddyfri. Roedd mwy o alw na'r arfer am glwb gwyliau Llandeilo yn ystod haf 2021, gan fod plant yn ysu i fod allan o'r tŷ yn cymdeithasu a rhieni, oedd yn gweithio gartref, yn gweld gwerth mawr i'r gwasanaeth. Amser a ddengys a fydd patrymau teithio dramor yn ail-gydio ac a fydd hyn yn cael effaith ar y galw yn y blynyddoedd nesaf. Braf nodi hefyd fod 34 aelod o staff ar gyflogres y Fenter a'i chwmnïau cysylltiol erbyn hyn.

| Dangosyddion Ar-lein Ebrill 2020 - Rhagfyr 2021 | Cyfanswm cyflawniad |
|---|---|
| Nifer o negeseuon, cylchlythyrau, lluniau neu fideos sydd wedi cael eu rhannu | 957 |
| Nifer o 'likes', 'shares', sylwadau, ail-drydariadau | 10,375 |
| Nifer o weithgareddau ar-lein sydd wedi cael eu trefnu | 156 |
| Nifer sydd wedi ymuno neu gymryd rhan | 7,933 |

**2021-22**: Erbyn hyn, mae darpariaeth Menter Dinefwr i'r ysgolion yn gyfuniad o fod ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda nifer o sesiynau i ddysgwyr a sesiynau yn ystod y gwyliau i blant ac i deuluoedd yn digwydd drwy gwrdd mewn person. Rhagwelir y bydd tipyn o'r arlwy i bobl ifanc yn parhau ar-lein er hwylustod iddynt ond y gobaith yw y bydd canolfan Hengwrt a dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Lanymddyfri'n hwyluso trefnu mwy o weithgarwch cymunedol wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos. Bydd Hengwrt hefyd yn hwyluso partneriaeth y Fenter gyda gwyliau mawr yr ardal fel yr Ŵyl Lenyddiaeth, gan roi lleoliad canolog i'r Fenter i fod yn rhan o'r ŵyl a chodi statws y Fenter a'r Gymraeg yn yr ardal honno.

Cafodd gweithgareddau **Menter Cwm Gwendraeth Elli** eu heffeithio'n fawr gan sefyllfa'r pandemig gyda'r holl glybiau gwyliau a hwyl yn cau a dim ond rhai yn ail-agor wrth i'r ysgolion ail-agor yn ystod 2020-21. Fe ddarparodd y Fenter rhai gweithgareddau newydd ar-lein fel sesiynau coginio i blant, groto rhithiol a noson garolau rithiol ac yna wrth i'r ysgolion ail-agor, addasodd y Fenter ei gweithgarwch i fod yn ddigidol gyda sesiynau ymwybyddiaeth iaith rithiol, Cwis Dim Clem ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o staff y Fenter ar ffyrlo yn ystod llawer o 2020-21, gan gynnwys holl staff y clybiau gofal. Cynhaliwyd un clwb gwyliau yn Haf 2021 yn Ysgol Llechyfedach ac ail-agorwyd Clybiau Gofal Llannon, Clwb Hwyl Dewi a Bydis Brynsierfel pan ail-agorodd yr ysgolion.

**2021-22**: Ail-agorwyd clybiau ar ôl ysgol:

| Ysgol | Nifer o ddyddiau | Nifer o blant |
|---|---|---|
| Llanddarog | 2 | 24 |
| Llanon | 2 | 12 |
| Gwenllian | | 8 |
| Pontyberem | 2 | 18 |
| Brynsierfel | 2 | 12 |
| Dewi Sant | 5 | 32 |
| Llechyfedach | 2 | 8 |
| Tymbl | 2 | 18 |
| Gorslas | 1 | 15 |
| Cefneithin | 1 | 17 |
| Mynyddygarreg | 1 | 11 |

Mae 159 o blant bellach yn mynychu'r clybiau ar ôl ysgol. Gan fod patrymau gwaith Pobl wedi newid ers y pandemig, mae anghenion gofal teuluoedd wedi newid, ac fe fydd yn rhaid aros i weld a ydy'r galw am ofal ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

4 aelod o staff sy'n gweithio ar brosiectau iaith y Fenter yn 2022. Fel y nodwyd yn gynharach, gyda'r Fenter o dan reolaeth Bwrdd newydd a chyda phrif weithredwr newydd sefydlog, mae'r Fenter yn ffyddiog y bydd y strwythur staffio a'r gweithgarwch yn cryfhau dros y blynyddoedd nesaf.

## Y Tair Menter

Wrth i gyfnod y strategaeth hon ddirwyn i ben, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld mwy o bwyslais ar rymuso cymunedau i gynnal gweithgarwch yn hytrach na bod mudiadau hyrwyddo'r Gymraeg yn darparu gweithgarwch ar eu cyfer. Bydd galw felly i sicrhau cyfuniad o ddarpariaeth, cydlynu a chefnogi, a bydd cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 hefyd o gymorth pellach wrth gynllunio ac ymateb yn weithredol i sefyllfa'r Gymraeg yn ein cymunedau. Bydd angen i'r Fforwm a'r partneriaid gefnogi gweithgarwch y tair Menter o safbwynt hyn oll yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf, gan addasu yn unol ag anghenion lleol.

## Ffermwyr Ifanc

Mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn gangen o fudiad cenedlaethol sy'n cael ei weinyddu o swyddfa yng nghanol tref Caerfyrddin, gyda 2 aelod staff llawn amser. Mae'r swyddfa'n gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trefnu cystadlaethau a gweithgareddau sirol i gefnogi clybiau'r sir trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn cynnal pwyllgorau gwaith, cyllid a gweithgareddau sirol, a fforwm ieuenctid ac amaeth. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn wirfoddol o fewn cymunedau ac yn cwrdd yn wythnosol, fel clybiau ieuenctid. Mae'r rhan fwyaf o glybiau'r sir yn cwrdd ac yn cymdeithasu yn Gymraeg ac yn cystadlu yn bennaf yn Gymraeg yng nghystadlaethau'r sir. Ceir cystadlaethau siarad cyhoeddus yn Saesneg hefyd sy'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg naturiol y mudiad ddatblygu eu sgiliau Saesneg. Mae tri o glybiau'r sir yn gweithredu'n ddwyieithog (Llandeilo, Llanymddyfri a Sanclêr) ac mae Hendy Gwyn yn glwb Saesneg. Nid ydym wedi cyfri aelodau Hendy Gwyn yn y ffigurau isod.

**2017-18**

Nifer y clybiau Cymraeg a dwyieithog 22
Nifer yr aelodau 723

| Enw'r clwb | Nifer |
|---|---|
| Abernant | 19 |
| Capel Dewi | 16 |
| Capel Iwan | 55 |
| Cwmann | 38 |
| Cynwyl Elfed | 23 |
| Dyffryn Tywi | 37 |
| Dyffryn Cothi | 33 |
| Llanarthne | 11 |
| Llanddarog | 38 |
| Llandeilo | 28 |
| Llanymddyfri | 37 |
| Llandybie | 14 |
| Llanelli | 16 |
| Llanfynydd | 45 |
| Llangadog | 55 |
| Llanllwni | 44 |
| Llanon | 32 |
| Llanwinio | 6 |
| Penybont | 45 |
| Sanclêr | 43 |
| San Ishmael | 50 |
| San Pedr | 38 |
| Hendy Gwyn | 12 |

**2018-19**

Nifer y clybiau Cymraeg a dwyieithog 20
Nifer yr aelodau 664

| Enw'r clwb | Nifer |
|---|---|
| Abernant | 5 |
| Capel Dewi | 16* |
| Capel Iwan | 49 |
| Cwmann | 32 |
| Cynwyl Elfed | 26 |
| Dyffryn Tywi | 38 |
| Dyffryn Cothi | 39 |
| Llanarthne | * |
| Llanddarog | 51 |
| Llandeilo | 29 |
| Llanymddyfri | 37 |
| Llandybie | 17 |
| Llanelli | 12 |
| Llanfynydd | 41 |
| Llangadog | 45 |
| Llanllwni | 43 |
| Llanon | 46 |
| Llanwinio | 0 |
| Penybont | 40 |
| Sanclêr | 36 |
| San Ishmael | 42 |
| San Pedr | 20 |
| Hendy Gwyn | 14 |

*Wedi uno i greu Capel-Arthne 16

**2019-20**
Nifer y clybiau Cymraeg a dwyieithog 19
Nifer yr aelodau 622

| Enw'r clwb | Nifer |
|---|---|
| Capel Iwan | 39 |
| Capel-Arthne | 8 |
| Cwmann | 29 |
| Cynwyl Elfed | 29 |
| Dyffryn Tywi | 27 |
| Dyffryn Cothi | 31 |
| Llanddarog | 54 |
| Llandeilo | 31 |
| Llanymddyfri | 51 |
| Llandybie | 10 |
| Llanelli | 13 |
| Llanfynydd | 30 |
| Llangadog | 45 |
| Llanllwni | 52 |
| Llanon | 44 |
| Penybont | 39 |
| Sanclêr | 29 |
| San Ishmael | 32 |
| San Pedr | 29 |
| Hendy Gwyn | 33 |

**2020-21**
Nifer y clybiau Cymraeg a dwyieithog 19
Nifer yr aelodau 396

| Enw'r clwb | Nifer |
|---|---|
| Capel-Arthne | 8 |
| Capel Iwan | 12 |
| Cwmann | 29 |
| Cynwyl Elfed | 21 |
| Dyffryn Tywi | 19 |
| Dyffryn Cothi | 26 |
| Llanddarog | 33 |
| Llandeilo | 21 |
| Llanymddyfri | 25 |
| Llandybie | 0 |
| Llanelli | 7 |
| Llanfynydd | 10 |
| Llangadog | 19 |
| Llanllwni | 47 |
| Llanon | 40 |
| Penybont | 36 |
| Sanclêr | 21 |
| San Ishmael | 8 |
| San Pedr | 14 |
| Hendy Gwyn | 2 |

Bu niferoedd aelodau Ffermwyr Ifanc y sir yn gostwng yn weddol gyson rhwng 2017 a 220 gan tua 7% yn flynyddol. Gellir egluro'r lleihad drwy dueddiadau cymdeithasol a diwylliannol, gyda phobl ifanc yn diddori fwyfwy yn y byd digidol ac yn fwy tueddol o ymgynnull mewn canolfannau trefol ar gyfer gweithgaredd cymdeithasol a hamdden. Yn amlwg, roedd cyfyngiadau COVID-19 yn drychinebus i'r Ffermwyr Ifanc yn ystod 2021-21 gyda'r clybiau yn methu cwrdd yn wythnosol a holl weithgarwch sirol a chenedlaethol y mudiad ar stop. Llwyddwyd, fodd bynnag, i gadw clybiau ar agor gyda gweithgareddau ar-lein mewn rhai clybiau a chystadlaethau ar lein yn sirol, ac ymdrechion dyngarol sirol sylweddol yn cadw ychydig o fwrlwm i fynd. Mae'r mudiad wedi datblygu partneriaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft drwy gydweithio ar Wŷl Canol Dre gyda Menter Gorllewin Myrddin ac mae'r pandemig wedi agor rhai drysau pellach o safbwynt gweithio mewn partneriaeth ar-lein gyda sefydliadau gwledig eraill fel Tir Dewi a DPJ.

Mae'r mudiad wedi profi adfywiad sylweddol wedi i'r gweithgarwch ddod i ben yn ystod COVID-19. Dechreuodd y gweithgarwch rhwng Medi 2021 a Ionawr 2022 ar ffurf rhithiol neu hybrid ond ers Ebrill 2022 mae'r mudiad wedi llwyddo i gynnal gweithgarwch wyneb yn wyneb gan gynnwys Siarad Cyhoeddus Cymraeg, cystadleuaeth Bowlio Deg Pen, Diwrnod Gwaith Maes a'r Rali. Mae brwdfrydedd yr aelodau wrth i'r mudiad ailgychwyn wedi bod yn heintus ac erbyn diwedd y flwyddyn (Gorffennaf 2022 gan fod y mudiad yn dilyn y calendr addysgol) mae gan y mudiad 807 o aelodau ar draws y Sir. Mae'r nifer o aelodau wedi mwy na dyblu ers i weithgarwch symud yn rhithiol yn ystod COVID-19 ac yn gynnydd o 11.6% o gymharu â chychwyn cyfnod y Strategaeth hwn.

**2021-22**

Nifer y clybiau Cymraeg a dwyieithog 20

Nifer yr aelodau 807

| Enw'r clwb | Nifer |
|---|---|
| Capel Iwan | 49 |
| Capel-Arthne | 31 |
| Cwmann | 25 |
| Cynwyl Elfed | 21 |
| Dyffryn Tywi | 39 |
| Dyffryn Cothi | 41 |
| Llanddarog | 60 |
| Llandeilo | 34 |
| Llanymddyfri | 31 |
| Llandybie | 1 |
| Llanelli | 20 |
| Llanfynydd | 44 |
| Llangadog | 49 |
| Llanllwni | 56 |
| Llannon | 47 |
| Penybont | 53 |
| Sanclêr | 41 |
| San Ishmael | 64 |
| San Pedr | 46 |
| Hendygwyn | 44 |

O safbwynt cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, roedd sefydlu'r **Siarter Iaith** yn allweddol. Gan ddilyn model Gwynedd, ariannodd Llywodraeth Cymru y Siarter ymhob sir yng Nghymru a mabwysiadodd Sir Gâr y prosiect yn 2017. Roedd y siarter yn annog pob ysgol gynradd Gymraeg i berchnogi'r her o gynyddu defnydd anffurfiol eu plant o'r Gymraeg ac yn darparu fframwaith a theclyn oedd yn galluogi nhw i wneud hynny. Roedd y prosiect yn gofyn am gasglu data ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg a'u hagweddau at yr iaith, i greu 'gwe iaith' ac yna darparu gweithgareddau ac ymyraethau am gyfnod cyn ail-redeg yr arolwg i weld a oedd cynnydd yng

nghanlyniadau'r 'we iaith'. Roedd pob ysgol yn cael eu hannog i anelu at wobr efydd, arian ac aur dros gyfnod o amser, yn ôl faint o weithgarwch oedd yr ysgol yn cynnal i annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y disgyblion.

Erbyn Hydref 2018, roedd pob un o'r 65 o ysgolion gynradd Gymraeg â dwy ffrwd wedi cael eu dilysu ar lefel efydd o leiaf. Roedd 5 o'r ysgolion wedi llwyddo cyrraedd y wobr aur, ac 13 ysgol arall wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu i gyrraedd y wobr arian. Yn 2018, ehangwyd y prosiect i ysgolion Cymraeg o dan y 'CymraegCymraeg Campus'. Erbyn 2022, mae 81 allan o 89 o ysgolion cynradd y sir i gyd wedi cyrraedd lefel efydd, gyda 23 o'r rheiny wedi'u dilysu ar lefel arian a 5 ar lefel aur.

Dechreuwyd gwaith tebyg gyda'r sector Uwchradd, ond gan fod yna ddatblygiadau cenedlaethol yn y maes, cafodd y gwaith ei oedi. Ers hynny, er bod gwaith yn mynd rhagddo i dynnu sylw at bwysigrwydd defnydd anffurfiol y Gymraeg ymysg pobl ifanc oed uwchradd, mae gwir angen ailedrych ar y maes, asesu ymdrechion pwrpasol y gorffennol i gynyddu defnydd anffurfiol pobl ifanc o'r Gymraeg, a phenderfynu ar ymyraethau addas yn y dyfodol i gyd-fynd â'r CSGA.

## Yr Urdd

Mae'r **Urdd** yn draddodiadol yn boblogaidd iawn yn Sir Gâr. Mae cymaint o blant a phobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd yr Urdd yma nes ei fod yr unig sir yng Nghymru sydd wedi ei rhannu'n ddwy ranbarth. Mae'r Urdd yn cynnal rowndiau rhanbarthol yng Ngorllewin a Dwyrain Myrddin ar gyfer eu holl weithgareddau a chystadlaethau. O ran lefel y cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, mae ffigurau Sir Gâr yn uchel dros ben yn gyffredinol, gyda 6654 yn 2017, a hynny 2000 yn fwy o gystadleuwyr na Cheredigion. Yn 2018, gwelwyd 6,274 yn cystadlu o Sir Gâr, yn 2019 roedd 8313. Yn yr eisteddfod rithiol yn 2020, cystadlodd 4,600, oedd yn dal i fod ychydig yn fwy na Cheredigion, ond ychydig yn llai na Sir Ddinbych, lle roedd yr Eisteddfod i fod i gael ei chynnal.

Mae niferoedd aelodau'r Urdd yn y sir yn rhoi darlun i ni o p'un ai ydy ein plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg, gan eu bod yn aelodau gyda'r Urdd er mwyn cymryd rhan mewn eisteddfodau, gweithgareddau adrannau ac aelwydydd, teithiau a gwersylloedd a chystadlaethau chwaraeon.

| **2017-18** | Cynradd | Uwchradd | Hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Myrddin | 1,725 | 1,074 | 37 | 2,836 |
| Dwyrain Myrddin | 2,242 | 860 | 13 | 3,124 |

Roedd cyfanswm aelodau'r Urdd yn y sir yn 2017-18 yn **5,960**, sef 1,500 yn uwch na Cheredigion a 1,200 yn uwch na Chaerdydd a'r Fro.

| **2018-19** | Cynradd | Uwchradd | Hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Myrddin | 1,818 | 900 | 44 | 2,762 |
| Dwyrain Myrddin | 2,129 | 848 | 23 | 3,000 |

Roedd cyfanswm aelodau'r Urdd yn Sir Gâr yn 2018-19 yn **5,762**, sef 1,400 yn fwy na Cheredigion, a 100 yn fwy na Chaerdydd a'r Fro (mae'r cynnydd yn aelodau Caerdydd yn debygol o fod o ganlyniad i'r ffaith fod yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd yn 2019).

| **2019-20** | Cynradd | Uwchradd | Hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Myrddin | 1,746 | 870 | 38 | 2,654 |
| Dwyrain Myrddin | 1,933 | 638 | 21 | 2,592 |

Roedd cyfanswm aelodau'r Urdd yn y sir yn 2019-20 yn **5,246**, sydd yn 900 yn llai na Cheredigion a 600 yn llai na Chaerdydd a'r Fro. Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr aelodau yn 2019-20 a'r bwlch yn cau rhwng Sir Gâr a'r siroedd eraill, ac er y daeth y cyfnod clo cyntaf o ganlyniad i COVID-19 ym mis Mawrth 2020 ac ni chynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr

Urdd o gwbl yn 2020, roedd y dyddiad cau ar gyfer ymaelodi â'r Urdd wedi pasio erbyn Mawrth 2020.

Erbyn 2020-21, roedd effaith COVID-19 wedi bwrw'r Urdd wrth reswm. Wedi gorfod diddymu holl weithgaredd yr Urdd, o'r eisteddfodau i'r gwersylloedd a'r chwaraeon yn ystod cyfnod y pandemig, doedd plant a phobl ifanc Sir Gâr, fel yng Nghymru gyfan ddim yn gweld angen dod yn aelodau. Cynhaliwyd rhywfaint o weithgarwch ar-lein ond doedd dim angen dod yn aelod o'r Urdd i fynychu'r gweithgaredd am ddim. Wrth reswm fe gynhaliwyd Eisteddfod rithiol cenedlaethol yr Urdd, sef Eisteddfod T, ond er fod yr Eisteddfod T yn cynnal diddordeb a bwrlwm o ran y celfyddydau yn Gymraeg, nid oedd modd iddi gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol fel y ceir mewn eisteddfodau cylch a rhanbarth.

Mae ffigurau 2021-22 yn dal i fod yn isel. Gydag ansicrwydd ynglŷn â sut bydd modd cynnal eisteddfodau yn dal i fod, a mynediad i ysgolion yn dal i fod yn gyfyng. Does dim sicrwydd a fydd cystadlaethau chwaraeon yn gallu digwydd ac mae'r holl ansicrwydd yn amlwg yn effeithio ar niferoedd yr aelodau.

| **2021-22** | Cynradd | Uwchradd | Hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Myrddin | | | | 1397 |
| Dwyrain Myrddin | | | | 1548 |

Cyfanswm aelodau'r sir ar hyn o bryd yw 2,945, sydd yn llai na hanner y cyfanswm arferol cyn COVID-19. Mae angen sicrhau bod y nifer yma'n cynyddu ar gyfer 2022-23, yn enwedig gan fod yr Eisteddfod yn dod i Sir Gaerfyrddin y flwyddyn nesaf.

O ran yr ysgolion sy'n trefnu ymwneud eu disgyblion gyda gweithgareddau'r Urdd, mae Bro Banw, Bro Brynach, Brynsierfel, Dewi Sant, Ffairfach, Ffwrnes, Gruffudd Jones, Gwenllian, Ysgol Gymraeg Rhydaman, Llanddarog, Llangadog, Llangynnwr, Llys Hywel, Nantgaredig, Peniel, Pontyberem, Treioan ac Ysgol y Derwen yn mynychu nifer fawr o weithgareddau allgyrsiol y mae'r Urdd yn eu cynnig. Mae 22 ysgol arall yn ymwneud gyda rhai o weithgareddau'r urdd yn flynyddol a 43 yn ymwneud ychydig bach gyda'r gweithgareddau a gynigir. Prin iawn yw'r ysgolion cynradd o fewn y sir sydd ddim yn manteisio ar gyfleoedd yr Urdd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o gwbl.

Ceir darpariaeth clybiau chwaraeon yn y sir yn ystod cyfnod y Strategaeth hon. Mae clybiau chwaraeon amrywiol ynghlwm wrth yr ysgolion yn Ysgol Dewi Sant, Ysgol Llangennech, Ysgol Pum Heol, Ysgol Y Ffwrnes, Ysgol Parc Y Tywyn, Ysgol Brynsierfel, Ysgol Yr Hendy, Ysgol Gwenllian, Ysgol Mynyddygarreg, Ysgol Trimsaran, Ysgol Cefneithin, Ysgol Gorslas, Ysgol Llechyfedach, Ysgol Llanddarog, Ysgol Penygroes, Ysgol Y Bedol, Ysgol Brynaman ac Ysgol Nantgaredig. Yn ogystal, mae darpariaeth chwaraeon cymunedol yng Ngholeg Sir Gar, Porth Tywyn, Trimsaran, Mynyddygarreg, Felinfoel, Pontyberem, Cross Hands, Cefneithin, Y Bedol a Chaerfyrddin.

Ar ddechrau cyfnod y strategaeth hon, roedd gan yr Urdd 2 Swyddog Datblygu, 1 Swyddog Cynorthwyol ac 1 Prentis yn Sir Gâr. Caewyd swyddfeydd a rhoddwyd y swyddogion ar gynllun

ffyrlo yn ystod y pandemig. Ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth, mae gan yr urdd 2 Swyddog Cymunedol (Celfyddydol a Gwersylloedd) ac 1 Swyddog Chwaraeon (Cymunedol a Chystadlaethau) yn y sir. Mae swyddfa'r Urdd yn y sir wedi symud i'r Egin ac mae 2 Swyddog o'r adran Eisteddfod hefyd yn gweithio o Gaerfyrddin.

## Merched y Wawr

Mae gan y Mudiad swyddog datblygu/hyrwyddo sy'n cefnogi 42 o ganghennau a chlybiau yn Sir Gâr. Mae'r swyddog yn cynrychioli canghennau a chlybiau'r rhanbarth ar bwyllgorau'r mudiad a phwyllgorau eraill. Mae hefyd yn trefnu digwyddiadau rhanbarthol i atgyfnerthu gweithgarwch cymdeithasol a diwylliannol y canghennau a chlybiau. Yn 2018, trefnwyd Sioe Ffasiwn fel rhan o ddathliadau Aur Rhanbarth Caerfyrddin a hefyd bu'r aelodau yn lansiad CD o ganeuon Cymraeg ar gyfer cartrefi gofal, a bu'r mudiad yn ran o weithgarwch S4C a'r Egin. Yn 2019, gweithredwyd ymgyrch i lanhau cymunedau gan nifer o ganghennau a chlybiau'r Rhanbarth a chyfrannodd aelodau'r sir at ymgyrch torri record y byd ar Ddydd Gŵyl Dewi. Bu'r mudiad hefyd yn darparu hyfforddiant digidol i aelodau yn dilyn cwrs a gynhaliwyd yn *Yr Egin*.

Mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19, sefydlwyd grŵp WhatsApp gan swyddogion y rhanbarth ac fe gynhaliwyd cyfarfod cyntaf digidol y Rhanbarth ym mis Medi 2020. Yn genedlaethol, cynhaliwyd cyrsiau, cystadlaethau llenyddol, coginio a chrefftio'n ddigidol, gyda llawer iawn o Ranbarth Caerfyrddin yn cystadlu.

Cyn y pandemig, roedd y canghennau a'r clybiau yn cwrdd ac yn cynnal ciniawau, cwisiau, Cymanfa Ganu, teithiau, chwist, Plygain, Twmpath Dawns, siaradwyr gwadd, gwibdeithiau a.y.y.b. Yn ystod 2020/21, mae nifer helaeth o'r canghennau a'r clybiau wedi bod yn cwrdd yn rhithiol, neu tu allan mewn gerddi, meysydd parcio neu'n mynd ar deithiau cerdded. Gwnaed ymdrech i bontio rhwng digwyddiadau rhithiol ac wyneb yn wyneb drwy gynnal her camau, oedd yn rhoi cyfle i aelodau greu cofnod digidol drwy lun a fideo o'u hymdrechion i gerdded. Y gobaith nawr yw y bydd modd adeiladu ar yr hyn sydd yn gweithio'n dda ac ail-sefydlu'r mudiad yng nghanol ein cymunedau gan oresgyn anawsterau fel prinder lleoliadau addas i gyfarfod a diffyg hyder aelodau. Bu Cangen Peniel yn llwyddiannus i gael grant o £500 gan CAVS i helpu at ailgychwyn cyfarfodydd.

Mae'r mudiad yn darparu cylchgrawn i'w haelodau, ynghyd â fersiwn i'r llyfrau llafar ac yn ddiweddar sefydlwyd podlediad newydd hefyd. Gwneir ymdrech i gymathu mewnfudwyr i ganghennau Merched y Wawr yn gyffredinol ac erbyn hyn ceir digwyddiadau i ddysgwyr ar-lein.

### Rhanbarth Caerfyrddin – Aelodaeth 2017-22

| CANGEN /CLWB | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergorlech | 14 | 14 | 13 | 10 | 11 |
| Abernant | 23 | 21 | 19 | 17 | 16 |
| Bargoed Teifi | 17 | 17 | 17 | 12 | 11 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Berem | 11 | 11 | 10 | 6 | CAU |
| Bro Alma | 25 | 25 | 21 | 20 | 16 |
| Bro Cennech | 48 | 47 | 48 | 47 | 47 |
| Bro Elfed | 18 | 17 | 18 | 17 | 15 |
| Bro Gwili | 17 | 18 | 16 | 17 | 17 |
| Bro Pantycelyn | 24 | 24 | 22 | 21 | 18 |
| Caerfyrddin | 32 | 35 | 36 | 33 | 33 |
| Capel Iwan | 14 | 14 | 15 | 12 | 10 |
| CG Alltgafan | 7 | 7 | CAU | | |
| CG Criw Aur | | | 14 | 14 | 13 |
| CG Criw Cothi | 17 | 19 | 19 | 19 | 15 |
| CG Gwendraeth | 26 | 27 | 24 | 17 | 22 |
| CG Llandeilo | 21 | 22 | 23 | 13 | 14 |
| CG Llanfynydd | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |
| CG Llanllwni | 16 | 9 | 11 | 9 | 12 |
| CG Llanymddyfri | 15 | 13 | 16 | 16 | 13 |
| CG Maelog | 15 | 12 | 14 | 0 | 0 |
| CG Merched Hywel | 17 | 18 | 22 | 18 | 19 |
| CG Myrddin | 12 | 14 | 16 | 13 | 10 |
| CG Pum Heol | 12 | 19 | 16 | 14 | 17 |
| CG Y Sosban | CAU | | | | |
| Geler | 24 | 25 | 25 | 14 | 16 |
| Glannau Pibwr | 17 | 16 | 19 | 18 | 19 |
| Gronw | 19 | 19 | 17 | 16 | 15 |
| Gwendraeth | 19 | 17 | 15 | 0 | CAU |
| Hendygwyn ar Daf | 16 | 15 | 15 | 14 | 16 |
| Llandeilo | 36 | 37 | 33 | 26 | 26 |
| Llanddarog | 20 | 22 | 21 | 21 | 23 |
| Llangadog | 14 | 12 | 15 | 13 | 19 |
| Llangyndeyrn | 18 | 12 | 25 | 18 | 21 |
| Llannau'r Tywi | 29 | 28 | 27 | 26 | 25 |
| Nantgaredig | 32 | 34 | 31 | 28 | 29 |
| Pencader a'r Cylch | 25 | 25 | 22 | 23 | 24 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Peniel | 28 | 28 | 33 | 30 | 35 |
| Penygroes | 17 | 14 | 17 | 17 | 17 |
| Pumsaint | 17 | 19 | 18 | 18 | 17 |
| Rhydaman a'r Cylch | 56 | 50 | 52 | 44 | 30 |
| San Clêr | 26 | 29 | 29 | 25 | 28 |
| Y Tymbl | 44 | 45 | 46 | 44 | 44 |
| **CYFANSWM** | **882** | **874** | **894** | **764** | **757** |

Felly, mae'n hynod galonogol i weld bod 38 allan o'r 42 o Glybiau Gwawr a Changhennau Merched y Wawr yn dal i fynd er gwaetha'r pandemig ac, er bod niferoedd wedi disgyn gan tua 15% ers y cyfnod cyn COVID-19, mae'n wych gweld bod niferoedd y rhan fwyaf o glybiau a changhennau'n sefydlog. Efallai ei fod werth nodi fodd bynnag fod tri allan o'r pedwar cangen neu glwb sydd wedi cau yn ystod cyfnod y strategaeth yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli, sef Clwb Gwawr y Sosban a Changhennau Merched y Wawr Gwendraeth a Berem. Wedi dweud hynny, mae rhai o'r canghennau mwyaf poblogaidd hefyd yn yr ardal hynny, fel Tymbl a Llangennech sydd â 44 a 47 o aelodau.

Mae gweithgareddau i **ddysgwyr**, i gynyddu eu hyder a'u defnydd o'r Gymraeg wedi bod yn cael eu cynnal gan y sefydliadau sy'n dysgu Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Aberystwyth a Chyngor Sir Gâr) a chan y Mentrau Iaith. Cynhelir sesiynau sgwrsio a gweithgareddau amrywiol mewn cymunedau yn ôl y galw, neu pan fo bwlch amlwg yn ymddangos. Pan ddaeth cyfyngiadau COVID-19, sefydlwyd sesiynau ar-lein gan y cyrff a fu'n darparu ynghynt. Nid oedd cyfyngiadau daearyddol bellach ar y sesiynau, a oedd yn fanteisiol i raddau gan fod modd i ddysgwyr ddod i unrhyw sesiwn ddigidol oedd yn addas, er mae'r sefyllfa hon yn codi cwestiynau newydd ynglŷn a chyd-gynllunio darpariaeth a chyd-farchnata darpariaeth nad yw wedi'i gyfyngu i ardaloedd daearyddol. (Gweler mwy am gyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ar dudalen 32 uchod).

Ni cheir ffigurau na gwybodaeth ddaearyddol ar nifer a hyfywedd **mudiadau a chymdeithasau** sy'n darparu'n Gymraeg sydd y tu allan i ddylanwad uniongyrchol mudiadau'r Fforwm Strategol sirol. Mae gan y mentrau argraff go dda o sefyllfa'r capeli, y corau, yr eisteddfodau bach a'r Papurau bro er enghraifft, ond nid oedd gwybodaeth ffurfiol am y darpariaethau cymunedol Cymraeg hyn. Gweinyddodd Llywodraeth Cymru ymchwil ar effaith COVID-19 ar y Gymraeg yn gymunedol ac fe fwydodd y mentrau wybodaeth ar Sir Gâr i mewn i'r arolwg. Er nad yw'n darparu data ar lefel sirol, gall roi argraff o dueddiadau i'w hystyried.

Soniwyd eisoes fod **datblygiadau digidol** wedi cynnig ffordd newydd o weithio i'r cyrff cymunedol, fel y mentrau iaith, i gyrraedd a darparu ar gyfer pobl ifanc mewn modd sy'n hygyrch ac yn apelgar iddyn nhw. Mae gan o leiaf un fenter sianel YouTube erbyn hyn sy'n cynnwys ei holl arlwy fideo ar alw. Yn yr un modd, mae presenoldeb y Gymraeg ar y cyfryngau digidol wedi cynyddu'n fawr ers cychwyn y pandemig. Ceir grwpiau Facebook, fel 'plantos Caerfyrddin' sy'n gweithredu'n gwbl Gymraeg. I bobl ifanc, mae 'meddwl.org' a 'Hansh' yn datblygu deunyddiau sydd o ddiddordeb ac o gymorth yn Gymraeg, ac yn ddiweddar

sefydlwyd 'Shwmae Sir Gâr' sy'n darparu deunyddiau digidol lleol yn Gymraeg. Mae llawer iawn o bodlediadau'n darparu cynnwys apelgar a nifer wedi'u sefydlu gan unigolion o'r sir fel y podlediad am triathlon 'Nawr yw'r Awr'. Ar ben hynny, ceir rhai apiau gyda chynnwys Cymraeg, yn enwedig ar gyfer cywirdeb iaith, dysgu Cymraeg a rhai addysgol i blant. Mae rhai ymdrechion wedi bod gan gyrff amrywiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth ddigidol yma i drigolion y sir, ond 'Shwmae Sir Gâr' yw'r unig ymdrech benodol i greu adnoddau neu gynnwys o'r sir ar gyfer pobl y sir.

Mae nifer fawr o weithgareddau'n cael eu cynnal mewn **neuaddau pentref** ar hyd a lled y sir. Mae rhai'n digwydd yn Gymraeg, rhai'n Saesneg a rhai'n ddwyieithog. Bydd rhai'n cael eu cynnal gan fusnesau hamdden bach a rhai'n wirfoddol. Does dim gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddylanwadu ar ddefnydd iaith y sesiynau hyn a does dim dealltwriaeth o faint o ddylanwad ar ddefnydd iaith yn gymunedol sydd gan y digwyddiadau hyn. Yn yr un modd, mae gan y neuaddau oll bwyllgorau gwirfoddol a chyfryngau cymdeithasol i farchnata digwyddiadau. Does dim gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y meysydd hyn chwaith.

Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, mae canolfannau Cymraeg wedi cyfrannu i gynyddu defnydd y Gymraeg a hyder yn y Gymraeg yn y sir. O 2014 hyd 2019, roedd Canolfan Gymunedol, **Y Lle** yn cael ei redeg yn nhref Llanelli. Roedd hon yn fenter gymunedol gydag adeilad, oedd yn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn bennaf i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Roedd clybiau ieuenctid a gweithdai cerddoriaeth yn cael eu cynnal yn y lleoliad ac fe gafodd y ganolfan gryn lwyddiant mewn darparu gweithgareddau yn Gymraeg mewn ardal nad oedd yn ymgysylltu gyda'r Gymraeg yn gymunedol fel arfer. Heb gymorth ariannol hirdymor, a chyda gormod o ddibyniaeth ar wirfoddolwyr prin, caeodd y Ganolfan ei drysau.

Agorwyd **Yr Atom** yn swyddogol ym mis Hydref 2015, ddwy flynedd cyn cyfnod y Strategaeth hon, wedi i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant brynu'r adeilad gyda chefnogaeth grant o Gronfa Fuddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru, er mwyn sefydlu Canolfan Gymraeg yng nghanol tref Caerfyrddin. Aeth y Brifysgol ati i fuddsoddi ymhellach a datblygu'r adeilad i gynnwys caffi ac amryw ystafelloedd er mwyn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, hamdden a busnes ar gyfer y gymuned gyfan.

Daeth Yr Atom yn gartref i nifer o fusnesau a sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a gweithio'n ddwyieithog megis Menter Gorllewin Sir Gâr, Cylch Meithrin Caerfyrddin a Menter a Busnes. Bu gwersi Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal yno ac am y tro cyntaf erioed, roedd modd i unigolion sy'n dymuno dysgu'r iaith ffonio er mwyn canfod dosbarth. Cyn y cyfnod clo roedd hyd at 150 o ddysgwyr yn mynychu gwersi wythnosol yn y ganolfan. Mae modd i ddysgwyr gynyddu eu hyder trwy ymarfer eu defnydd mewn gwersi, yn y caffi a chyda staff.

Mae trawstoriad o ddefnyddwyr Yr Atom yn cynnwys Cymraeg i Blant, Merched y Wawr ac Adran Ffynnonddrain sy'n cwrdd yna'n rheolaidd. Mae cyfle i ymarfer a chynyddu defnydd unigolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae'n sicr bod yr is-adeiledd yma wedi grymuso siaradwyr y Gymraeg i arbrofi a datblygu hyder oherwydd yr ymdeimlad bod yna gartref i'r Gymraeg ar un o brif strydoedd y dref yng Nghaerfyrddin. Ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth hon, mae'r Atom yn gweithio i sbarduno digwyddiadau yn ôl yn y lleoliad ers Covid-19. Mae

cynlluniau ar y gweill i sefydlu'r Atom fel hwb i ddysgwyr Cymraeg tref Caerfyrddin, i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a rhieni, i ddarparu lle yn yr Atom i fusnesau a gweithleoedd ac, yn gyffredinol, i'w datblygu yn ganolfan hyfyw a chynaliadwy, ac mae strwythurau staffio newydd, gyda rheolwr newydd i'r Atom a'r ganolfan o dan reolaeth yr Egin yn debygol iawn o esgor ar gydweithio a datblygu gweithgarwch Cymraeg ffyniannus yn nhref Caerfyrddin.

Mae'r **Cwtsh** ym Mhontyberem hefyd yn hwb cymunedol sy'n darparu cyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol. Mae'r caffi a'r siop yn denu pobl yno ac mae'n lle da i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg hefyd.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, denodd Menter Dinefwr oddeutu £1.8m o gyllid (cyfalaf a refeniw) i sefydlu canolfan groeso a threftadaeth, ac cynnig swyddfeydd ac ystafelloedd amlbwrpas i'r gymuned, yn ogystal â chartref newydd i'r Fenter iaith. Agorwyd **Hengwrt** ar ddiwedd cyfnod y strategaeth hon yng nghanol tref Llandeilo ac mae'n cynnig potensial mawr i ddarparu hwb Cymraeg yn y dref.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hwn, sefydlwyd **Canolfan S4C Yr Egin** yn y sir. Agorwyd y ganolfan yng Nghaerfyrddin yn ystod hydref 2018 ac mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o weithredu'r 12 busnes arall sydd wedi ymgartrefu yn y ganolfan yn ogystal. Mae'r awyrgylch y mae'r ganolfan yn ei gynnig yn un Cymraeg ac fe glywir y Gymraeg yn bennaf yn yr adeilad i gyd, gan gynnwys y caffi, sy'n cael ei redeg gan gwmni lleol, Cymraeg, *Y Sied*. Mae'r ganolfan yn codi statws y Gymraeg yn y dref ac yn y sir ac wedi darparu hwb creadigol, diwylliannol a chymdeithasol Cymraeg sy'n apelgar ac yn gyfoes. Roedd agor y ganolfan ei hun yn weithred allweddol i sbarduno hyder siaradwyr Cymraeg yn y sir ac yn gymhelliant i nifer ail-gydio neu ddechrau dysgu.

Mae'r ganolfan yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd teledu byw, theatr, digwyddiadau cerddorol ac addysgiadol ynghyd â darparu lle ar gyfer rhwydweithio a rhyngweithio cymdeithasol wyneb i wyneb ac ar-lein. Mae 80% o weithgarwch y ganolfan yn y Gymraeg.

| Blwyddyn | Nifer mynychwyr |
|---|---|
| 2018-19 | 9697 |
| 2019-20 | 8244 |
| 2020-21 | 3169 |
| 2021-22 (hyd at Chwefror 2022) | 1257 |

Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddirfawr ar y niferoedd o bobl bu'n bosibl croesawu trwy'r drws. Serch hynny, mae yna nifer fawr o brosiectau dwys wedi digwydd yn ystod y 3 mlynedd diwethaf sydd wedi cyfrannu at gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y sir. Cynhaliwyd prosiectau penodol i gyflwyno'r Gymraeg i blant a phobl ifanc mewn modd deniadol a chyfoes. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, roedd EGNI yn enghraifft o hyn. Darparwyd profiadau creadigol cyfrwng Cymraeg i 1077 o blant o ysgolion cynradd Y Ddwylan, Brynaman, Parcyrhun, Y Felin, Bro Banw, Dewi Sant, Trimsaran a'r Ffwrnes, ac ysgolion uwchradd y Strade a Dyffryn Aman. Rhoddodd y prosiect

gyfle i'r disgyblion weld yr iaith ar waith mewn gweithle penodol, ddeall bod defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yn broses naturiol yn y Gymru gyfoes ac ystyried y Gymraeg fel llwybr addysg yn y dyfodol. Roedd Creu Podlediadau gyda thîm dan 14 Clwb Rygbi Llanymddyfri a 'Cerddi Cymunedol' hefyd yn brosiectau oedd yn cynnig cyfle i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa greadigol a magu hyder wrth wneud hynny.

Mae **gweithleoedd** y sir hefyd yn fan allweddol ar gyfer cynyddu defnydd a hyder trigolion y sir yn eu Cymraeg. Gyda phob gweithlu cyhoeddus sylweddol bellach yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, mae dyletswydd ar bob gweithle i gynnig cyfleoedd i'w staff i ddysgu'r Gymraeg. Fel yr adroddwyd o dan Amcan 1 (tud. 28-9), mae pob un o sefydliadau cyhoeddus y sir yn darparu cyfleoedd i staff i wella eu sgiliau Cymraeg drwy gyrsiau ffurfiol. Er na welir ffrwyth y llafur hwn mewn cynnydd yn nata sgiliau iaith y gweithleoedd hyd yma, mae'r defnydd a wnaed o ddulliau amrywiol o ddysgu, o gyrsiau ar lein i gyrsiau wedi eu teilwra i grwpiau penodol o staff yn galonogol o safbwynt pob un o'r cyrff cyhoeddus.

Mae'r Safonau hefyd yn gosod rheidrwydd ar gyrff cyhoeddus i greu polisi i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol. Yn ystod cyfnod y Strategaeth hwn, mae Cyngor sir Gâr, Hywel Dda, Coleg sir Gâr, Prifysgol y drindod Dewi Sant a Heddlu Dyfed Powys wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau ac wedi darparu amrywiaeth o gefnogaeth i annog defnydd o'r Gymraeg ymysg y staff yn anffurfiol. Mae'r ddwy sefydliad addysgol wedi darparu cyfleoedd anffurfiol i'r myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal.

Mae **Cyngor Sir Gâr** wedi hyfforddi Arweinwyr Iaith o fewn yr adrannau Cymunedau, Gwasanaethau Plant, Amgylchedd a Hamdden, ac mae'r unigolion hynny wedi trefnu digwyddiadau anffurfiol i annog defnydd y staff o'r Gymraeg. Yn aml, defnyddir gwyliau blynyddol fel Santes Dwynwen, Dydd miwsig Cymru a dydd Gŵyl Dewi i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac i gynnull staff ynghyd yn ystod amser cinio i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chystadlaethau Cymraeg. Gellir gweld enghreifftiau o' rhain yn adroddiadau blynyddol y Gymraeg ar wefan y Cyngor.

Ers, Mawrth 2020, pan ddechreuodd gweithlu'r Cyngor weithio o adref, nodwyd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ystod y diwrnod gwaith. Cyfrannodd Cyngor sir Gâr nifer sylweddol o ymatebiadau i ymchwil Prifysgol Bangor ar effaith y pandemig ar ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle, ac yn medi 2011 sefydlwyd digwyddiadau misol ar lein i gynnig cyfle rheolaidd i staff i glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol. Mae'r sesiynau misol yn gwahodd siaradwyr amrywiol a yn cynnal gweithgarwch amrywiol i greu diddordeb a chynyddu ymgysylltu gyda'r Gymraeg o fewn y gweithlu.

Gwnaed ymdrechion parhaus yn ogystal i gynyddu defnydd y gweithlu 'r Gymraeg wrth weithredu ar ran y cyngor. Ehangwyd y rhaglen o fentoriaid gwirfoddol, sy'n cefnogi dysgwyr ac fe hyrwyddwyd datblygiadau technegol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar y cyfrifiadur yn gyson.

Ym **Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant**, mae Cangen Coleg Cymraeg y brifysgol yn cynnal defnydd myfyrwyr Cymraeg y coleg o'r Gymraeg drwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol, ac mae'r brifysgol yn annog y myfyrwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau, diwrnodau agored, profiad gwaith a chyflwyniadau sy'n hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle a chyfleoedd gyrfa. Mae'r myfyrwyr a'r staff hefyd yn cael eu hannog i fynychu'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnal yn yr Atom a'r egin yn ogystal.

Mae gan **Fwrdd iechyd Prifysgol Hywel Dda** strategaeth Sgiliau iaith ac mae'n wedi gwneud ymdrechion penodol yn ystod cyfnod y Strategaeth hon i gynyddu defnydd y staff o'r Gymraeg

wrth weithio o dan y brand 'Rho Gynnig arni'. Mae clybiau clonc rhithiol wedi cael eu sefydlu yn ogystal â 15 aelod o staff yn mynychu cwrs 'codi hyder'. Mae'r cwrs yn gwrs peilot ac mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn gweld cynnydd yn y defnydd o Gymraeg gan y staff sydd ar y cwrs.

Mae **Coleg Sir Gâr** wedi gwneud ymdrechion i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gwaith drwy gynnal sesiynau hyfforddiant staff ar ddysgu yn ddwyieithog, a chefnogi'r staff sy'n dysgu'n ddwyieithog gydag adnoddau dysgu ar y system Google. Ceisiwyd cynyddu hyder tiwtoriaid i ddefnyddio'u Cymraeg drwy gynnig cyrsiau 120 awr o 'Cymraeg Gwaith' a darparwyd cefnogaeth tîm dwyieithrwydd y coleg i hybu'r Gymraeg yn y dosbarth a helpu creu deunydd dysgu dwyieithog newydd. Cynhaliwyd hefyd *Glwb clonc* a *Her 30 Diwrnod*, i wella sgiliau Cymraeg staff mewn modd mwy ysgafn ac apelgar.

Yr hyn na wnaed hyd yma gan yr un o'r cyrff cyhoeddus o fewn y sir yw cynnydd sylweddol mewn defnydd y gweithlu o'r Gymraeg yn eu gwaith. Er gwaethaf ymrwymiad mewn egwyddor gan y Cyngor sir ers adroddiad y Gymraeg yn 2014 i weithio tuag at weinyddu'n Gymraeg, ni wnaed cynnydd yn y maes hwn. Mae'n sicr fod defnydd y Prif weithredwr o'r Gymraeg yn ddatblygiad cadarnhaol, ac mae yna fwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y Bwrdd Gweithredol ac ymysg rhai Rheolwyr. Ond, nid oes newid pwrpasol wedi bod yn iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor. Yn yr un modd yng nghyrff cyhoeddus eraill y sir, gyda chymaint o botensial yn ein gweithleoedd i gynyddu hyder ein trigolion yn eu sgiliau Cymraeg drwy weithredu'n Gymraeg yn y gwaith, mae angen i'r cyrff cyhoeddus symud ymlaen yn hyderus. Mae angen gwneud ymdrechion sylweddol i symud oddi wrth yr arferion gwaith hanesyddol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog ond gweinyddu'n Saesneg, i weithredu'n naturiol Gymraeg er mwyn creu sefyllfa lle mae'r Gymraeg wirioneddol yn brif iaith y sir. Wrth i CSGA arwain ein system addysg tuag at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen gweithleoedd o fewn y sir lle gall ein pobl ifanc gadw a chynnal eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith.

### 2.1.2. Cynyddu hyder a defnydd: I ba raddau yr ydym wedi dilyn ein Cynllun gweithredu?

Gwnaed prosiect mapio gweithgarwch cymunedol y mudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gâr yn erbyn amcanion y Strategaeth i weld i ba raddau roedd gwaith y mudiadau yma wedi targedu i'r un nodau a'r Strategaeth. Cynhaliwyd y gwaith mapio rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017 gan gwmni ymgynghori YmgynghorIAITH. O'r gwaith ymchwil, fe darganfuwyd bod gweithgarwch yn digwydd ar bob un o nodau strategol y Strategaeth Hybu. Roedd y data yn dangos yn glir, mwy o sylw ar Nodau 1 a 2 na thri nod arall y strategaeth. Un o'r argymhellion a ddaeth o'r adroddiad oedd yr angen i gynnull gweithgareddau'r mudiadau sy'n hyrwyddo'r iaith yn gymunedol mewn un man, fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd yn Gymraeg yn y sir. Gan fod gan y cyngor sir dudalennau gwe newydd i hyrwyddo digwyddiadau yn y sir yn gyffredinol, sef 'be sy mlaen' ar darganfodsirgar.com, penderfynwyd defnyddio'r adnodd electroneg yma i gadw holl ddigwyddiadau Cymraeg y sir. Trefnwyd hidlydd ar gyfer y Gymraeg a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i ganfod y weithgaredd yn haws. Er fod rhai mudiadau wedi ymroi i gynnwys eu holl gweithgareddau ar y tudalennau gwe yma, nid ydy pawb yn gwneud. Ar unrhyw adeg, mae tua dau ddigwyddiad yn ymddangos ar y wefan. Nid ydy'r adnodd wedi cynnig yr hyn y byddai'r mudiadau angen ar gyfer marchnata eu gweithgareddau gan nad oes ganddynt unrhyw reolaeth ar bwy sy'n ymweld â'r tudalennau gwe yma. Mae'n rhaid iddyn barhau i farchnata eu gweithgareddau eu hunain yn annibynnol ar blatfformau eraill ac felly nid ydyn bob amser yn trafferthu defnyddio adnodd y Cyngor. Bydd angen ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer marchnata digwyddiadau Cymraeg mewn un lle, ar y cyd.

**Gwasanaethau Hamdden Cyngor sir gâr**

| Nod |
|---|
| Symud gwasanaethau hamdden a diwylliant y sir ar hyd y continwwm iaith i fod yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg i gyd fynd gyda'r Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Gweithredu cynllun parhaus i recriwtio staff sydd â sgiliau dwyieithog, i ddatblygu sgiliau iaith staff presennol ac i gynyddu darpariaeth Cymraeg ar draws ein gwasanaethau. |

Mae nifer y staff sydd ar lefel 0 yn yr adran hamdden wedi gostwng o 48 i 33, a hynny'n 11% a 8% o gyfanswm y staff yn yr adran rhwng 2017 a 2022. Fodd bynnag, mae'r nifer o staff sydd yn medru'r Gymraeg yn rhugl (lefel 3+) wedi gostwng o 50% i 45%. Oherwydd y pandemig, y sefyllfa anarferol o gael staff ar Furlough am gyfnod a nifer o swyddi wedi aros yn wag yn dilyn y pandemig, nid oedd modd effeithio ar y niferoedd yn gadarnhaol drwy'r broses recriwtio. Ar ben hynny, mae'r staff sydd wedi eu colli a heb gael eu hail-recriwtio yn tueddi i fod yn rhai gweithredol, sydd yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd ac felly sydd â sgiliau Cymraeg. Mae'r ganran o'r staff oll felly sydd â sgiliau Cymraeg yn naturiol yn is, nid am fod staff heb sgiliau Cymraeg wedi cael eu recriwtio ond yn hytrach am nad ydy'r swyddi gweithredol wedi cael eu llenwi. Y gobaith yw, wrth i'r swyddi hyn gael eu llenwi'n raddol dros y blynyddoedd nesaf, y bydd y ganran o staff â sgiliau iaith yn yr adran hamdden yn

raddol godi. Rhaid nodi hefyd, fodd bynnag, fod sefyllfa recriwtio wedi COVID-19 yn anos nac erioed gyda niferoedd isel dros ben yn ceisio am swyddi. Wrth reswm, mae hyn yn ei wneud yn anos fyth i recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Gyda'r nod o gymreigio'r gwasanaeth hamdden a chreu naws Gymraeg yn ein canolfannau cyhoeddus, comisiynwyd cwmni lleol i ddarparu ffrwd cerddoriaeth ddwyieithog i ddarparu cerddoriaeth cefndir Gymraeg, cyson ac o ansawdd, yn ein adeiladau cyhoeddus. Roedd y gwasanaeth wedi ei sefydlu erbyn Chwefror 2019, ac fe lansiwyd ar Ddydd Miwsig Cymru. Does dim os fod y gwasanaeth hwn yn normaleiddio ac yn codi statws y Gymraeg yn y sir, drwy gyflwyno'r Gymraeg mewn agwedd o fywyd mae bobl yn tueddi i gysylltu gyda diwylliant engl-americanaidd.

| **Nod** |
|---|
| Cynyddu'r nifer o blant y sir sy'n derbyn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Gweithredu'r cynllun a luniwyd mewn ymateb i ymchwiliad gan y Comisiynydd. |

Gwnaed llawer iawn o waith yn ystod cyfnod y strategaeth hwn i gynyddu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yng ngwersi nofio'r Cyngor sir ac fe gyrhaeddwyd sefyllfa lle y cynigir gwersi Cymraeg ar bob lefel yn ein canolfannau hamdden. Cynyddwyd nifer y gwersi nofio Cymraeg a dwyieithog o 29% yn 2016 i 49% yn 2018. Roedd nifer y gwersi cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yng Nghanolfan Caerfyrddin bron wedi treblu i 62% a Rhydaman wedi dyblu i 72% yn ystod y ddwy flynedd ond gwelwyd gostyngiad o 9% yng Nghanolfan Llanelli.

Sicrhawyd bod holl staff newydd sy'n derbyn hyfforddiant lefel 1 a 2 nofio yn derbyn elfen o hyfforddiant ynglŷn â'r Gymraeg ac adnoddau (cardiau fflach) gyda thermau nofio Cymraeg arnynt yn ganolog oddi wrth nofio Cymru, a bod y staff presennol hefyd yn cael cynnig yr elfen Gymraeg yma o hyfforddiant fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. Datblygwyd trefn newydd o arsylwi'r sesiynau hyfforddi nofio i roi sylw i'r % o'r wers sy'n cael ei gynnal yn Gymraeg. Crëwyd fideo hyfforddi newydd i ddysgu staff sut i gynnal sesiynau hyfforddi nofio Cymraeg mewn sefyllfaoedd dwyieithog, ac i arwain staff drwy'r broses o ddarparu hyfforddiant nofio yn unol â'r Safonau. Law yn llaw â'r fideo, darparwyd sesiynau hyfforddiant benodol mewn tri o'r canolfannau hamdden i ennyn hyder y tiwtoriaid i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, faint bynnag y bo, yn y gwersi, gyda ymarferiadau termau a gwybodaeth am hyrwyddo iaith yn gyffredinol.

Er gwaetha'r gwaith yma, ceir adroddiadau cyson nad ydy'r ddarpariaeth gwersi nofio ar gael yn Gymraeg yn unol â'r galw. Mae bosib fod angen gwaith pellach ar y modd y cyflwynir y dewis iaith i gwsmeriaid. Byddai'n braf cyrraedd sefyllfa lle gallwn fod yn hyderus fod dewis iaith y plentyn yn ei ddilyn drwy gydol ei daith o ddysgu nofio a bod ymdrech go iawn i ddarparu yn unol â'i ddewis iaith yn cael ei ddarparu o hyd.

| **Nod** |
|---|
| Cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Cam gweithredu |
|---|
| Ystyried y posibiliad o ddatblygu hyfforddiant i hyfforddwyr ar sut i ddarparu sesiynau dwyieithog |

Dosbarthwyd adnoddau fideo 'Amdani', y Comisiynydd holl staff i holl staff priodol hyrwyddo hyfforddi dwyieithog.  Crëwyd fideo hyfforddi newydd ar sut i hyfforddi chwaraeon yn Gymraeg, yn ddwyieithog a gyda rhywfaint o Gymraeg, yn unol â sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol.  Dangoswyd y fideo mewn cynhadledd i holl staff yr adran hamdden yn ystod 2018/9.

| Nod |
|---|
| Cefnogi staff y gwasanaeth hamdden a diwylliant sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn |

| Cam gweithredu |
|---|
| Parhau gyda'r ymdrechion i wella sgiliau iaith y gweithlu gan gychwyn gyda chael pob aelod o staff diwylliant a hamdden, sy'n gweithio ar gontract 10 awr neu fwy, ar lefel 1 |

Yn 2018, dim ond 18 aelod o staff oedd ar gontractau o 10 awr + yn yr Adran sydd ar ôl ar lefel 0.  Erbyn 2021, mae 11 yn weddill yn unol â'r data diweddaraf.  Bydd angen gwirio'r wybodaeth yma a sicrhau fod y gweddill yn dilyn yr hyfforddiant priodol cyn gynted â phosib.

| Cam gweithredu |
|---|
| Ymchwilio i'r posibiliad o lenwi ein swyddi o fewn theatrau ein hunain yn hytrach na defnyddio asiantaeth, er mwyn cynyddu'r nifer sydd â sgiliau dwyieithog |

Ceir strwythur newydd o fewn Theatrau Sir Gâr erbyn hyn, felly mae'r defnydd o asiantaeth wedi lleihau.  Yn 2016/17 roedd tua 25 staff asiantaeth, ac erbyn diwedd cyfnod y strategaeth mae 4 o staff asiantaeth.  O ran y staff parhaol, roedd gan 17% gyda sgiliau Cymraeg lefel 3 ac uwch yn 2017, ac wrth i ni leihau ein defnydd o asiantaeth, mae bellach 25% o'r staff parhaol gyda sgiliau Cymraeg lefel 3 neu uwch.  Rhaid nodi, fodd bynnag, fod recriwtio i'r sector celfyddydau yn affwysol o anodd ar hyn o bryd, ers i'r theatrau orfod cau o achos COVID-19, a golyga hyn ein bod wedi gorfod parhau i ddefnyddio asiantaeth dros y misoedd mwyaf diweddar.

| Nod |
|---|
| Parhau i ddatblygu prosiect yr Arweinwyr Iaith ar draws yr Adran gan gefnogi'r staff i ddatblygu'r Gymraeg o ddydd i ddydd wrth i'r adran ddarparu gwasanaethau |

| Cam Gweithredu |
|---|

| |
|---|
| Datblygu eu gwaith ymhellach i edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau ac annog defnydd o'r gwasanaethau dwyieithog |

Gwnaed gwaith datblygu sylweddol ar wella dwyieithrwydd gweledol y canolfannau hamdden. Crëwyd adnoddau ychwanegol, a bwydwyd gwirio'r arwyddion i mewn i systemau 'dacol' hamdden. Gwnaed prosiectau marchnata gan yr Arweinwyr Iaith ar gyfer Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae lle roedd y staff yn marchnata eu gwasanaethau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn annog caffael a defnydd y Gymraeg yn fewnol. Ers COVID-19, mae momentwm y gwaith yma wedi pylu.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Parhau i ddatblygu'r cyswllt rhwng yr Arweinwyr Iaith a chyrff y Fforwm Sirol gyda golwg ar gyd-gynllunio, llenwi bylchau a sbarduno datblygiadau yn enwedig i bobl ifanc |

Sicrhawyd bod swyddog Actif yn mynychu cyfarfodydd Swyddogion Maes y Fforwm strategol sirol ac fe esgorodd hyn ar gydweithio agosach. Ond nid ydy'r Fforwm Swyddogion Maes wedi cwrdd ers amser, oherwydd COVID-19 felly nid ydy'r cysylltiad hwn yn bodoli bellach, ond mae'r adran yn awyddus i ail sefydlu y cysylltiad yma wrth i wasanaethau a chymdeithas ddod nol at batrwm byw mwy arferol dros y misoedd nesaf gobeithio.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Edrych ar y posibiliad o ddatblygu gwobrau i glybiau chwaraeon sy'n gwneud ymdrechion penodol i ddarparu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y sir |

Yn hytrach na chreu gwobr newydd yn benodol ar gyfer ymdrechion i ddarparu'n Gymraeg, penderfynwyd cynnwys yr elfen hon yn un o wobrau presennol y gwobrau, sef Clwb Cymunedol y Flwyddyn. Mae angen ystyried sut i dynnu sylw at yr elfen o weithredu i hyrwyddo'r Gymraeg yng ngwobrau'r dyfodol.

| **Nod** |
|---|
| Bod y cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw brosiectau neu wasanaethau i'w gweithredu o fewn Sir Gâr. |

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Parhau i bwyso ar y Cyrff Llywodraethu chwaraeon i ddarparu deunyddiau a hyfforddiant i hyfforddwyr yn ddwyieithog |

Wedi adnabod bwlch yn narpariaeth corff llywodraethu Seiclo Cymru a Phrydain, aed ati i gydweithi gyda nhw i greu adnoddau Cymraeg newydd. Roedd 'Ready, set Ride' yn adnodd newydd i ddysgu plant bach i reidio beic. Gweithiwyd dros gyfnod o flwyddyn gyda'r cyrff llywodraethu i gyfieithu ac ail-ddylunio'r cardiau lliwgar ac fe gyflwynwyd yr adnodd newydd, yn ddwyieithog, mewn hyfforddiant i staff ysgolion sir Gâr yng Nghanolfan hamdden Llanelli ar ddiwedd Chwefror 2020, gydag 11 o'r 19 ysgol oedd yn bresennol yn bwriadu defnyddio'r

adnodd yn Gymraeg. Roedd bwriad i lansio'r adnodd yn ystod y Ras Feicio oedd yn dod i'r sir yn ystod 2020, ond oedwyd y cynlluniau gan COVID-19 a'r cyfnodau clo.
Mi fydd yna gyfle i ail gydio yn hyn fel rhan o ras Taith Prydain i ferched sy'n ymweld a'r sir ar y 10fed o Fehefin 2022.

| **Nod** |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn datblygu darpariaeth y theatrau i gynyddu'r nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynigir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog |

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Datblygu trafodaethau am gyd-gynhyrchu cynyrchiadau Cymraeg apelgar, gyda'r Theatr Genedlaethol, y theatrau ieuenctid Cymraeg a dwyieithog, ac eraill |
| Datblygu darpariaeth y Sir o fewn y theatrau i bobl ifanc yn ddwyieithog |
| Datblygu cysylltiadau rhwng ein theatrau a chwmnïoedd drama Cymraeg |
| Archwilio i'r posibiliad o gael cyllid grant i gyflogi hwylusydd i arwain ar sbarduno cwmnïoedd drama lleol Cymraeg |

**Gwasanaeth Theatrau Cyngor Sir Gâr**

Gwnaed cryn waith i wella arlwy Theatrau Sir Gâr o ran cynyrchiadau Cymraeg. Llwyddwyd i gynyddu nifer y cynyrchiadau ac i werthu tocynnau a gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod cyfnod y strategaeth hwn.

| | Nifer y cynyrchiadau cyfrwng Cymraeg | Nifer y tocynnau a werthwyd |
|---|---|---|
| 2017-18 | 18 | 2726 |
| 2018-19 | 32 | 8761 |
| 2019-20 | 42 | 100,600 |

Mae'r berthynas rhwng ThGC wedi datblygu dros gyfnod y strategaeth hwn. Nid yw'n addas i gyd-cynhyrchu gan eu bod yn hunan-gynhaliol, ond mae'r Theatr Genedlaethol yn dod gyda'u holl berfformiadau i sir Gâr erbyn hyn. Cafwyd nifer o agoriadau yn ein theatrau gan gynnwys 'Estron' yn Theatr y Glowyr, Rhydaman, a'r 'Cylch sialc' a 'Llygoden yr eira' yn y Ffwrnes. Gan eu bod yn cynnal ymarferiadau technegol a gwisgoedd yn arwain at y sioe agoriadol, mae hyn yn rhoi cyfle i staff ein theatrau ymgyfarwyddo â'r gwaith cyfrwng Cymraeg a chydweithio gyda staff trwy gyfrwng y Gymraeg.

Datblygwyd partneriaethau newydd gyda chwmnïoedd drama Cymreig, gyda golwg ar raglenni i'r dyfodol a denu cwmnïoedd newydd, e.e Powderhouse Theatre, OPRA Cymru, Theatr Bara Caws, Adverse Camber, Invertigo, Dafydd Gwylon/Owen Shiers, Cwmni Pendraw, Cwmni Pluen, The Other Room, Cwmni Martyn Geraint.

Mewn ymateb i sefyllfa argyfyngus y theatrau yn ystod 2020-21, sefydlodd Theatrau sir Gâr gyfres o gigiau cerddoriaeth cyfoed Cymraeg ar lein. Brandiwyd y sesiynau yn 'Yn Fyw o'r Ffwrnes' a defnyddiwyd cyfarpar sain a goleuo proffesiynol i greu digwyddiad cerddorol digidol Cymraeg o'r safon uchaf. Roedd y sesiynau'n cael eu gwylio yng nghartrefi trigolion yn sir Gâr ac yn codi ymwybyddiaeth a statws cerddoriaeth Cymraeg ymysg cynulleidfa ifanc gan gyrraedd dros deg mil o wylwyr.

| | Yn Fyw o'r Ffwrnes | Gwylwyr Youtube | Gwylwyr Facebook | Holl wylwyr |
|---|---|---|---|---|
| 4/12/2020 | Alfa | 189 | 3566 | 3755 |
| 18/12/2020 | Gwilym | 423 | 2894 | 3317 |
| 22/1/2021 | Mellt | 265 | 944 | 1209 |
| 5/2/2021 | Eädyth | 76 | 1920 | 1996 |
| Holl ddigwyddiadau | | 953 | 9324 | 10,277 |

Cafwyd grant ymchwil a datblygu yn ystod y cyfnod clo i greu cynhyrchiad newydd cyfrwng Cymraeg. Crëwyd comedi newydd o'r enw 'Golygfeydd o'r Pla Du' sy'n gomedi ddychan ar COVID-19 gan Chris Harries. Mae cais wedi ei gyflwyno bellach ar gyfer cyllid i greu cynhyrchiad llawn a thaith.

Wrth i'r theatrau adfer eu cynulleidfaoedd yn raddol, mae ffocws Theatrau sir Gâr yn dal i fod ar ddarparu gymaint o arlwy Cymraeg ag y bo'n bosib. Er nad ydy'r cwmnïoedd drama llai, sydd yn gweithredu heb gyllid refeniw, wedi dod yn ôl i weithredu eto, mae Theatrau sir Gâr yn cydweithio gyda Na Nog, Y Fran wen a'r Theatr Genedlaethol yn ystod 2022 i gynnal cynyrchiadau Cymraeg ac amlieithog yn ein theatrau. I'r dyfodol, bydd rhaid ystyried na fydd y ffigurau hyn yn dal i godi'n gyson yn syth gan fod gwerthiant digwyddiadau wedi gostwng gymaint yn ystod Covid-19 a thrafferthion costau byw yn cael ei effaith. Fodd bynnag, bydd ymdrechion yn parhâi i gynnig gymaint o arlwy Cymraeg ag sy'n bosib. Mae darparu'n Gymraeg yn ganolog i strategaeth yr adran ac fe fyddwn yn gwneud ymdrechion sylweddol i ddenu cynulleidfaoedd yn ôl.

## Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Gâr

| **Nod** |
|---|
| Datblygu medredd a hyder trigolion ifanc y sir yn y Gymraeg, er mwyn iddynt gael y cyfleoedd gorau posib i ddatblygu'n unigolion dwyieithog gydag ymdeimlad gadarn o hunaniaeth Gymraeg ac o werth aml-ddiwylliant. |

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o fewn y tîm Ieuenctid a fydd yn anelu at symud lleoliadau ieuenctid y gwasanaethau oll ar hyd y continwwm iaith. Bydd hyn yn amrywio yn ôl yr angen; cyflwyno elfennau o ymwybyddiaeth iaith ac ymdeimlad o hunaniaeth |

| |
|---|
| Gymreig mewn gwasanaethau cyfrwng Saesneg a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ragweithiol i siaradwyr Cymraeg ifanc. |

Ffurfiwyd tasglu, a bu'n cyfarfod yn rheolaidd am gyfnod, gyda phenderfyniadau i ganoli sylw cychwynnol yn ardal Llanelli. Yna, wedi newidiadau staffio, fe edwinodd y dasglu yn raddol. Drachefn, cymerwyd y cyfrifoldeb am symud y gwasanaeth ieuenctid ar hyd y Continwwm iaith gan y Tîm Rheoli yn hytrach na thasglu. Edrychwyd o'r newydd ar lefelau iaith swyddi gwag neu newydd i gryfhau'r lefelau sgiliau iaith gofynnol yn unol â'r Strategaeth Sgiliau'r Cyngor. Anogwyd staff sydd angen cefnogaeth i wella eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg i gychwyn cwrs priodol / addas i wella eu sgiliau. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ar-lein yn ogystal â chyrsiau a gyflwynir trwy'r Cyngor Sir. Roedd yna 20 aelodau staff sy'n mynychu cyrsiau iaith Cymraeg yn ystod 2018. Ar yr un cyfnod, roedd 27 aelod o staff allan o 66 yn gwbl ddwyieithog a 20 arall yn dysgu ac roedd staff ar gael ym mhob elfen o'n gwaith sy'n gallu darparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg i'n pobl ifanc.

O ran yr elfennau o'n darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n ystyried eu hunain yn ddi-gymraeg, bu pwyslais o'r newydd ar geisio sicrhau bod rhai o'r gweithgareddau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn gysylltiedig â diwylliant a hunaniaeth ddiwylliannol. Enghraifft o hyn yw'r Prosiect 'Treftadaeth Heb ei Garu' a gyflwynwyd gan yr GCI ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed; cynrychiolwyr Cyngor Tref Llanelli a Gefeillio Tref. Mae'r prosiect wedi cychwyn ar y trydydd cam ac wedi helpu pobl ifanc o Lanelli i ddeall hanes cyfoethog eu tref.

Yn ogystal, bu plant a phobl ifanc, sy'n cael eu hystyried mewn peryg o fod yn NEET, yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol 2018, fel rhan o weithgareddau GCI. Mae rhai clybiau ieuenctid ardal Llanelli bellach yn cael eu rhedeg yn ddwyieithog gyda staff yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, yng Nglan-y-môr er enghraifft yn gwau elfennau o ymwybyddiaeth iaith i mewn i'r ddarpariaeth yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth 'outreach' yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae 3 clwb ieuenctid yn cael ei ariannu i redeg yn Gymraeg.

Ail-sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o fewn yr adran ieuenctid yn gynnar yn 2020 i nodi camau i hyrwyddo hunaniaeth ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yn ogystal â darparu gwasanaethau cyfrwng iaith Gymraeg i siaradwyr Cymraeg. Y bwriad oedd i fwydo ffrwyth gwaith y grŵp hwn i mewn i gynllun busnes y Gwasanaeth a'r gyfadran, a'i gynnwys o fewn systemau mesur ac adrodd y Cyngor.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sefydlu Arweinwyr Iaith o fewn yr adran a fydd yn gweithredu i gynyddu capasiti mewnol i gynnig y cyfleoedd gorau i bobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn eu ymwneud gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid |

Er bod yna arweinwyr iaith naturiol i gael o fewn ein hunedau ac yn yr arweinyddiaeth yn ogystal, nid ydym eto wedi sefydlu Arweinwyr Iaith swyddogol. Mae'r gwaith o'u hadnabod

a'u hyfforddi ar y gweill.  Ystyriwn hyn nawr yn flaenoriaeth ar gyfer y cam nesaf yn siwrnai ieithyddol y gwasanaeth.

Yn dilyn gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen uchod, byddwn yn adnabod ac yn ymgysylltu ag aelodau staff a fydd yn gallu ymgymryd â rôl arweinydd iaith ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.  Byddwn yn hyfforddi'r staff i fod yn Arweinwyr Iaith ac fe fyddant yn ymgysylltu â Grŵp Rheoli'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid i gynyddu'r gallu i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc siarad Cymraeg a datblygu eu sgiliau iaith Cymraeg, gwerthfawrogi diwylliant a hunaniaeth Cymru.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Cydweithio gyda'r sector wirfoddol i sicrhau darpariaeth gyson cyfrwng Cymraeg ar draws y sir o ran clybiau ieuenctid. |

Er nad oes bri mawr i glybiau ieuenctid fel y cyfryw ar hyn o bryd ymysg bobl ifanc, mae'r GCI yn darparu cyllid i'r Urdd ar gyfer darparu clybiau ieuenctid cyfrwng Cymru yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman.  Yn ychwanegol at hyn, mae gan glybiau ieuenctid eraill a gynhelir gan y Cyngor Sir staff sy'n gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i bobl ifanc. Bydd y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn cwrdd yn rheolaidd â'r Urdd o dan CLG presennol mewn perthynas â darpariaeth clwb ieuenctid yn y sir.

Rydym yn cryfhau'r berthynas bresennol â Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin, i adnabod sut y gall y GCI gefnogi gwaith y Clybiau Ffermwyr Ieuenctid.  Byddwn yn cryfhau cysylltiadau â'r Mentrau Iaith er mwyn gwella gweithio mewn partneriaeth a chyflawni prosiectau.  O ran ein clybiau ieuenctid, byddwn yn cynnal awdit o faint o Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio yn barod, a chreu targedau clir i ddatblygu'r sefyllfa.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Sicrhau bod pobl ifanc y sir yn cael cyfleoedd i gael llais ar faterion sydd o bwys iddynt, a hynny yn eu dewis iaith |

Mae Fforwm ieuenctid y sir wedi esblygu darpariaeth ddwyieithog yn gynyddol yn ei gweithgareddau a gwelwn hyn e.e. yn y Cyfarfod Blynyddol ac yn y Gynhadledd flynyddol. Swyddog newydd cyfranogiad yn meddu ar sgiliau iaith uchel – 2/3 o'r tîm bychan hwn yn rhugl.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Cefnogi datblygiadau'r Siarter Iaith o fewn yr ysgolion |

Fe fydd cyfarfod yn cael ei gynnal gydag Arweinydd y Siarter Iaith er mwyn sefydlu sut y gall y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid gefnogi'r gwaith hwn. Gellir bwydo gweithredoedd sy'n dod i'r amlwg i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

# Gweithleoedd

| Nod |
|---|
| Ymdrechu i gynyddu sgiliau Cymraeg yn y gweithle |

| Cam gweithredu |
|---|
| Y 6 chorff i gydweithio'n agos gyda'r Ganolfan Gymraeg Genedlaethol er mwyn datblygu a hyrwyddo ystod y gyfleoedd i staff i ddysgu a gwella sgiliau |

Gweler adroddiad Amcan 1 (tud 26-8)

| Cam gweithredu |
|---|
| Cydweithio gyda sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhannu adnoddau a chyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau yn y Gymraeg |

Ni weithredwyd ar y cam gweithredu yma

| Cam gweithredu |
|---|
| Y Cyngor sir i ailedrych ar ein Polisi Defnydd Mewnol ac ar y posibiliad o ganfod gwaelodlin ar ddefnydd y Gymraeg yn fewnol a sefydlu targedau i'w gynyddu yn y dyfodol |

Tua diwedd cyfnod y Strategaeth hon, mae'r Cyngor wedi cychwyn o ddifri ar y gwaith o symud tuag at weinyddu'n Gymraeg gyda'r Adran Addysg. Mae gwaith paratoadol wedi ei wneud, a thrafodaethau a phartneriaethau wedi cael eu ffurfio. Fe fydd modd defnyddio'r gwaith hwn fel arbrawf arloesol a lledaenu'r gwersi a ddysgir ohoni yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf er mwyn i gyrff eraill symud i'r un cyfeiriad.

| Cam gweithredu |
|---|
| Y 5 sefydliad arall i edrych ar ymgyrch debyg i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle |

Ni weithredwyd ar y cam gweithredu yma

| Nod |
|---|
| Gwneud ymdrechion i annog staff i ddefnyddio Cymraeg fel cyfrwng naturiol i'w gwaith pob dydd |

Gweler adroddiad strategaeth Amcan 2 (tud 52)

| Cam gweithredu |
|---|
| Y Cyngor i barhau i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau o Arweinwyr Iaith i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ymysg cydweithwyr |

Gweler adroddiad strategaeth Amcan 2 (tud 52)

| Cam gweithredu |
|---|
| Y 5 sefydliad arall i ystyried gweithredu system debyg neu i barhau i wneud |

Ni weithredwyd ar y cam gweithredu yma

| Cam gweithredu |
| --- |
| Y Cyngor i barhau i ddatblygu a chefnogi Mentoriaid i bontio rhwng gwersi Cymraeg ffurfiol ein dysgwyr a'r gweithle |

Mae pob dysgwr o fewn y Cyngor Sir yn cael cynnig mentor yn y gweithle i roi cymorth iddynt gyda'u Cymraeg. Mae'r mentoriaid yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithio gyda dysgwyr, i roi cyfle i'r dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg er mwyn atgyfnerthu'r dysgu yn y dosbarth. Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, comisiynwyd pecyn i roi cymorth i fentoriaid i gynnal sesiynau anffurfiol yn y gweithle ac er fod y sesiynau erbyn hyn bron yn ddi-eithriad yn digwydd ar lein, mae'r adnodd yn dal i fod o ddefnydd. Ers y pandemig, mae sianel ar Teams wedi cael ei greu ar gyfer mentoriaid y Cyngor. Yma mae adnoddau defnyddiol yn cael eu cadw yn y sianel ac mae cyfle i fentoriaid rannu syniadau a phrofiadau gyda'i gilydd yn ogystal.

### 2.1.3 Cynyddu hyder a defnydd: y fframwaith traweffaith

| **Amcan Strategol 2**<br><br>**Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg** ym mhob agwedd o fywyd, ac **annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gynyddol yn gyfrwng naturiol eu gwasanaethau** | | | |
|---|---|---|---|
| Dangosydd Deilliant | Mesuriad | Mesuriad Technegol | Ffynhonnell |
| **5**<br><br>**Mwy o bobl yn hyderus gyda defnyddio eu Cymraeg (ym mhob agwedd o fywyd)** | 5.1 Canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n hyderus yn siarad Cymraeg | Canran y plant sy'n nodi 'Dwi'n hyderus wrth siarad Cymraeg' yn holiadur Gwe Iaith y Siarter Iaith | Data holiadur Siarter Iaith ysgolion Sir Gâr |
| | 5.2 Canran plant a phobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg | Canran y plant 4-11 yn y categori 'Fluent in Welsh' data CYBLD ysgolion cynradd Sir Gâr | Data CYBLD Cyngor Sir Gâr |
| | | Canran y plant 11-16 yn y categori 'Fluent in Welsh' yn ôl data CYBLD ysgolion uwchradd Sir Gâr | Data CYBLD Cyngor Sir Gâr |
| | | Canran y disgyblion 16-18 yn y categori 'Fluent in Welsh' yn ôl data CYBLD ysgolion uwchradd Sir Gâr | Data CYBLD Cyngor Sir Gâr |
| | | Nifer a chanran myfyrwyr 16+ Coleg Sir Gâr sy'n datgan wrth gofrestru eu bod yn 'Siaradwr Cymraeg Rhugl' | Data Coleg Sir Gâr |
| | 5.3 Canran pobl sy'n dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg | Canran y bobl sy'n dweud mewn ymateb i gwestiynau yn Arolygon Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru (ar gyfer pawb tair oed a throsodd) 'Rwy'n rhugl yn Gymraeg' | https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg |
| | 5.4 Canran staff cyflogwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg | Canran staff y Cyngor Sir a chyflogwyr eraill sydd yn rhugl yn y Gymraeg | Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Cyngor Sir Gâr<br>Adroddiad blynyddol ar y Safonau Coleg y Drindod a Choleg Sir Gâr (fesul campws)<br>Adroddiad Blynyddol Y Safonau Hywel Dda (fesul adeilad o fewn y sir?)<br>Adroddiad Blynyddol y Safonau Heddlu Dyfed Powys<br>Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Tân (fesul sir?) |
| **6** | 6.1 Canran y disgyblion cynradd | Canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n ateb 'Dwi'n siarad | Data holiadur Siarter Iaith ysgolion Sir Gâr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan drigolion Sir Gâr** | ac uwchradd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn tu allan i'r ysgol | Cymraeg tu allan i'r ysgol' yn holiadur Gwe Iaith y Siarter Iaith | |
| | 6.2a Y nifer sy'n ymgysylltu gyda'r Gymraeg o ganlyniad i weithgarwch y cyrff sy'n derbyn grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol | Nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau torfol ac yn defnyddio adnoddau digidol Cymraeg y Mentrau, yr Urdd a'r Ffermwyr ifanc. | Data a ddarperir gan y Mentrau*, yr Urdd* a'r Ffermwyr Ifanc<br><br>*Fformiwlâu wedi eu pennu |
| | 6.2b Y nifer o oriau o ddefnydd o'r Gymraeg o ganlyniad i weithgarwch y cyrff sy'n derbyn grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol | Nifer o oriau o ddefnydd o'r Gymraeg o ganlyniad i weithgarwch rhyngweithiol a drefnir gan y Mentrau, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc (nifer o oriau x nifer o fynychwyr) | Data a ddarperir gan y Mentrau*, yr Urdd* a'r Ffermwyr Ifanc<br><br>Fformiwlâu wedi eu pennu |
| | 6.3 Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg pob dydd | Canran y bobl (16 a throsodd) yn Sir Gar sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg pob dydd mewn ymateb i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, yn wythnosol, yn llai aml, neu byth? | https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg |
| | 6.4 Canran staff cyflogwyr y sir sy'n defnyddio Cymraeg yn y gwaith | Diffiniad i'w bennu gyda chyflogwyr | Ffynhonnell i'w bennu |
| **7**<br><br>**Mwy o sefydliadau'r sir sy'n darparu eu gwasanaethau'n naturiol trwy'r Gymraeg** | 7.1 Nifer y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau'n llawn yn y Gymraeg | Nifer y sefydliadau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.<br>Canran staff y gweithle sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. | Ffynhonnell i'w bennu |
| | 7.2 Nifer o fusnesau preifat y sir sy'n hyrwyddo'r Gymraeg | | |

## *Amcan 3 : Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth: Gwneud ein cymunedau'n ddeniadol o safbwynt economaidd, addysgol, a chymdeithasol*

**3.1.1 Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth.**
**I ba raddau yr ydym wedi dilyn ein Strategaeth hybu?**

Mae llawer o'r gwaith a wnaed yn ystod y pum mlynedd diwethaf o dan yr amcan hwn yn cael ei adrodd mewn mannau arall yn yr adroddiad hwn. Ceir yr holl waith sy'n cael ei wneud i gynnal cymunedau bywiog Cymraeg gan y Mentrau, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc er enghraifft. Mae cynnal gweithgarwch cymunedol a darpariaeth Gymraeg i blant yn chwarae rôl bwysig mewn gwneud y sir yn apelgar i deuluoedd ifanc Cymraeg. Ar ben hynny, mae denu cyllid i'r mudiadau Cymraeg hyn wedi creu swyddi Cymraeg. Yn yr un modd, mae darparu gofal plant Cymraeg safonol a chyson yn hanfodol hefyd wrth ddenu teuluoedd Cymraeg eu hiaith i ymsefydlu yn y sir.

Mae'n rhaid nodi fod llawer o'r gwaith yn waith sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar symudiadau poblogaeth ac yn waith sy'n anodd iawn mesur ei effaith ar symudiadau poblogaeth. Gallwn, er enghraifft nodi fod gwaith datblygu economaidd Dinas Rhanbarth Abertawe yn gwneud y sir yn fwy deniadol i bobl ifanc ond nid oes modd profi hyn. Yn yr un modd, gellid tybio fod colli llawer o siopau canol y dref yng Nghaerfyrddin er enghraifft, yn gwneud y sir yn llai deniadol, ond eto, nid oes modd profi hyn. Mae Sir Gaerfyrddin wedi dod yn gartref i S4C, Y Theatr Genedlaethol, y Coleg Cymraeg a'r Ganolfan Ddysgu Cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf ac, er na symudwyd yr holl swyddi o'r cyrff i Gaerfyrddin, ac er fod y pandemig wedi agor y drysau i weithio o unrhyw le, mae'r lleoli pencadlysoedd y cyrff Cymraeg yma wedi creu swyddi o bobl ifanc lleol, heb os.

Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth hwn, nodir mai cael gafael ar bobl ifanc i geisio am swyddi o fewn y sir yw'r drafferth, yn hytrach na diffyg swyddi Cymraeg i bobl ifanc. Ceir ymdrechion clodwiw unigol gan sefydliadau fel y mentrau a Choleg Sir Gâr. Sefydlodd Coleg Sir Gâr, Cwrs Cwta, sef 6 wythnos o sesiynau ar gyfer dysgu ymwybyddiaeth iaith o fewn cyrsiau amrywiol, a cafwyd prosiectau fel taith i grŵp o fyfyrwyr busnes i weithle Cymraeg, sy'n defnyddio sgiliau Cymraeg ei staff, i ddwyn perswâd ar bobl ifanc o werth eu sgiliau Cymraeg ar gyfer cyflogadwyedd. Mae potensial i wneud mwy o waith yn y maes hwn.

O ran gwaith penodol i gymathu mewnfudwyr i'r cymunedau Cymraeg, gwnaed gwaith pwysig yn creu Pecyn Croeso deniadol a chyfredol i gyflwyno'r Gymraeg i bobl sy'n symud i mewn i'n cymunedau. Cydlynodd y Cyngor y gwaith o greu'r pecyn gan ymgynghori gyda'r Fforwm a'r holl gyrff ar y Fforwm, ac fe ddyluniodd ac argraffodd y Cyngor y pecyn yn 2019. Denodd y llyfryn sylw cynghorau eraill ac fe rhoddwyd ganiatâd i Gyngor Sir Fôn i'w addasu i'w dibenion nhw.

Gwaned llawer o waith i geisio trefnu dosbarthiad ystyrlon o'r llyfryn, ond siomedig fu'r ymateb ar y cyfan. Anfonwyd un llyfryn i bob cyngor cymuned a thref er enghraifft, gan ofyn iddynt nodi a fyddair cynghorau'n medru dosbarthu'r pecyn yn yr ardal, ond ni chaed ymateb gan un o'r cynghorau hynny. Roedd prosiect ar y gweill gyda phrosiect Helo Blod i'w dosbarthu i feddygfeydd yn ogystal, ond ni ddaeth y prosiect hwnnw i fwcl. Mae diffyg

capasiti wedi atal dilyniant y gwaith hwn ers yr ymdrech gychwynnol, a chyda thueddiadau newydd i beidio ag argraffu, mae angen edrych ar ffyrdd electroneg newydd o'i ddosbarthu. Ni chynhigiwyd 'cyrsiau Ymwybyddiaeth iaith cymunedol mewn ardaloedd ble mae niferoedd uchel o fewnfudwyr' chwaith fel a nodwyd yn y Strategaeth. Os ydy hyn am ddigwydd, bydd angen adnabod corff arweiniol a'i flaenoriaethu yn y cyfnod nesaf.

Bydd ffigurau'r cyfrifiad, maes o law, yn rhoi gwybod i ni a oes llai o bobl ifanc yn symud allan o'r sir, ond ni fyddwn wedyn yn gwybod a oes rhai o'n siaradwyr Cymraeg ifanc yn symud yn ôl i'r ardal ar ôl cyfnod i ffwrdd. Ond, er gwaetha mor anodd i'w mesur effaith yr amcan yma. adnabuwyd rhai meysydd gwaith y gallwn ddylanwadu arnynt i geisio creu amgylchiadau sy'n galluogi pobl leol i ymgartrefu yma, ac fe gaiff y gwaith hwn ei adrodd yn y Cynllun Gweithredu, isod. Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd yn y maes o sicrhau tai fforddiadwy a lleihau'r nifer o dai gwag yn y sir a hyn oll yn creu amodau ffafriol i deuluoedd lleol i ymsefydlu yn y sir. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn a'r gwybodaeth sydd ar gael ar symudoledd ein trigolion yn ddiffygiol. Gwnaed gwaith pwrpasol i ganfod effaith adeiladu ystadau newydd ar y Gymraeg, ond gan ei fod wedi ei gyfyngu i symudiadau i mewn i'r datblygiadau hynny heb ystyried yr effaith ar y cymunedau roedd y perchnogion newydd yn symud ohonynt, roedd yn anodd cael darlun gyflawn o effaith ieithyddol. Mae cynnal ymchwil o'r fath yn ddi-ben-draw a dweud y gwir ac mae'n anodd gweld sut y gallwn gasglu'r wybodaeth sydd ei angen i ddylanwadu ymhellach ar bolisïau cynllunio a pholisïau tai ar hyn o bryd. Efallai y byddai mwy o arweiniad o du'r Llywodraeth ar Gymunedau Cymraeg yn cynnig argymhellion cadarnhaol.

O safbwynt y maes cynllunio a gwaith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, gwnaed cynnydd sylweddol wrth integreiddio cynllunio ieithyddol i mewn i gynllunio defnydd tir.
Fel rhan o waith yr Arfarniad cynaliadwyedd, aseswyd effaith ieithyddol yr holl opsiynau Strategol. Yna, comisiynwyd creu methodoleg newydd ar gyfer mesur effaith ieithyddol ac fe'i gweithredwyd ar y Strategaeth a ffefrir a'r Cynllun Adneuo, gan gynnwys y Strategaeth Twf a'r Strategaeth Gofodol. Sicrhawyd hefyd fod y Cynllun Adneuo yn cydnabod y dylid ystyried y sir gyfan yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau'r defnydd orau o'r fethodoleg newydd a'i ddefnyddio i asesi'n ieithyddol camau eraill o broses y CDLL. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLL, bydd angen sicrhau asesiadau ieithyddol addas o geisiadau cynllunio unigol gan ddefnyddio'r fethodoleg fwyaf effeithiol. Mae angen datblygu Canllaw cynllunio atodol, y ogystal, a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth a chanllawiau i ddatblygwyr ar sut i sicrhau effaith ieithyddol cadarnhaol wrth ddatblygu tir. Bydd gan y Fforwm rôl bwysig yn cynorthwyo datblygiad y Canllaw hwn.

Efallai y maes mwyaf pwysig ar gyfer dylanwadu ar symudoledd ein trigolion yw'r maes datblygu economaidd. Roedd awydd i ddatblygu gwaith adfywio economi law yn llaw â gwaith i ddiogelu'r Gymraeg yn ffocws clir yn y Strategaeth ond roedd ansicrwydd ar sut i weithredu'r weledigaeth. Er y gwnaed llawer o waith cadarnhaol yn y maes, fel adroddir o dan y cynllun gweithredu ar dudalennau 82-92, mae'n wir dweud fod yna waith i'w wneud o hyd i sicrhau fod rhaglenni adfywio'r sir yn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol posib ar nifer y siaradwyr a defnydd y Gymraeg, a bod annog ffyniant y Gymraeg yn dod yn ystyriaeth ganolog i holl brosiectau adfywio'r sir.

Gweithredwyd polisïau cadarn o safbwynt gosod y Gymraeg fel amod yn y rhaglenni grant y mae'r Cyngor wedi bod yn gweinyddu, ac fe gafodd hwn effaith gadarnhaol ar ddefnydd Cymraeg gan y cyrff sydd wedi bod yn derbyn grantiau drwy'r rhaglenni. Gwnaed defnydd o Ddeddf Cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal, yn y maes hwn i sicrhau gweithredu cadarnhaol i warchod y Gymraeg drwy gyrff sy'n gweithredu ar ran y Cyngor drwy systemau caffael. Mae potensial i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach fodd bynnag drwy ganfod ffyrdd mwy uchelgeisiol o sbarduno effeithiau cadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg drwy raglenni grantiau a thrwy fonitro llwyddiant y prosiectau o ran hyn.

Cafwyd arweiniad cadarn hefyd yn y gwaith trylwyr a'r adroddiad pellgyrhaeddol ar adfywio ein cymunedau gwledig yn Medi 2019, yn <u>Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen</u>. Roedd datblygu a chaniatáu i'r Gymraeg ffynnu yn un o'r 7 egwyddor gyffredin ac yn wir roedd holl ystyriaethau'r adroddiad yn fwriadol yn atgyfnerthu'r seilwaith cymunedol gwledig a fyddai'n caniatáu ffyniant yr iaith law yn llaw â'r economi ac yn argymell creu sefyllfa economaidd gref oedd, ar yr un pryd, yn cynnal cymunedau gwledig hyfyw, Cymraeg. Yna, sefydlwyd prosiect y 'Deg Tref' gyda'r bwriad o greu cymunedau bywiog ac economaidd gyffroes a fyddai, yn ei dro'n denu pobl i aros a dychwelyd i'w cymunedau. Fodd bynnag, collwyd ar gyfleoedd i fod yn ddigon penodol wrth adlewyrchu'r weledigaeth hon yng ngweithrediad y prosiectau ar y dechrau. Gallai'r Gymraeg wedi cael lle amlycach yng ngweithdrefnau'r prosiect yn y cychwyn. Gyda'r defnydd o asiantaethau allanol a phwysedd terfynau amser a chyllid, ni chymerwyd yr amser i greu fframwaith ariannu newydd a fyddai'n rhoi lle canolog i'r Gymraeg. Gwnaed camau pwysig yn dilyn y sefyllfa hon o benodi staff â sgiliau Cymraeg i arwain y prosiectau a chynnwys mentrau iaith ar y byrddau lleol, ond mae angen gweithio'n galed i geisio sicrhau datblygu prosiectau lle mae ffyniant y Gymraeg yn un o ganlyniadau uniongyrchol y prosiectau a gaiff eu hariannu o dan raglen y Deg Tref. Gwelir hefyd bod angen mwy o gymorth ar y mentrau i ddylanwadu'n effeithiol o safbwynt y Gymraeg ar y byrddau gan nad ydy'r seilwaith yn gosod hyrwyddo'r Gymraeg yn ddigon penodol i arwain y byrddau i ystyried y Gymraeg mewn modd cynhwysfawr wrth bennu prosiectau cymunedol.

Mewn rhai achosion, mae camau breision wedi eu cyflawni yn y maes datblygu economaidd o fewn y sir a gwedd llawer mwy gadarnhaol i'r Gymraeg o fewn amrywiaeth o brosiectau o ganlyniad. Gan ddechrau gyda phrosiectau'r Fargen Ddinesig ar ddechrau cyfnod y strategaeth, a chryfhau'r ymdrechion yn flynyddol nes y gwaith cyfredol gyda datblygiadau Pentre Awel, mae'r Cyngor Sir wedi gweithio'n galed i sicrhau lle canolog i'r Gymraeg wrth arwain ar a symbylu datblygu economaidd. Ceir enghreifftiau yn yr adroddiad ar y Cynllun Gweithredu o ymdrechion o'r newydd i ddylanwadu ar fusnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd ymdrechion i brif-ffrydio'r Gymraeg yn y datblygiadau economaidd mwyaf yn y sir. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn nid yn unig yn parhau o du'r Cyngor, ond bod cyrff eraill sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn genedlaethol ac yn sirol yn manteisio ar y cyfleoedd i fod yn rhan o ddatblygiadau mewn meysydd amrywiol a ddaw o ddatblygiadau fel Pentre Awel.

Yn olaf, dylid nodi fod gwaith yn dal i'w wneud i sicrhau fod prosesau ariannu'r sir ( a arweinir ar y cyfan gan y Cyngor sir) yn adlewyrchu'r awydd i sicrhau ffyniant y Gymraeg sy'n fwyfwy amlwg ym mholisïau a strategaethau'r Cyngor. Mae angen gwaith trylwyr i sicrhau bod dwyieithrwydd ein sir yn cael ei adlewyrchu mewn prosiectau a ddaw o du'r llywodraeth

Brydeinig i'r dyfodol yn ogystal. Ni ellir cyflawni'r gwaith yma i'w mawn botensial heb ymrwymiad sefydliadau partner y Cyngor i'r Gymraeg.

**3.1.2.Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth**
**I Ba raddau rydyn ni wedi dilyn ein Cynllun Gweithredu?**

**Polisïau Tai**

| Nod |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn ymdrechu i ganfod ac i ddiweddaru darlun cywir o anghenion tai'r sir fel nad ydy'r ffigurau'n rhoi'r argraff bod angen mwy o dai na sydd mewn gwirionedd. |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Chwynnu'r rhestr aros am dai yn rheolaidd fel bod y ffigwr o bobl sy'n aros am dŷ yn gywir. |

Cwblhawyd y dasg hon yn mis Ionawr 2019, pan y cyflwynwyd dull gosod newydd, wedi ei selio ar ddewis, ar gyfer dyrannu cartrefi. Bellach, mae gennym gwell ddealltwriaeth o'r galw (diddordeb) gwirioneddol yn ein cartrefi fesul eiddo penodol gan fod cwsmeriaid yn mynegi eu diddordeb yn ein cartrefi yn weithredol. Rydym yn adolygu ac yn glanhau'r gofrestr yn rheolaidd, a'r llynedd (2021) fe wnaethom werthusiad o'r system bidio ar *Canfod Cartref* i sefydlu'r gwir alw am fathau o dai ar draws holl wardiau'r Sir ac mae hyn yn ein galluogi i gynllunio a darparu gwell gwasanaethau tai yn yr ardaloedd hynny.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Cynnal ymchwil i anghenion tai ardaloedd gwledig |

Gwaned gwaith ymchwil o ran anghenion gwledig yn ardaloedd Trelech a Chynwyl Gaeo yn 2018 a chynhaliwyd astudiaeth arall o anghenion tai gwledig yn 2021. Nod y gwaith yma oedd galluogi'r Adran Dai i sicrhau bod y ddarpariaeth cartrefi fforddiadwy yn gwneud y pethau cywir yn y mannau cywir mewn ardaloedd gwledig. Mae'r ym ymrwymiad i ddarparu cyfres o opsiynau tai fforddiadwy wedi'i gynnwys yn Chynllun Datblygu Tai ac Adfywio a gyhoeddwyd yn ddiweddar sydd hefyd yn talu sylw arbennig i'r rhaglen Y Deg Tref.

| Nod |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn parhau gyda'r ymdrechion i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yn y sir er mwyn i bobl ifanc fedru ymsefydlu yma |

| Cam gweithredu |
|---|
| Parhau i weithredu ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy yn seiliedig ar Nod 2015/16-2020/21 |

Yn 2018, roeddwn yn ein trydedd flwyddyn o gyflwyno'r Cynllun Cartrefi Fforddiadwy ac wedi darparu 500 o gartrefi ychwanegol eisoes, ar ein ffordd i'n targed o 1,000 o gartrefi. Rhagorwyd ar y targed a osodwyd yn y Cynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy ar gyfer nifer yr eiddo a ddarparwyd ar draws y Sir sydd wedi'u gosod yn unol â'n Polisi Gosod Tai. Mae'r Polisi yn rhoi sylw arbennig i ddyrannu tai i bobl leol sydd â chysylltiad cymunedol, gyda llawer ohonynt yn bobl ifanc o fewn yr ardaloedd gwledig hynny sydd eisiau aros o fewn y cymunedau hynny. Mae hyn wedi'i ddwyn ymlaen fel blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Datblygu Tai ac Adfywio newydd.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Creu cwmni tai newydd o eiddo'r Cyngor a fydd yn ein galluogi i fanteisio ar yr hyblygrwydd o fedru adeiladu tai fforddiadwy yn unol â'r galw. Y gobaith yw y bydd y datblygiad hwn yn symbylu adeiladu yn ôl galw cymunedol yn hytrach nac yn ôl anghenion elw cwmnïoedd adeiladu masnachol |

Sefydlwyd *Cartrefi Croeso*, y Cwmni Tai Lleol yn 2018, i gefnogi'r Cyngor i ddarparu cartrefi fforddiadwy i'w gwerthu a'u rhentu. Nod y cwmni oedd cwrdd ag anghenion a'r galw am dai lleol a phwrpas sefydlu'r cwmni yw darparu tai fforddiadwy ychwanegol gyda'r diffiniad o 'fforddiadwy' yn gysylltiedig gyda'r gallu lleol i dalu, (sy'n amrywio'n sylweddol ar draws y sir).

Erbyn medi 2021, roedd dros 1100 o dai fforddiadwy wedi eu darparu drwy ailddefnyddio cartrefi gwag, drwy sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael i'w gosod drwy asiantaeth gosod tai syml, drwy gynyddu stoc tai'r Cyngor gan brynu tai o'r sector preifat, drwy adeiladu mwy o dai fforddiadwy newydd, a thrwy sicrhau tai fforddiadwy ar gyfer perchentyaeth cost isel ar ddatblygiadau preifat drwy'r system gynllunio.

Erbyn hyn, gyda rheolau benthyca'r Llywodraeth wedi newid a bod bellach mwy o hyblygrwydd ar gael i Awdurdodau lleol i ddarparu tai eu hunain, mae'r cwmni, *Cartrefi croeso* wedi cael ei wneud yn segur, ac mae'r cyngor yn gweithredu'r ddarpariaeth ei hun, gyda'r safleoedd strategol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Tai ac Adfywio.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Parhau i ddatblygu'r gwaith o adeiladu tai fforddiadwy ar dir y Cyngor |

Mae cynlluniau mewn lle i ddatblygu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hyn trwy'r cyngor sir a hefyd y rhaglen SHG gyda'n partneriaid (LCC). Mae hwn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Tai ac Adfywio

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Gweithredu ar ganfyddiadau'r Arolwg anghenion gwledig yn Nhre-lech a Chynwyl Gaeo |

Yn unol â chanfyddiadau'r arolwg anghenion gweledig yn Nhre-lech a Chynwyl Gaeo mae'r ddau safle wedi eu cynnwys yn ei Cynllun Busnes Tai 2022-25 ac hefyd yn y Cynllun Datblygu Tai ac Adfywio.

| Nod |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag o fewn y sir er mwyn eu dychwelyd at ddefnydd lleol. Bydd hyn yn cynyddu argaeledd tai lleol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan osgoi adeiladu o'r newydd a pheryglu sefyllfa ieithyddol bregus cymunedau. |

| Cam gweithredu |
|---|
| Parhau gyda phrosiect 'Tai i Gartrefi', |

Mae'r Cyngor yn ystyried bod buddsoddi mewn eiddo gwag yn arf hanfodol, sy'n galluogi'r Awdurdod Lleol a pherchnogion eiddo gwag i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi buddsoddi dros £2.56m mewn cartrefi gwag ac £1.1m pellach o'r sector preifat. Helpodd hyn i ddychwelyd 160 o unedau llety yn ôl i ddefnydd.

Yn ystod 2017/2018, dychwelwyd 184 o gartrefi yn ôl i ddefnydd trwy ymyrraeth uniongyrchol, sef y trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r eiddo gwag yma hefyd yn darparu mwy o dai fforddiadwy, gan gyflawni 63 ychwanegol yn 2017/18.

| Cam gweithredu |
|---|
| Lansio rhaglen 'Gosod syml', (sy'n cymryd lle 'Troi Tai'n gartrefi') fydd yn annog bobl i osod eu tai  gwag drwy gynllun gosod tai y Cyngor. |

Mae'r rhaglen 'Gosod Syml' yn cynnig ystod o opsiynau y gall landlordiaid preifat eu cymryd. Ar hyn o bryd rydym yn dadansoddi cynnydd ac unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r "cynnig" mewn rhannau penodol o'r Sir. Rydym nawr yn datblygu cynllun busnes cadarn i ehangu a datblygu'r asiantaeth gosod tai cymdeithasol lle gallwn gystadlu â'r farchnad dai leol a chael effaith mewn ardaloedd gwledig.

| Nod |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn ymdrechu i sicrhau fod tai rent ar gael i bobl leol a'u bod yn ymwybodol o'r tai sydd ar gael yn lleol o fewn y sir |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Cofrestr Dewis newydd |

Rydym yn gweithredu'r system Gosod newydd, sydd wedi ei selio ar ddewis. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl yn Sir Gaerfyrddin weld yr holl gartrefi sydd ar gael i'w rhentu a mynegi diddordeb ynddynt. Cynhaliwyd ymgyrch ymwybyddiaeth gynhwysfawr yn ystod Gaeaf 2018 i sicrhau bod y cyhoedd (a gwasanaethau cymorth) yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses newydd. Cynigwyd cymorth a chefnogaeth ychwanegol i ymgeiswyr gymryd rhan.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Ystyried y posibilrwydd o gynnal rhaglen i farchnata'r Cofrestr Dewis newydd mewn papurau bro |

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu a gweithredu gwasanaeth tai rheng flaen newydd a rhan o'r datblygiad fydd marchnata a chyhoeddi'r gofrestr dewis tai a'r system Gosod ar Sail Dewis, Canfod Cartref. Mae hyn yn debygol o olygu mwy o farchnata ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Parhau gyda'r polisi dyrannu sy'n ceisio diwallu anghenion tai pobl lleol yn gyntaf |

Gweler uchod (t.70)

| **Nod** |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn ymdrechu i gael negeseuon am fanteision a chyfleoedd dwyieithrwydd y sir drwy'r rhwydweithiau tai |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Parhau i gydweithio gyda'r Llywodraeth ar greu cynnwys ar gyfer pecyn gwybodaeth ar gyfer Sir Gâr |

Dyluniwyd ac argraffwyd Pecyn croeso newydd ar gyfer y sir yn 2018.

Trefnwyd dosbarthu copïau o'r llyfryn i'r 21 Cynllun Gwarchod, Neuaddau Cymunedol ar ein safleoedd, Canolfan Adnoddau Tenantiaid Pontiets, drwy'r Swyddogion Tai pan fyddant ar ymweliadau gyda thenantiaid, ar lein, mewn digwyddiadau ymgysylltu Tenantiaid, ac yn y cylchgrawn Tenant i Denant.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Ystyried posibiliadau dosbarthu'r pecyn a chydweithio gyda chyrff priodol i ddosbarthu'r pecyn |

Mae angen ailystyried y posibiliadau o ddosbarthu'r Pecyn croeso. Yn unol â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi a ddaw i rym ym mis Gorffennaf 2022, fe fyddwn yn dosbarthu i holl denantiaid y sir ac fe fydd hwn yn gyfle gwych i ddosbarthu'r pecyn croeso.

# Y Broses Gynllunio

Yn 2018, dechreuodd yr Adain Blaengynllunio paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig (2018-2033). Y bwriad oedd i fabwysiadu'r Cynllun yma cyn diwedd 2021. Fodd bynnag, yn Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru targedau newydd i leihau lefelau ffosffad yn afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) ledled Cymru.

Ar hyn o bryd, mae dros 60% o'r cyrff dŵr yng Nghymru yn methu'r targedau llymach, a gofynnir i awdurdodau cynllunio lleol Cymru gymryd mwy o gamau i atal yr amgylchedd rhag dirywio ymhellach. Mae'n golygu bod yn rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer datblygu o fewn dalgylchoedd afonydd ACA - yn enwedig y rhai a fydd yn cynyddu cyfaint neu grynodiad y dŵr gwastraff - brofi bellach na fydd y dyluniad yn cyfrannu at gynyddu lefelau ffosffad.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Ar hyn o bryd mae Afon Teifi ac Afon Cleddau yn methu targedau Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd gan ddatblygiadau yn agos at yr afonydd hyn gapasiti cyfyngedig o bosib i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a rhaid dod o hyd i atebion eraill a fydd yn bodloni'r targedau newydd, naill ai drwy fod yn niwtral o ran ffosffad neu wella lefelau ffosffad.

Mae hyn wrth reswm, wedi peri tipyn o oedi yn y broses ceisiadau cynllunio, ond mae hefyd wedi achosi oedi o ran y broses CDLl wrth i ni ailasesu'r goblygiadau a dileu dyraniadau datblygu mewn dalgylchoedd sensitif i ffosffad.

Ers cyhoeddi'r targedau newydd yn Ionawr 2021, mae materion eraill wedi codi sydd angen ei hystyried o ran ei goblygiadau ac effaith ar y CDLl Diwygiedig. O achos hyn, fe benderfynwyd ym Mawrth 2022 i fynd ati i ailedrych ar fersiwn adneuol y CDLl Diwygiedig a chynhyrchu cynllun adneuol newydd. Bydd amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r ail gynllun adneuol yn cael ei pharatoi yn sgil y Cytundeb Cyflawni a'i chytuno gyda Llywodraeth Cymru cyn ei chyhoeddi.

Mae'r diweddariad isod felly'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn sgil y CDLl Adneuo Diwygiedig. Byddwn yn ailedrych ar bob agwedd o'r CDLl wrth baratoi'r ail gynllun adneuo ond mae elfennau o'r sail tystiolaeth a baratowyd yn ogystal â nifer o'r polisïau a gyhoeddwyd eisoes dal i fod yn berthnasol.

| **Nod** |
|---|
| Sicrhau effaith mwyaf positif posib y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar y Gymraeg, gan ystyried deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Comisiynu ymchwil trwyadl i ganfod methodoleg addas i asesu effaith polisïau cynllunio ar y Gymraeg |

Yn sgil paratoadau fersiwn Adneuo y CDLl Diwygiedig comisiynwyd Cwmni Iaith i baratoi methodoleg addas i asesu effaith y CDLl diwygiedig ar yr iaith Gymraeg. Mae'r Adain Blaengynllunio wedi cyhoeddi'r adroddiad ar Asesiad o Effaith CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg. Mae'r adroddiad yn asesu methodolegau a oedd eisoes yn

bodoli (gweler rhan 1) ac yn cynnig matrics newydd i asesu gwytnwch yr iaith ac effaith y CDLl (gweler ffigwr 1.4).

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Gweithredu'r fethodoleg ar y Cynllun Adneuo |

Mae Rhan 2 o'r Asesiad o Effaith CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg yn darparu asesiad o effaith y strategaeth a ffefrir y CDLl Adneuo a rhan 3 yn amlinellu asesiad o bolisïau'r CDLl Adneuo.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Adlewyrchu, yn y Cynllun Adneuo, y cynnig a gafodd ei basio yn y Cyngor yn 2019 i ystyried y sir gyfan yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol |

Mae fersiwn Adneuol y CDLl Diwygiedig yn cydnabod y dylid ystyried y sir gyfan yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Gweler paragraff 11.173 sy'n nodi 'Ystyrir bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 19.0% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg, tra bo'r ffigwr cyfatebol yn Sir Gaerfyrddin yn 43.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward etholiadol Glan-y-môr lle mae 19.2% yn siarad Cymraeg, ac ar ei huchaf yn Chwarter Bach lle mae 68.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.'

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Gweithredu'r fethodoleg ar y Strategaeth a Ffefrir |

Mae Rhan 2 o'r Asesiad o Effaith CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg yn darparu asesiad o effaith strategaeth a ffefrir y CDLl Adneuo a rhan 3 yn amlinellu asesiad o bolisïau'r CDLl Adneuo.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau cyfraniadau cadarnhaol gan ddatblygwyr i liniaru effeithiau negyddol posib ar y Gymraeg yn gymunedol (a hefyd atgyfnerthu effeithiau positif) e.e. ymrwymiadau cyllidol i sefydliadau hyrwyddo'r Gymraeg, ysgolion Cymraeg ayb |

Mae Polisi WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd yn nodi pan fydd yn ofynnol i ddatblygwyr cyflwyno cynllun gweithredu iaith. Bydd disgwyl i'r ddogfen yma nodi'r cyfraniadau y bydd y datblygiadau neu ddatblygwyr yn gwneud i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Mae paragraff 11.178 o'r CDLl Adneuo yn nodi 'Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymhlith mesurau eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrff sy'n darparu gweithgareddau,

cyfleusterau ac addysg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a chymorth a chyllid tuag at ddosbarthiadau Cymraeg.'

| **Nod** |
|---|
| Ystyried cyflwyno set o bolisïau penodol ar gyfer cynllunio gwledig a fydd yn darparu hyblygrwydd sy'n addas ar gyfer sefyllfa gymunedol, wledig. Cysylltu'r gwaith hwn gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen Gwledig |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau bod y Cynllun Datblygu lleol yn adlewyrchu argymhellion adroddiad 'Symud Sir Gar ymlaen' i sicrhau ffyniant ein cymunedau Cymraeg eu hiaith |

Mae'r CDLl yn ceisio dosbarthu datblygiad a thwf ar draws y Sir mewn modd cynaliadwy sy'n darparu safleoedd tai a chyflogaeth i ateb anghenion y Sir er mwyn sicrhau bod gan bobl Sir Gâr y dewis i fyw a gweithio yma. Mae'r CDLl yn sicrhau bod yna twf cymesurol yn ein hardaloedd trefol a gwledig er mwyn cynnal a chefnogi cymunedau cynaliadwy dros oes y Cynllun.

Mae pennod a set o bolisïau yn ymwneud yn benodol â datblygu gwledig yn y CDLl Diwygiedig. Gweler polisi SP12 Datblygu Gwledig a'r polisïau penodol canlynol:

- RD1: Annedd yn Lle Un Bresennol yng Nghefn Gwlad Agored
- RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig ar gyfer Defnydd Preswyl
- RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd
- RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig ar gyfer Defnydd Dibreswyl
- RD5: Cyfleusterau Marchogol

| Cam Gweithredu |
|---|
| Ystyried yr angen i gynnal ymchwil pellach, gan drafod gyda'r siroedd sydd â phroffil ieithyddol tebyg i ni, i ganfod sail tystiolaeth sy'n rhoi sylw i ystyriaethau ieithyddol |

Mae'r Adain Blaengynllunio wedi trafod y posibilrwydd o weithio ar y cyd gydag awdurdodau Ceredigion a Chastell-nedd wrth baratoi'r CDLl. Does dim cyfle wedi codi i gydweithio gyda Cheredigion ar y CDLl ac, er y bwriadwyd cydweithio gyda Chyngor Castell-nedd, doedd yr amseru ddim yn addas. O ran awdurdodau cynllunio eraill sydd â phroffil ieithyddol tebyg, nid oes unrhyw rhai sydd ag amserlen debyg er mwyn ystyried gweithio ar y cyd.

Mae tipyn o waith wedi eu gwneud gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI Cymru) dros y flwyddyn ddiwethaf i asesu effaith cartrefi gwyliau ar gymunedau Cymru gan gynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Trwy'r gwaith yma, maent wedi cydlynu sawl sesiwn trafod rhwng awdurdodau lleol Cymru yn ogystal â sefydliadau a phartneriaid perthnasol eraill.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Datblygu holiadur byr i'w gylchredeg drwy datblygwyr newydd i ganfod darlun o symudoledd pobl o fewn y sir. |

Gallwn ailgydio yn y gwaith o gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am effaith datblygiadau tai ar y Gymraeg yn dilyn cwblhau'r gwaith ar y CDLL, e.e. Datblygu holiadur byr i'w gylchredeg drwy ddatblygwyr newydd i ganfod darlun o symudoledd pobl o fewn y sir.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Coladu gwaith mapio gofodol fesul ward cyngor tref a chymuned i ganfod tueddiadau niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwaith datblygu a wnaethpwyd yn ystod cyfnod diweddar |

Gwnaethpwyd hyn. Ni chanfuwyd unrhyw gyd-berthynas rhwng gwaith datblygu diweddar a dirywiad ieithyddol.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Ymgymryd â gwaith mapio gofodol yn dilyn cyhoeddiad canlyniadau'r Cyfrifiad nesaf i gadw golwg ystadegol ar ddylanwad posib gwaith datblygu tai a masnachol ar batrymau mudo ac allfudo |

Rydym yn disgwyl bydd canlyniadau'r Cyfrifiad 2021 yn cael eu rhannu'n gwanwyn / haf 2022.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Casglu tystiolaeth i sicrhau fod amcanestyniadau cywir o'r angen am dai newydd ar gael fel sail i bolisïau cynllunio diwygiedig o fewn y broses monitro blynyddol |

Rydym yn ail-edrych ar y gwaith yma yn sgil paratoadau ail fersiwn y CDLl Adneuol Diwygiedig. Bydd angen ystyried y data diweddaraf er mwyn sicrhau bod y CDLl yn adlewyrchu anghenion y sir. Cofier, fodd bynnag, nad oes sicrwydd y bydd tai yn cael eu hadeiladu er bod caniatâd i ddatblygu ar dir.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Cydweithio gyda'r uned bolisi i gomisiynu adroddiad sirol ar ystadegau'r Cyfrifiad a fydd yn ystyried allfudo o'r Sir fel mater allweddol i'r Sir |

Gweler uchod.

| Nod |
|---|
| Sicrhau bod argymhellion cadarn yn cael eu darparu i ddatblygwyr er mwyn ceisio atal datblygiadau rhag effeithio'n andwyol ar ddiwylliant Gymraeg y sir. |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Cryfhau'r polisi sy'n ymwneud ag arwyddion ac enwau strydoedd Cymraeg a dwyieithog |

Yn dilyn gwaith ymchwil ynglŷn â'r ystod o bosibiliadau sydd ar gael yn y maes hwn, gwnaed gwaith ar y cyd rhwng yr is-adran gynllunio a'r is-adran Bolisi a pherfformiad i gryfhau dylanwad y cyngor ar warchod enwau Cymraeg a hanesyddol yn y sir. Drafftiwyd polisi enwi tai a strydoedd newydd a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cyngor llawn ar gyfer cymeradwyaeth, gan obeithio ei fabwysiadu wedi ymgynghoriad gyda'r cyhoedd erbyn diwedd 2022. Bydd y polisi, os ddaw i rym, yn sicrhau anogaeth gref i breswylwyr a datblygwyr i fabwysiadu enwau sy'n adlewyrchu natur ieithyddol y sir ac yn parchu hanes a diwylliant ein hardaloedd.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Llunio canllaw newydd i egluro'r disgwyliad am arwyddion dwyieithog wrth i'r ymgeisydd gwneud cais am ganiatâd hysbysebu (Advertisement Consent) |

Mae'r adain Blaengynllunio yn bwriadu cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ar y pwnc yma. Gellir nodi yn y cyfamser fod yna enghreifftiau ar gael o ble mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi sicrhau aliniad gyda fframwaith polisi'r CDLl presennol o ran y canlyniad dymunol o arwyddion dwyieithog yn sgil geisiadau hysbysebu ar draws y Sir.

| **Nod** |
|---|
| Cynnal deialog cyson gyda'r llywodraeth i'w dylanwadu i ganiatáu gwaith cynllunio sirol sy'n addas i sicrhau hyfywedd y Gymraeg |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Yn unol ag argymhellion adroddiad 'Symud Sir Gar Ymlaen', pwyso ar y llywodraeth i ganiatáu cynllunio mwy hyblyg ar gyfer ardaloedd gwledig sy'n sicrhau amodau sy'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg ffynnu yn eu cymunedau heb orfod gadael am rhesymau economaidd. |

Mae'r Panel Ymgynghorol Gwledig wedi arwain ar hyn ar y cyd a'r tîm Blaengynllunio. Mae'r tîm yn archwilio'r materion i ddeall pa newidiadau posib y gellir eu ceisio i TAN6. Bwriedir cynnal sesiwn friffio/gweithdy gydag aelodau (Pwyllgor Cynllunio o bosibl) ar y materion a chanolbwyntio lobïo yn y dyfodol ar geisio newidiadau penodol. Cynhelir trafodaeth gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i ddeall cwmpas ac amseriad sesiynau o'r fath.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'w hannog i ddarparu polisi neu canllawiau pellach sy'n cydweddu gydag amcanion / canlyniadau'r Fframwaith |

Cwblhawyd, ac mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol eisoes wedi ei mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.

Rhan o waith y Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer De Orllewin Cymru sydd newydd ei ffurfio bydd paratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth.

## Adfywio economaidd

| Nod |
|---|
| Ymgysylltu pobl ifanc gyda'r byd gwaith gyda ffocws ar y Gymraeg er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth bobl ifanc o ddefnyddioldeb y Gymraeg yn y byd gwaith |

| Cam Gweithredu |
|---|
| Mentrau i ddatblygu cyfleoedd profiad gwaith cyfrwng Cymraeg gan ystyried y lleoliadau sy'n derbyn y ddarpariaeth, ystyried cynaliadwyedd ac ymestyn i'r ardaloedd eraill |

Wedi i Gyrfa Cymru stopio darparu rhaglen profiad gwaith i bobl ifanc yn 2015, datblygodd Menter GSG brosiect peilot *Profi* yn 2016, i ysgolion Bro M a QE. Yna estynnwyd y prosiect, gyda chyllid loteri, i ysgolion Bro Teifi, Bro Pedr, Dyffryn Taf ac Ysgol Emlyn. Roedd y prosiect yn canolbwyntion ar ddatblygu sgiliau byd gwaith disgyblion ôl 16, yn eu cynorthwyo gyda chreu CV ac yn eu cefnogi i gael y mwyaf allan o brofiadau gwaith. Roedd elfen gref o hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn y prosiect ac hefyd codi ymwybyddiaeth iaith y bobl ifanc yn greiddiol i'r prosiect hefyd.

Parhaodd *Profi* er gwaetha'r ffaith yr ataliodd cyfyngiadau COVID-19 pob cyswllt rhwng pobl ifanc a gweithleoedd yn ystod dwy flynedd diwethaf y prosiect. Addaswyd y ddarpariaeth gan greu adnoddau a chyflwyniadau digidol. Crëwyd 30 clip fideo byr yn ystod y cyfnod i ddatblygu sgiliau byd gwaith pobl ifanc. Datblygwyd y wefan gyda mewnbwn gan grwpiau ffocws yn ystod y cyfnod clo. Yn ddiweddar, mae Coleg Sir Gâr hefyd wedi bod yn cymryd mantais o ddarpariaeth Profi.

Ar ddiwedd cyfnod y strategaeth hwn, mae trafodaethau ar waith i ailgydio mewn cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc mewn patrwm hybrid a'r gobaith yw y bydd rhai pobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd yn ystod tymor yr haf 2022. Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid newydd yn ddiweddar i ddatblygu ffilmiau byr i gyflwyno cyfleoedd cyflogaeth lleol i bobl ifanc. Bydd y Fenter yn gweithio gyda chyflogwyr lleol yn y sectorau a adnabuwyd gan y bartneriaeth sgiliau fel sectorau sy'n brin o siaradwyr Cymraeg. Bwriad y fenter hon fydd i ddylanwadu ar bobl ifanc i weld y cyfleoedd gyrfa lleol sydd ar gael iddynt gan eu hannog i ymsefydlu fel oedolion ifanc o fewn y sir. Mae *Profi* hefyd yn datblygu cwisiau sgiliau personol digidol a fydd yn galluogi pobl ifanc i adnabod eu gwendidau a'u cryfderau a cydnabod meysydd datblygu.

Gyda darpariaeth *Profi* mor allweddol i drosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg i bobl ifanc, eu paratoi nhw i'r byd gwaith a'u hannog i ystyried cyfleoedd gwaith lleol, tybiwn ei fod yn hanfodol i'r ddarpariaeth yma barhau yn y sir. Mae angen ystyried ei gynaliadwyedd i'r dyfodol a rhoi cymorth lle bo'n bosib i'r fenter adeiladu capasiti i ehangu'r gwaith.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Y Mentrau i barhau i hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y byd gwaith. Mapio'r ddarpariaeth bresennol i ganfod nifer y sesiynau a ddarperir, nifer mynychwyr a lleoliadau |

Mae'r mentrau'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith i ysgolion sir Gâr yn ogystal a'r Coleg. Mae hyrwyddo cyfleoedd a manteision y Gymraeg yn y byd gwaith yn ganolog i'r hyfforddiant. Yn 2017 ariannodd y Cyngor prosiect i greu Google Drive i gynnwys holl ddeunyddiau Ymwybyddiaeth iaith sefydliadau sir Gâr, fel bod modd i bawb rhannu adnoddau a defnyddio'r adnoddau diweddaraf. Nid yw'n glir a oedd y gronfa o ddeunyddiau yn ddefnyddiol i'r sefydliadau ac, erbyn hyn, mae'r defnydd o dechnoleg wedi symud mlaen gymaint, mae'n debyg bod gronfa wedi dyddio. Efallai y byddai'n werth ystyried o'r newydd ydy'r sefydliadau oll yn gwneud y defnydd orau o ddeunyddiau mwy cyfoes ac a oes gan bawb fynediad i'r adnoddau oll yng nghyfnod newydd y Strategaeth. Efallai y byddai'n dda mapio'r ddarpariaeth o sesiynau ymwybyddiaeth iaith i bobl ifanc ar draws y sir i adnabod bylchau ac ystyried oes angen adnoddau newydd.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Yr *Egin* yn ymdrechu i sicrhau bod pobl ifanc y sir yn ymwybodol o bosibiliadau gweithio yn y diwydiannau creadigol yn Gymraeg |

Trwy'r prosiect ymgysylltu â ariannwyd gan LEADER cynhaliwyd Diwrnodau Byd Gwaith i bobl ifanc y sir yn rhoi blas ar yrfaoedd amrywiol y sector diwydiannau creadigol. Cynhaliwyd nifer fawr o weithdai yn Yr Egin, ar leoliad ac ar-lein ar gyfer cyfnodau allweddol ysgolion a gyda mudiadau amrywiol megis CFFI, yr Urdd a'r Mentrau Iaith gyda chwmnïau creadigol sydd wedi ymgartrefu yn Yr Egin e.e Moilin, Stiwdiobox a Captain Jac.

| Camau Gweithredu |
|---|
| Cynnig cyfleoedd profiad gwaith cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i bobl ifanc o fewn y Cyngor a sefydliadau eraill |

Ychwanegwyd esboniad ar dudalen we Cyngor Sir Gâr ar brofiad gwaith, i dynnu sylw at y posibiliad o gael lleoliad profiad gwaith cyfrwng Cymraeg. 'Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng ngorllewin Cymru, mewn sir ddwyieithog gallwn gynnig lleoliadau profiad gwaith dwyieithog ym mhob adran.' Mae'n fwriad gan y Cyngor i hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg ymhellach ac annog pobl ifanc i ddilyn lleoliad gwaith dwyieithog, ond yn dilyn COVID-19, mae ceisiadau am brofiad gwaith wedi eu hatal ar hyn o bryd.
Ni chafwyd darlun clir o drefniadau profiadau gwaith y sefydliadau cyhoeddus eraill yn ystod cyfnod y strategaeth hwn, ond efallai y dylid ystyried ymdrechion ar y cyd i gynyddu a chydlynu cyfleoedd profiad gwaith cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda phrosiect

*Profi* yn yng nghyfnod y Strategaeth nesaf, yn enwedig gan ystyried dileu'r cyfyngiadau COVID-19.

| Cam Gweithredu |
| --- |
| Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ymgysylltu bobl ifanc gyda'r Byd gwaith |

Fe ddarparodd Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ddadansoddiad o anghenion sgiliau'r byd gwaith gan gynnwys sgiliau Cymraeg. Nodwyd Twristiaeth, Iechyd ac adeiladu, diwydiannau creadigol fel meysydd lle mae angen mawr am siaradwyr Cymraeg. Mae'r proffiliau sector yma'n cael eu hadrodd i'r llywodraeth, fel rhan o'r Cynllun Cyflogi a Sgiliau rhanbarthol blynyddol, i gyfeirio buddsoddiad y llywodraeth yn y sector addysg ôl 16.

Mae Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant wedi gweithio'n agos i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r llwybrau dilyniant Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael iddynt pan fyddant yn symud ymlaen o addysg bellach i addysg uwch. Mae siaradwyr gwadd o'r Drindod wedi dod i ddosbarthiadau yn enwedig ym meysydd pwnc Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae dysgwyr hefyd wedi bod ar ymweliadau i wahanol gampysau'r prifysgolion i ddysgu am y cyrsiau y gallant eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gael eu hyrwyddo am gyfleoedd cyflogadwyedd ar eu cyfer lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mae cynrychiolwyr marchnata'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o'r Drindod wedi mynychu dosbarthiadau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn cyflogadwyedd ac i hyrwyddo'r bwrsarïau Addysg Uwch sydd ar gael pe bai myfyrwyr yn gwneud canran o'u gwaith ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein dysgwyr yn cael y cyfle i ymweld â ffair Addysg Uwch y brifysgol yn rheolaidd bob mis Ebrill i ddysgu am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a gwahoddir y brifysgol i'n ffeiriau gyrfaoedd Coleg Sir Gar yn ogystal â'n ffeiriau yn ystod wythnos anwytho ac wythnos cyflogadwyedd. Ar lefel cyfadran pwnc, gyda chefnogaeth ein Swyddogion Iaith Gymraeg yn y coleg, mae tiwtoriaid cwrs wedi trefnu i siaradwyr gwadd ddod i mewn i roi cyflwyniadau i ddysgwyr ar y sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen yn y maes pwnc penodol yn ogystal â'r manteision a'r cyfleoedd pellach sydd ar gael ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Roedd yn anodd yn ystod cyfnod Cofid i sicrhau'r cyfathrebu wyneb i wyneb hwn ond roedd dysgwyr yn parhau i gael cynnig sesiynau tiwtorial ar-lein gan siaradwyr gwadd a Gyrfaoedd Cymru lle pwysleisiwyd a hyrwyddwyd manteision sgiliau Cymraeg at ddibenion cyflogadwyedd.

Y cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Coleg Sir Gâr a'r Drindod Dewi Sant o ran hybu â hyrwyddo llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg ac ym mis Medi 2022, fel rhan o'r rhaglen anwytho ar gyfer dysgwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, byddwn yn cynnig rhaglen 'Dechre Da' iddynt lle byddant yn cael rhagflas deuddydd o fywyd prifysgol a gweithdai ar lwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg a phwysigrwydd defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg i gael cyflogaeth yn y ddwy yrfa hanfodol a phwysig hyn. Mi fydd y profiad hwn hefyd yn help i ysbrydoli'r dysgwyr i ymroi i wella eu sgiliau ieithyddol yn ystod eu cwrs addysg bellach. Ers Ionawr 2022, mae'r holl ddysgwyr yn y tri maes pwnc o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus yn derbyn gwersi wythnosol Gymraeg 'Cymraeg i'r Gweithle', sef awr yr wythnos wedi'i hamserlennu i'w helpu i ddatblygu geirfa briodol a hyder yn eu sgiliau iaith Cymraeg fel y byddant yn fwy parod i allu

defnyddio eu hiaith lafar yn fwy hyderus yn y gweithle. O fis Medi 2022 rydym yn bwriadu cyflwyno'r rhaglen hon i feysydd pwnc blaenoriaeth eraill hefyd fel busnes, chwaraeon, teithio a thwristiaeth a'r diwydiannau creadigol. Rydym wedi penodi staff Cymraeg penodedig i gyflwyno'r sesiynau hyn sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg cyflogadwyedd .

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Cydweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei drosglwyddo i bobl ifanc am gyfleoedd cyflogaeth lle mae'r Gymraeg yn benodol o ddefnyddiol |

Cyn COVID-19, roedd y Cyngor, y Mentrau a Swyddogion Byd Busnes yn cydweithio gyda Gyrfa Cymru ar ddigwyddiad sgiliau blynyddol ym Mharc Y Scarlets. Ystyriwyd, yn un o gyfarfodydd y Fforwm, y byddai trefnu ffair sgiliau tebyg i'r un a drefnwyd yng Ngogledd Cymru gyda Menter a Busnes yn ddefnyddiol yn sir Gâr ond ni weithredwyd ar y syniad ar y pryd.

Mae yna gydweithio yn datblygu rhwng prosiect *Profi* a Gyrfa Cymru, ond efallai bod yna waith i'w wneud ar ddatblygu perthynas rhwng y corff a'r Fforwm Strategol Sirol yn ystod cyfnod y Strategaeth nesaf.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Datblygu'r maes Prentisiaethau i sicrhau darpariaeth Gymraeg fel norm |

Yn Mehefin 2021, casglodd y Cyngor ddata at ei gilydd am y prentisiaethau mae Hywel Dda, Comisiynydd yr Heddlu, y Cyngor, S4C a Heddlu Dyfed Powys a Choleg Sir Gâr ynghyd. Nodwyd fod y ffigurau o bobl oedd yn dilyn eu prentisiaethau yn Gymraeg yn isel ar draws yr holl gyrff. Trafodwyd yr heriau o diffyg darparwyr sydd ar gael i ddarparu fframwaith addysgol y prentisiaethau o fewn y colegau a'r asiantaethau yn Gymraeg, a'r diffyg dilyswyr a diffyg aseswyr cyfrwng Cymraeg yn y maes. Anfonwyd llythyr o'r Fforwm at y Gweinidog Jeremy Miles i nodi'r angen hwn.

Trafodwyd, yn ogystal, yr angen i ddarbwyllo pobl ifanc o werth eu sgiliau Cymraeg er mwyn iddyn nhw ddewis dilyn eu prentisiaethau'n Gymraeg. Nodwyd y byddai'n dda cynnull y cyrff cyhoeddus a phreifat sy'n cyflogi prentisiaid ynghyd yn ystod cyfnod y Strategaeth nesaf i greu camau gweithredu i wella'r sefyllfa ac i wneud y Gymraeg yn norm o ran dilyn prentisiaethau yn sir Gâr.

Tua diwedd cyfnod y strategaeth hwn, lansiodd yr Urdd gynllun prentisiaethau newydd cyffroes yn y maes chwaraeon, gwaith ieuenctid ac awyr agored. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn darparu cyrsiau galwedigaethol a cyfleoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3 (sgiliau hanfodol) a hynny mewn partneriaeth gyda'r Urdd. Nodwyd fod angen gweithio ar y cyd i annog bobl ifanc sir Gar i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Annog ffermwyr ifanc y sir i fanteisio ar y cyfleoedd i annog amaethwyr ifanc, fel Gwobrau C.Ff.I Cymru am entrepreneuriaeth ifanc yn y byd amaeth a grantiau cymorth cychwynnol Llywodraeth Cymru i ffermwyr Ifanc i sefydlu busnes newydd neu ddatblygu eu busnes presennol. |

Mae 1,372 o bobl o dan 40 oed o Sir Gâr wedi cofrestru gyda *Chyswllt Ffermio*, sy'n cefnogi datblygiad sector diwydiannau'r tir i fod yn fwy proffesiynol, proffidiol a gwydn. Mae cyfanswm o bron i 26,000 o bobl wedi cofrestru ar draws Cymru (pob oed).

Mae 50 o bobl ifanc o Sir Gâr yn rhan o'r cynllun *Mentro*, sef cynllun i geisio paru pobl sydd am ddechrau ffarmio gyda rhai sydd am gymryd cam yn ôl.

Mae 40 o bobl ifanc o Sir Gâr wedi bod yn rhan o'r *Academi Amaeth*, sy'n darparu rhaglen lawn o hyfforddiant, mentora, cefnogaeth ac arweiniad i amaethwyr. Mae hyn allan o gyfanswm o 253 o bobl ifanc i gyd ar draws Cymru, ac mae 4 o bobl ifanc o sir Gâr wedi bod yn rhan o gynllun *Menter Moch Cymru* ar y cyd â C.Ff.I Cymru yn ystod y 3 mlynedd diwethaf.

| **Nod** |
|---|
| Hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Swyddogion Byd Busnes MIC yn darparu cyngor a chymorth i fusnesau bach y sir tra bod swyddogion y Comisiynydd yn cynghori a chynorthwyo'r busnesau mawr |

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hwn, cafodd 688 o fusnesau sir Gâr gyswllt gyda'r Swyddogion Helo Blod lleol. Cafodd 140 o fusnesau gefnogaeth ddwys oedd yn cynnwys o leiaf tair ymweliad. Ar ben hynny, mynychodd y swyddogion 77 o ddigwyddiadau i ymgysylltu gyda busnesau. Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth, daeth y llywodraeth gyda swyddogion lleol Helo Blod i ben.

| **Cam gweithredu** |
|---|
| Cydweithio gyda'r mentrau a'r Atom i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau yn enwedig drwy hwyluso ymgysylltiad rhyngddynt a busnesau'r sir y mae gan y Cyngor gysylltiad â nhw |

Am amryfal resymau, mae'r gwaith o ran cymreigio busnesau gyda'r Atom wedi pylu erbyn hyn. Gwelwyd swyddogion Helo Blod fel y prif gymorth i fusnesau'r sir (gweler uchod). Ac mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r swyddogion yma wedi datblygu'n effeithiol dros ben yn ystod cyfnod y strategaeth.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Cyflwyno'r Gymraeg i ddatblygiadau preifat pan fônt yn dod at y Cyngor am gyngor busnes |

Er mwyn ceisio dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y sector preifat, sefydlodd y cyngor grŵp o swyddogion mewnol oedd yn cael cyswllt gyda'r sector preifat a swyddogion y Comisiynydd a *Helo Blod* i gydlynu ymdrechion i gymreigio busnesau'r sir. Gwaned ymdrechion i ddylanwadu drwy'r broses cynllunio a'r gwaith datblygu economaidd ac adnabuwyd yr angen i ddiweddaru llyfryn gyda chyngor i fusnesau i weithredu'n Gymraeg.

Cydlynodd y Cyngor waith o greu llyfryn electroneg newydd sbon a fyddai'n berthnasol ac o ddefnydd ymarferol i fusnesau'r sir. Cydweithiwyd ar y cynnwys gyda swyddogion Busnes Helo Blod i greu Y Gymraeg Mewn Busnes. Penderfynwyd canolbwyntio ar y neges bod modd i bawb ddefnyddio Cymraeg yn eu busnes. Rhannwyd y llyfryn yn dair rhan i gyflwyno'r 'Camau bach ond pwysig', sy'n gydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd y sir ac o fewn cyrraedd i bawb, adran i 'adeiladu' ar y camau bach ac yn olaf 'Gweithio'n gwbl ddwyieithog: y Camau Breision'.

Roedd creu'r adnodd electroneg newydd hon yn golygu bod modd i ni ddatblygu partneriaethau newydd a dylanwadu ar sefydliadau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau. O gynnig dogfen yn cynnwys yr holl gefnogaeth mewn un lle, roedd modd cydweithio gyda Menter a Busnes, Antur Cymru a Chanolfannau Siopa. Dosbarthwyd hefyd drwy gysylltiadau datblygu economaidd, safonau masnach y cyngor a thrwy gylchlythyron busnesau a chynghorau tref a chymuned.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, mae'r Cyngor wedi darparu 'Y Gymraeg mewn Busnes' fel rhan o'r cyngor craidd a roddir i fusnesau sy'n dod atyn nhw am gyngor ac am grantiau datblygu. Mae'r gwaith hwn wedi datblygu llawer yn ystod blynyddoedd diwethaf y Strategaeth hon.

Wrth weithredu i adfywio'r economi yn dilyn COVID-19, drwy ddefnyddio cyllid gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, sefydlodd y cyngor gronfa 'Iaith Gwaith'. Mae 'Iaith Gwaith' yn darparu grantiau o hyd at £3,000 i gefnogi busnesau a sefydliadau cymunedol i godi proffil y Gymraeg. Mae'r gronfa wedi bod ar agor am geisiadau unwaith hyd yma. Cafwyd 11 o fusnesau llwyddiannus gan gynnwys Lido Brynaman, *Diod* Llandeilo, *Telgwen*, sy'n gwmni cludo cyfarpar adloniant byw. Bydd ffrwyth gwaith y grantiau i'w gweld y flwyddyn nesaf. Roedd y grantiau yma'n yn cyd-fynd gyda darpariaeth 'Helo Blod lleol' y llywodraeth, gyda'r ddau swyddog yn sir Gar yn cael eu hannog i hyrwyddo'r grantiau fel rhan o becyn ehangach o gefnogaeth i ddarparu'n ddwyieithog. Gyda 'Helo Blod lleol' yn dirwyn i ben, mae'r rhaglen Iaith Gwaith yn mynd i gaffael gwasanaeth debyg, i sicrhau sesiynau un i un o gymorth pellach ar gyfer pawb sy'n llwyddiannus gyda grant Iaith Gwaith.

Dros gyfnod gwyliau'r Nadolig, fe wnaeth y cyngor ddefnydd o adeiladau gwag yng Nghaerfyrddin a Llanelli gan agor siop , ar gyfer cynnyrch lleol. Roedd stondinau amrywiol gan fusnesau lleol yn y lleoliadau, ac fe drefnwyd bod swyddogion 'Helo Blod lleol' yn mynychu'r lleoliad ar ddyddiau penodol i gynorthwyo unrhyw fusnesau oedd yn dymuno datblygu elfen ieithyddol eu busnesau.

Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid o Gronfa Busnes Trawsnewid Trefi'r Llywodraeth i hyrwyddo mantais defnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Rhoddwyd y tendr i gwmni 'Sgript' i

ddatblygu hyfforddiant ar lein i fusnesau ac i becynnu'r hyfforddiant i'w ddefnyddio fel adnodd ar ôl y sesiynau. Hyrwyddwyd yr hyfforddiant i'r holl fusnesau y mae'r Adran Adfywio yn cydweithio â nhw, ac i'r busnesau i gyda sy'n derbyn grantiau. Yn ogystal, fe'i hyrwyddwyd yng nghylchlythyr busnes y cyngor. Darparwyd 6 sesiwn hyfforddi i 43 o fusnesau. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys astudiaethau achos, fideos lleol a vox pops i egluro manteision busnes gweithredu'n ddwyieithog. Pecynnwyd yr hyfforddiant fel adnodd ar lein a gwnaed ymdrech benodol i sicrhau nad oedd yr adnodd yn dyddio. Fe fydd yn ymddangos ar wefan y cyngor cyn hir.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau bod busnesau bach sy'n derbyn grantiau cynnal digwyddiadau'n cynnal eu digwyddiadau yn ddwyieithog |

Sicrhawyd dolen i y Gymraeg mewn Busnes yn y gwaith papur a gosodwyd amod ynglŷn a gweithredu'n ddwyieithog yn y rhaglen grant digwyddiadau.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau amodau grant ar Gynlluniau Grantiau datblygu (CREF ayb) i hybu dwyieithrwydd |

Sicrhau bod busnesau sy'n derbyn grantiau datblygu yn derbyn amodau dwyieithrwydd y grant, yn derbyn copi o'r 'Gymraeg mewn Busnes' ac yn cael eu cyfeirio at gyngor am gynyddu defnydd y Gymraeg mewn busnes. (gw. Uchod am brosiect CREF penodol i hyrwyddo'r Gymraeg)

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Cyflwyno'r Gymraeg i ddatblygiadau preifat sy'n llogi unedau datblygu'r Cyngor |

Sicrhau bod y busnesau hyn yn derbyn copi o'r 'Gymraeg mewn Busnes' ac yn cael eu cyfeirio at gyngor am gynyddu defnydd y Gymraeg mewn busnes

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Bod yn effro i bosibiliadau tebyg i'r Egin i ddatblygu diwydiannau arloesol cyfrwng Cymraeg o fewn y sir a chadw ffocws ddwyieithog ar ddatblygiadau tebyg |

Sefydlwyd Arsyllfa, gan Sgema, i feithrin diwylliant entrepreneuraidd yn Sir Gaerfyrddin. Bwriad y prosiect yw i ystyried syniadau ac ymchwil fydd yn cynnig cefnogaeth i'r economi wledig Gymreig er mwyn datblygu arloesedd a ffyrdd newydd o weithio.

| **Nod** |
|---|
| Sicrhau statws gyfartal i'r iaith wrth gynllunio a gweithredu prosiectau datblygu economaidd |

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn *Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio ar gyfer Sir Gâr 2015 – 2030.* Ynddo, nodir yr anelir i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy |

Mae'r Tîm Polisi a Chynnwys yn cydweithio yn agos gyda'r is-adran Adfywio wrth i'r strategaethau a phrosiectau sy'n rhan o'r cynllun adfywio gael eu datblygu. Mae nifer o'r cynlluniau wedi esblygu er mwyn adlewyrchu effaith COVID-19 ar ein cymunedau, gydag astudiaethau dichonolrwydd manwl ar waith i sefydlu sail tystiolaeth at weithredu'r dyfodol.
Mae'r tîm yn cefnogi o ran prosesau caffael prosiectau ac yn cynnal sesiynau penodol gyda swyddogion sy'n arwain ar gynlluniau, er mwyn sicrhau bod hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac ystyriaeth o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn greiddiol i'r gwaith.

| Cam Gweithredu |
|---|
| Sicrhau ystyriaeth drwyadl o'r Gymraeg wrth gynllunio a gweithredu prosiectau'r Cynllun datblygu gwledig |

Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar adfywio ardaloedd gwledig Sir Gâr yn economaidd ac yn gymdeithasol. Yn ystod 2019-20 cyhoeddwyd Cynllun Strategol *Symud Sir Gâr Wledig ymlaen*. Mae'r Gymraeg wedi bod yn greiddiol i'r polisi hwn o'r cychwyn cyntaf. Cydnabyddir yr angen i greu amodau economaidd a chymdeithasol a fydd yn galluogi bobl ifanc i aros neu i ail-ymgartrefu yn y sir ac mae datblygu ardaloedd gwledig mewn modd a fydd yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu yn cael ei adnabod fel 'egwyddor[ion] cyffredin ar draws holl argymhellion y Grŵp Gorchwyl'.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Sicrhau ystyriaeth drwyadl o'r Gymraeg wrth gynllunio, tendro a gweithredu prosiectau'r Fargen Ddinesig |

Roedd y Cyngor yn gweithredu prosiectau'r Fargen ddinesig oedd o dan ei gweinyddiaeth yn unol â Safonau iaith Gymraeg y Cyngor, gyda'r papurau tendro, yn ogystal â bod yn ddwyieithog, yn nodi fod angen i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu fod yn ddwyieithog, ac yn nodi bod angen i'r tendrwr ystyried effaith y gwaith ar yr iaith Gymraeg. Yn 2020, cafodd swyddfa benodol ei hagor ar gyfer y Fargen Ddinesig we ei lleoli yn Llanelli, ac mae'r prosiect wedi datblygu mwy o annibyniaeth oddi wrth y cynghorau erbyn hyn. Fodd bynnag, sefydlwyd cytundeb ar gyfer gweithredu'n unol â'r Safonau, sy'n nodi bod y *Fargen* i gydymffurfio â'r Safonau cryfaf sydd ar y siroedd dan sylw.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg law yn llaw a'r prosiectau economaidd |

Datblygwyd prosiectau fel rhan o'r *Fargen Ddinesig* oedd yn prif-ffrydio'r Gymraeg ac yn sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Sefydlwyd Prosiect *Sgiliau a Thalent* i ddadansoddi'r sgiliau fydd angen ar brosiectau adfywio'r *Fargen* mewn 15 mlynedd ac i hyrwyddo'r sgiliau hynny o fewn ysgolion. Cynhwyswyd sgiliau Cymraeg o fewn y dadansoddiad ac mae'r cyflwyniadau i'r ysgolion Cymraeg yn digwydd drwy'r Gymraeg. Bydd disgwyl i brosiectau sy'n dod trwy'r fargen i adlewyrchu'r canlyniadau hyn i'r dyfodol.

Eto o dan faner y *Fargen*, gweithredwyd brosiect arloesedd i blant y sir, a oedd yn dod gyda datblygiadau technolegol cyffrous yn fyw i ddisgyblion. Cafodd 8 ysgol cyfrwng Cymraeg y cyfle i weithio gyda thechnoleg argraffu 3D i greu ceir ar gyfer eu hysgol, yna buon nhw'n gosod y ceir at ei gilydd ac yn eu paentio cyn y ras fel rhan o brosiect Coleg Peirianneg Prifysgol Abertawe. Roedd y prosiect yn cyflwyno technoleg gweithgynhyrchu arloesol i blant a phobl ifanc sir Gâr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2019-21, sefydlwyd cynllun peilot arloesol *Arfor* rhwng y dair sir sydd â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Ceredigion, Ynys Môn Gwynedd, a Sir Gâr. Bwriad y rhaglen oedd cefnogi creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg. Gweinyddodd y Cyngor rhaglen Arfor yn Sir Gâr gyda'r bwriadau canlynol:

- Hyrwyddo menter a chefnogi twf busnes mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Cynhyrchu mwy o swyddi â chyflog gwell i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hyn ac annog y rhai sydd wedi gadael i ddychwelyd.
- Hyrwyddo gwerth eang o ddefnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn busnes gan greu naws am le bywiog.
- Annog y busnesau a'r bobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg

Fel yr eglura adroddiad Wavehill ar raglen Arfor, canolbwyntiodd Cyngor Sir Caerfyrddin ar y sectorau hyn oedd y sectorau bwyd a diod a diwydiant creadigol. Rhoddwyd grantiau i fusnesau yn y meysydd hyn i ariannu buddsoddiadau cyfalaf mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Er enghraifft, busnesau llaeth, yn enwedig cynhyrchwyr llaeth, yn buddsoddi mewn peiriannau gwerthu llaeth sydd wedi'u cynllunio i alluogi i'r busnes werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Buddsoddodd rhai o'r busnesau creadigol mewn offer argraffu, caledwedd a meddalwedd digidol, neu ddatblygu lleoedd gwaith. Atgyfnerthodd y grantiau fusnesau cynhenid oedd yn gweithredu'n Gymraeg ac anogodd y grantiau ymgysylltiad sylweddol gyda'r Gymraeg yn gyffredinol. Sefydlwyd hefyd 'Bwrlwm Arfor', sef gwefan i hyrwyddo prosiectau Arfor a lwyddodd i gael effaith gadarnhaol ar gymunedau, yr iaith a'r economi ynghyd. Cyfrannwyd prosiectau o Sir Gâr i'r wefan hon ac mae potensial i'r gronfa hyn o arfer dda gael eu defnyddio ym mhrosiectau adfywio'r dyfodol.

Ar ddiwedd cyfnod y strategaeth hwn, mae gwaith ar droed i sefydlu Arfor 2 yn y siroedd ac mae angen sicrhau ein bod yn i ddefnyddio canfyddiadau'r prosiect i fwydo polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith prosiectau adfywio Sir Gâr i'r dyfodol.

Wrth sefydlu prosiect adfywio'r Deg Tref, a derbyn awgrymiadau ac adborth gan y Fforwm Strategol sirol, penodwyd swyddogion datblygu oedd yn medru'r Gymraeg a threfnwyd lle ar fyrddau gweithredu lleol y prosiect i'r mentrau iaith er mwyn sicrhau bod syniadau datblygu iaith yn cael eu bwydo i mewn i raglenni'r prosiect. Bydd rhaglenni gwaith y prosiect yn datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf ac, wrth i ddylanwad y cyngor bylu wrth i'r Timoedd Cynlluniau Twf gael eu sefydlu, bydd angen i gyrff cymunedol gymryd y cyfrifoldeb i raddau helaeth o sefydlu a hybu rhaglenni a phrosiectau sy'n annog defnydd y Gymraeg wrth ddatblygu'r economi yn y trefi marchnad. Wedi dweud hynny, mae'r byrddau gweithredu hefyd yn gorfod gweithredu yn unol â Safonau iaith y Cyngor sir gan mai'r cyngor yw'r corff sy'n rhaeadru'r cyllid i'r prosiect.

Gwnaed ymdrechion ar gyfer hybu'r Gymraeg yn natblygiad prosiect **Pentre Awel**, drwy ystyried potensial y datblygiadau i'r Gymraeg o gychwyn cyntaf sefydlu'r prosiect, a chynnwys yr ystyriaethau hyn ym mhob elfen o'r gwaith datblygu. Wedi penodi'r cwmni adeiladu ar gyfer y gwaith o adeiladu Parth 1 o'r datblygiad, sicrhawyd elfen gref o fuddion cymdeithasol i'r tendr. Rhoddwyd neges glir i'r cwmni rhyngwladol fod angen hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu'r buddion cymdeithasol ac fe benododd y cwmni siaradwr Cymraeg lleol i ddatblygu a darparu'r rhaglen o fuddion cymdeithasol. Mae'r cyngor wedi sefydlu grŵp i ddatblygu a chraffu ar y gwaith o ddarparu'r elfen gymdeithasol hwn o'r contract ac fe sicrhawyd lle i Swyddog Datblygu'r Gymraeg ar y grŵp. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod gyda'r swyddog datblygu o gwmni Bouygues i drafod y pwysigrwydd o weithredu'n ddwyieithog a'r posibiliadau o ddatblygu cyfleoedd penodol i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu rhaglen o fuddion cymdeithasol. Rhannwyd cysylltiadau partneriaid Cymraeg fel y mentrau, y Ffermwyr Ifanc a'r Ganolfan Ddysgu gyda Bouygues a darparwyd rhestr o gyfleoedd posib i hyrwyddo'r Gymraeg gyda nhw.

Yn ogystal, trefnwyd cyfarfod gyda'r Coleg Cymraeg i drafod y posibiliadau o gydweithio y gallai datblygiadau arfaethedig Pentre Awel gynnig. Yn dilyn y cyfarfod, gwahoddwyd y Coleg i gyfarfod arall er mwyn sicrhau ein bod yn trafod y posibiliadau ar gyfer addysg pellach ac uwch gyda nhw, o ran ymchwil, prentisiaethau a hyfforddiant mewn swydd ayb. Y gobaith yw, y bydd y cyngor o greu'r cysylltiadau yma gyda sefydliadau o'r sector Cymraeg, yn sicrhau fod datblygiadau Cymraeg penodol yn cael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Wrth drefnu digwyddiad Cwrdd a'r Prynwr, gwnaed yn siŵr, unwaith yn rhagor fod y gwaith hyrwyddo'n digwydd yn gwbl ddwyieithog. Yn ogystal, gwahoddwyd swyddogion Helo Blod Lleol i fynychu'r digwyddiad ac ariannwyd taflen newydd at ddefnydd y dair Menter a'r Cyngor, gyda chod QR arni i gyfeirio busnesau at lyfryn *Y Gymraeg mewn Busnes* ar wefan y Cyngor.

### 3.1.3 y Fframwaith mesur traweffaith.

| **Amcan Strategol 3:** Cymryd camau pwrpasol i **effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth** gan geisio denu'n pobl ifanc i sefydlu neu i ail-ymsefydlu yn y sir fel na gollir y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a enillir drwy'r drefn addysg. Yn ogystal, gwneud **ymdrechion sylweddol i gymathu mewnfudwyr** a **sicrhau nad ydy datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg** | | | |
|---|---|---|---|
| Dangosydd Deilliant | Mesuriad | Mesuriad Technegol | Ffynhonnell |
| **8**<br><br>**Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth** | 8.1 Niferoedd y boblogaeth oed 16 – 29 sydd yn symud i mewn ac allan o'r sir | Niferoedd mudo (gros a net) i mewn ac allan yn ôl oedran rhwng Sir Gâr a gweddill rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Ddwyrain Cymru, Gogledd Cymru a rhannau eraill o'r DG tu allan i Gymru. | ONS: Internal migration: detailed estimates by origin and destination local authorities, age, and sex<br><br>Gwirio data Arfor |
| | 8.2 Canran y boblogaeth oed 16 – 29 sydd wedi symud i Sir Gâr ac sy'n medru siarad Cymraeg | Data Cyfrifiad ar sail lle roedd pobl yn byw yn y flwyddyn flaenorol i ddyddiad y Cyfrifiad a'r gallu i siarad Cymraeg | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language |
| | | | |
| **9**<br><br>**Mwy o fewnfudwyr yn cael eu cymhathu** | 9.1 Nifer y pecynnau Croeso i'r Gymraeg a ddosberthir/a lawrlwythir | Nifer y pecynnau a ddosberthir i'r/ a lawrlwythir gan y rhai sy'n cofrestru ar gyfer treth y cyngor, tenantiaid newydd y Cyngor, staff newydd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed Powys yn y rhanbarth, a'r Cyngor Sir a gan asiantau tai a darparwyr tai cymdeithasol | Data CSG, PYDDS, BIPHDd, Heddlu Dyfed Powys, asiantau tai a darparwyr tai cymdeithasol |
| | 9.2 Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg | Nifer y gweithgareddau a gynhelir yn benodol i gymhathu dysgwyr y Gymraeg | Data Mentrau Iaith + (CFFI, URDD) |
| **10**<br><br>**Mwy o ddatblygiadau cynllunio sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at hyfywedd y Gymraeg** | 10.1 Canran y datblygiadau cynllunio newydd sy'n cyflawni Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn unol â Polisi Strategol 7 – Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | Canran y datblygiadau cynllunio newydd sy'n cyflawni Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn unol â Polisi Strategol 7 – Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru, IG1- Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd yn ôl data | Data monitro cyflawni Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg datblygiadau cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu | |

## *Amcan 4 : Targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.*

**4.1.1 Targedu Ardaloedd daearyddol penodol**

**I ba raddau yr ydym wedi dilyn ein Strategaeth hybu a'n Cynllun Gweithredu?**

O gychwyn cyfnod y Strategaeth hon hyd ddechrau 2020, canolbwyntiwyd yr ymdrechion i effeithio'n gadarnhaol ar ardaloedd daearyddol o fewn y sir ar brosiect Ardaloedd Blaenoriaeth a sefydlwyd o fewn y tair Menter Iaith. Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid o gronfa LEADER ac fe benodwyd 3 swyddog llawn amser (i weithio yn ardaloedd y tair Menter) i hwyluso'r prosiect yn yr ardaloedd blaenoriaeth. Gwnaed gwaith mapio ieithyddol ar yr ardaloedd o flaenoriaeth, sef Brynaman, Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn, Cydweli, Llandeilo, Llanfihangel-ar-arth, Llanymddyfri a Thrimsaran. Crëwyd a gweithredwyd cynlluniau strategol lleol ar gyfer bob ardal blaenoriaeth ac fe grëwyd rhwydwaith ar gyfer pob ardal blaenoriaeth.

Ceir Adroddiad cynhwysfawr o'r prosiect hwn, 'Adroddiad Prosiect Ardaloedd Blaenoriaeth Sir Gâr 2018 –2020' sy'n manylu ar fethodoleg a gweithgarwch y cynlluniau gweithredu ac yn cynnig gwerthusiad a dadansoddiad o effaith y prosiect. Mae'r adroddiad hefyd yn egluro'r addasiadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig. Yn gyffredinol, er y bu enghreifftiau da o arbrofi a chynnal gweithgarwch newydd, y teimlad oedd nad oedd y cyrff oll ar y Fforwm wedi ymrwymo i nodau'r prosiect gan eu bod yn tueddi i fod ynghlwm wrth dargedau eraill a strwythurau cenedlaethol. Ar ben hynny, nid oedd cyfnod y prosiect yn ddigon hir i wneud gwahaniaeth mor sylweddol ac y byddai modd. Yn gyffredinol, nodir nad oes gan y mentrau gapasiti i weithio mor ficro â hyn yn gyffredinol ac y byddai angen ystyried y mater hwn pan ddaw ffigurau'r cyfrifiad nesaf i'r fei.

Bydd craffu ar ganlyniadau a chasgliadau'r prosiect hwn yn rhoi arweiniad i'r Fforwm ar bosibiliadau cyfeiriad gwaith yn yr ardaloedd yma i'r dyfodol, ac mae'r mentrau am ymdrechu i sicrhau fod y canlyniadau hynny'n cael eu bwydo i mewn i brosiectau'r Deg Tref yn yr ardaloedd sy'n gyffredin rhwng y ddau brosiect.

Yn dilyn y prosiect hwn, symudwyd y ffocws i dref Llanelli. Roedd Llanelli wedi ei adnabod dros y blynyddoedd fel tref oedd angen sylw manwl a phenodol o ran y Gymraeg i geisio atal y dirywiad ieithyddol. Roedd Menter Cwm Gwendraeth Elli, wedi mabwysiadu tref Llanelli yn lled ddiweddar, ac yn cydnabod eu bod yn ei chael yn anodd effeithio'n gadarnhaol ar y dref. Roedd mudiadau Cymraeg eraill megis Cymraeg i Blant a Chylchoedd Meithrin wedi cael trafferth darparu yn unol â photensial niferoedd y dref dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi gwneud gwaith ymarferol ardderchog yn gymunedol yng nghanol tref Llanelli, caeodd *Y Lle* yn 2019.

Drwy gydweithio agos rhwng Adran Bolisi'r Cyngor a Menter Cwm Gwendraeth Elli, cynullwyd Grŵp Gweithredu ar gyfer a gwrddodd am y tro cyntaf yn Rhagfyr 2020 i sbarduno cydweithio i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn nhref Llanelli a'r cyffiniau. Yn dilyn sefydlu'r grŵp lluniwyd holiadur i'w weinyddu gyda mudiadau'r dref i gael dealltwriaeth well o botensial ac anghenion y dref o safbwynt y Gymraeg. Comisiynwyd adroddiad gan Catrin Llwyd ar yr arolwg, ac fe gwblhawyd yr adroddiad wedi cyfnod estynedig o ymchwil pellach gan Catrin yn Medi 2021. Yn dilyn hynny, lluniwyd Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar adroddiad Catrin, parhaodd y Grŵp Gweithredu i gwrdd ac mae'r Cynllun Gweithredu bellach yn sail i'r cyfarfodydd hynny. Ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth hon, mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn ceisio cryfhau eu capasiti i weithio yn yr ardal ac maen yn gobeithio penodi swyddog i wireddu'r Cynllun Gweithredu cyn hir. Mae'r Grŵp Gweithredu'n parhau i gwrdd yn chwarterol gan graffu ar a llywio'r gwaith.

### 4.1.2 Targedu Ardaloedd Daearyddol

### Y Fframwaith mesur traweffaith

| **Amcan Strategol 4:** Targedu **ardaloedd daearyddo**l penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol**, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg** yn yr ardaloedd hynny | | | |
|---|---|---|---|
| Dangosydd Deilliant | Mesuriad | Mesuriad Technegol | Ffynhonnell |
| **11**<br><br>**Mwy o bobl sy'n medru ac yn defnyddio Cymraeg yn yr ardaloedd penodol** | 11.1 Canran disgyblion cynradd ac uwchradd yr ardaloedd penodol sy'n medru Cymraeg | Canran y plant 4-11; 11-16 a 16-18 yn ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal sydd yn y categorïau CYBLD 'Fluent in Welsh' a 'Speaks Welsh but not fluently' | Data CYBLD Cyngor Sir Gâr |
| | 11.2 Canran disgyblion cynradd ac uwchradd yr ardaloedd penodol sy'n hyderus yn siarad Cymraeg | Canran y plant yn ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal sy'n nodi 'Dwi'n hyderus wrth siarad Cymraeg' yn holiadur Gwe Iaith y Siarter Iaith | Data holiadur Siarter Iaith ysgolion Sir Gâr |
| | 11.3 Canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn tu allan i'r ysgol | Canran y disgyblion cynradd ac uwchradd yr ardal sy'n ateb 'Dwi'n siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol' yn holiadur Gwe Iaith y Siarter Iaith | Data holiadur Siarter Iaith ysgolion Sir Gâr |
| | 11.4 Canran y plant 3 oed ac iau sydd yn derbyn addysg gynnar a gofal dydd cyfrwng Cymraeg (dwyieithog) | Nifer y plant sydd wedi eu cofrestru gyda gwasanaethau addysg gynnar a gofal dydd yn yr ardal a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn | Data Mudiad Meithrin + darparwyr eraill |
| | 11.5 Canran y bobl yn yr ardaloedd sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran y bobl yn yr ardaloedd (fesul ward/LSOA) a ddywedodd yn y Cyfrifiad Poblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language |
| | 11.6 Nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg yn yr ardaloedd penodol | Nifer o bobl ar sail presenoldeb mewn gweithgareddau a phresenoldeb mewn gweithdai, data aelodaeth | Data partneriaid URDD, Ffermwyr Ifanc, Mentrau Iaith + eraill |

## *Amcan 5: Marchnata a hyrwyddo'r iaith. Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog. A thrwy godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, denu mwy o drigolion y sir i gaffael yr iaith.*

### 5.1.1 Marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg: I ba raddau rydym wedi dilyn ein Strategaeth Hybu a'r Cynllun Gweithredu?

- Arolwg ymwybyddiaeth

Mewn ymdrech i fesur elfennau o hyfywedd iaith nad ydynt yn ymddangos yn ffigurau'r cyfrifiad, lluniwyd a gweinyddwyd holiadur yn ystod 2018 i drigolion y sir. Casglwyd gwybodaeth ddefnyddiol am agweddau a thueddiadau 333 o drigolion. Gan fod y sampl yn fach a'r ymatebwyr yn tueddu i fod yn fenywod ac yn Gymry Cymraeg, cafwyd argraff o agweddau ac ymwybyddiaeth un garfan o'r gymdeithas o'r Gymraeg yn unig. Roedd yn ddiddorol, fodd bynnag, gweld agweddau a lefelau ymwybyddiaeth y garfan hon o'r boblogaeth ac yn gosod cynsail i ni o safbwynt sicrhau bod y Gymraeg yn parhau yn norm i'r rhain a'i fod yn parhau i fod yn bosib defnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa yn sir Gâr.

Nid arweiniodd canfyddiadau'r arolwg hwn at unrhyw waith marchnata a hyrwyddo'r Gymraeg yn benodol. Yn hytrach aed ati i lenwi bylchau oedd yn barod yn hysbys i'r Fforwm.

- Bod yn Ddwyieithog

Aed ati i greu adnodd newydd i hyrwyddo addysg Gymraeg yn Sir Gâr. Cynlluniwyd llyfryn sy'n arwain rhiant drwy gyfnod magu plant blant, yr holl ffordd i'r Coleg a'r Brifysgol gyda gwybodaeth ddefnyddiol am fanteision bod yn ddwyieithog, darpariaeth addysg Gymraeg, atebion i bryderon posibl rhieni a chyfeiriadur i fudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Cynlluniwyd y llyfryn gan y Fforwm Sirol ac fe gafodd ei gydlynu, ei ddylunio a'i argraffu gan y Cyngor Sir. Gwnaed gwaith helaeth o ddosbarthu'r llyfryn ac mae wedi bod yn adnodd hanfodol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, yn enwedig i'r Mentrau Iaith a'r Cyngor. Pecyn Croeso

Yn ogystal â'r ddogfen uchod, mae'r canlynol wedi eu creu yn ystod cyfnod y strategaeth hon:

- Cymraeg gyda'r Plant: Llyfryn i annog defnydd o'r Gymraeg yn y cartref
- Gwaith Cartref Dim Problem: Llyfryn i ddileu ofnau rhieni am fethu cynorthwyo eu plant gyda'u gwaith cartref pan fo'r plant mewn addysg Gymraeg
- Y Gymraeg mewn Busnes: Llyfryn i roi cyngor a chymorth i fusnesau ddefnyddio'r Gymraeg
- Pecyn Croeso: Llyfryn i godi ymwybyddiaeth mewnfudwyr o'r Gymraeg.

Ymdrechwyd i ddosbarthu'r uchod yn strategol, gan geisio rhai ffyrdd arloesol o gyrraedd y gynulleidfa darged ym mhob achos. Ceisiwyd cynnwys y Pecyn Croeso ar ap myfyrwyr newydd Prifysgol y Drindod Dewi Sant er enghraifft. Mae sicrhau cynnal dosbarthiad dolenni electroneg a llyfrynnau papur fel ei gilydd yn waith llafurus ac mae llawer o waith ar ôl i'w wneud i sicrhau lledaeniad rheolaidd, cyfredol a pharhaol o'r deunyddiau uchod, yn electroneg ac ar bapur. Ni weithredwyd unrhyw ymgyrchoedd marchnata torfol yn ystod cyfnod y

strategaeth hon, ond ymdrechwyd i gael ymroddiad cyrff amrywiol y Fforwm i ddosbarthu'r deunyddiau yma wrth iddyn nhw gael eu creu.

### 5.1.2

### Y Fframwaith mesur traweffaith

| **Amcan Strategol 5** | **Marchnata a hyrwyddo**'r iaith. Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog. A thrwy godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, denu mwy o drigolion y sir i gaffael yr iaith. | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Deilliant | Mesuriad | Mesuriad Technegol | Ffynhonnell | Amlder |
| **12**<br><br>**Mwy o drigolion y sir yn deall manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog** | 12.1 Canran sy'n cytuno gyda'r manteision o ddwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog | Mae angen addasu cwestiynau 10 a 10a yr Arolwg i gasglu'r tystiolaeth yma | Arolwg Ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn CSG + data partneriaid? | I'w bennu gan CSG + partneriaid |
| | 12.2 Canran sydd ddim yn gwybod lle mae darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael | Canran sydd wedi ateb 'Na' i gwestiwn Arolwg Ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn CSG i'r cwestiynau ' Ydych chi'n gwybod ble i ddod o hyd i: Gofal plant bach yn y Gymraeg ac Addysg Gymraeg i'ch plant?' | Arolwg Ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn CSG + data partneriaid? | I'w bennu gan CSG + partneriaid |

## Barn y fforwm

Wrth gynllunio'r adroddiad hwn, trefnwyd gweithdai ym Mis Gorffennaf 2021 i gasglu mewnbwn gan holl gyrff y Fforwm, ar eu hargraffiadau o gryfderau a gwendidau'r gweithredu ar bum mlynedd y Strategaeth. Yn dilyn hyn, rhannwyd drafft o'r adroddiad fesul amcan dros gyfnod o chwe mis ac yna trefnwyd cyfarfod gyda 12 o'r cyrff a chael adborth ar bapur gan ambell un arall yn gofyn am adborth ar yr adroddiad ac am farn ynglŷn â chyfeiriad y cynnwys y strategaeth nesaf. Dyma nodi'r adborth yma ar gryfderau a gwendidau gweithredu strategaeth 1, ac yna cyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer Strategaeth 2.

Y **Fforwm: Cryfder**

- Cyfle go iawn i gynllunio'n ieithyddol, mewn modd sy'n addas ac yn bwrpasol i Sir Gâr,
- Aelodaeth, ymrwymiad ac amlder y cyfarfodydd yn sicrhau atebolrwydd, er enghraifft swyddogion Adfywio a Chynllunio'r Cyngor sir yn ymgysylltu o ddifri,
- Y Cyngor sir yn cydlynu'r Fforwm, yn cymryd cyfrifoldeb o lunio'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, a'r Cynllun Gweithredu a'r diweddariadau cyson yn darparu fframwaith i ffurfioli cynnydd,
- Y Strategaeth a'r Adroddiad yn rhoi darlun cyflawn o'r hyn sy'n digwydd yn y sir, ac felly'n sylfaen i'r hyn sydd angen ei wneud yn y strategaeth nesaf,
- Cadeirydd annibynnol, ymroddedig a phrofiadol,
- Partneriaethau gweithredol y tu allan i'r Fforwm yn datblygu,
- Rhannu arfer dda a chodi ymwybyddiaeth,
- Cychwyn ar waith pwyso a dylanwadu ar gyrff y tu allan i'r Fforwm.

**Y Fforwm: Gwendid**

- Angen mwy o berchnogaeth o'r Strategaeth gan gyrff eraill i gyflawni ei botensial,
- Gormod o faterion ar yr agenda,
- Diffyg cyrff i arwain ar rhai meysydd,
- Targedau cenedlaethol yn gallu llesteirio cyd-gynllunio,

**Y Fforwm: Cyfleoedd i'r dyfodol**

- Mwy o gyflwyniadau gan gyrff sy'n chwarae rôl mewn meysydd amrywiol ac sy'n cael effaith sylweddol ond anuniongyrchol ar y Gymraeg yn y sir,
- Naws o herio cadarnhaol i sicrhau ansawdd gwaith uchel,
- Ehangu i'r sector preifat,
- Sefydlu is-grwpiau a grwpiau ffocws i ddelio a materion penodol,
- Ehangu'r gwaith o bwyso a dylanwadu er mwyn dileu rhwystrau ar waith y fforwm.

## ***Amcan 1: Caffael sgiliau***

### ***Cryfderau***

- Gwaith **marchnata'r Gymraeg yn y maes** gofal, trosglwyddo iaith ac addysg : adnoddau,
- Nifer cynyddol o feithrinfeydd preifat cyfrwng Cymraeg,
- Datblygiadau yn y maes dysgu **Cymraeg i Oedolion**, gan gynnwys gweithredu ar lein, y Ganolfan yn casglu data defnyddiol a phrosbectws ar lein ar y cyd, yn golygu bod negeseuon yn gallu bod yn fwy effeithiol a mynediad i wersi yn fwy llyfn,
- Arlwy da o gyrsiau Cymraeg i **athrawon** ac arbenigedd mewn darpariaeth ddwys gan y Brifysgol Drindod Dewi Sant,
- Arlwy da a mwy cydlynus o gyfleoedd **anffurfiol** i ddysgwyr,
- Polisïau cyrff cyhoeddus yn annog datblygu sgiliau **Cymraeg yn y gweithle**. Darpariaeth o gyrsiau Cymraeg yn y gweithleoedd yn amrywiol a phwrpasol,
- Coleg sir Gâr yn cynyddu'r nifer o gyrsiau gall **myfyrwyr** ddilyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio rhwng Coleg Sir Gâr a'r Brifysgol ar ddatblygu llwybrau o astudio pellach i uwch trwy gyfrwng y Gymraeg,

## ***Gwendidau***

- Dim digon o berchnogaeth o'r **adnoddau** hyrwyddo a dim prosesau sefydlog a chyson i'w dosbarthu,
**- Darpariaeth Gofal Plant** / cyn oed ysgol. Cynnydd y lleoliadau Cymraeg wedi darfod, trafferthion recriwtio,
- Niferoedd **dysgwyr** Cymraeg i oedolion sy'n byw yn sir Gâr yn gymharol isel yn dilyn Covid-19,
- Dim digon o gynllunio darpariaeth gymunedol a gwaith hyrwyddo'r Gymraeg i atgyfnerthu targedau'r **CSGA,**
- Dim digon o'n **hysgolion** yn cymryd mantais o'r arlwy dysgu sydd ar gael ar gyfer athrawon,
- Ymdrechion i hyrwyddo arlwy **anffurfiol** ar y cyd i ddysgwyr heb ddwyn ffrwyth,
- Dim digon o gynnydd yn sgiliau Cymraeg yn y **gweithle,**
- Diffyg data ar bobl ifanc sir Gâr mewn addysg **uwch** a phellach sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg,

## ***Cyfleodd i'r Dyfodol***

- Mapio'r mannau i ddosbarthu'r **adnoddau** yn electroneg a chopïau caled yn unol â'u pwrpas ac yn unol â'r heriau sy'n codi o'r CSGA ac o ffigurau'r cyfrifiad. Hefyd, cyfle i wneud defnydd mwy ymarfer o'r taflenni gan gynnwys drwy gyflwyniadau neu drwy gyfrwng fideo i garfanau penodol o bobl,
- Ailgydio yn y gwaith o sbarduno mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn y maes **cyn oed ysgol**, yn enwedig drwy'r meithrinfeydd preifat a thrwy ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Hyrwyddo Gofal plant Gymraeg i bawb,
- Amseru'r **CSGA** newydd yn golygu y gallwn ni archwilio targedau'r CSGA i gynllunio cefnogaeth i'w atgyfnerthu,
- Cyrff **cyhoeddus** y Fforwm i osod targedau ar leihau nifer y staff sydd ar lefel 0 a chynyddu'r staff sydd ar lefel 3+. Heddlu Dyfed Powys yn arwain y ffordd drwy ystyried gosod her i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau lefel 3+,

- Newidiadau strwythuro staff y Brifysgol a'r Coleg yn rhoi mwy o gyfle i gydweithio gyda'r fforwm i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle a datblygu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg **ôl**-**ysgol** i drigolion y sir,
-Marchnata arlwy dysgu Cymraeg i athrawon yn fwy cydlynus ac egnïol,
- Canolfan Hwyrddyfodiad newydd,
- canfod corff addas ar gyfer ailgydio yn y gwaith o hyrwyddo cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ar y cyd,
- Strategaeth dysgu cyfrwng Cymraeg newydd y Brifysgol.

## Amcan 2: Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd

### *Cryfderau*

- Y mentrau wedi addasu eu ffyrdd o weithredu i ymateb i sefyllfa'r Pandemig. Hyblygrwydd a gwytnwch yn y cyrff sy'n darparu'n gymunedol , e.e. cffi,
- Canolfan yr Egin yn fan deniadol i ymgynnull a defnyddio'r Gymraeg,
- Sefydlu canolfan newydd cyfoes, canolog a hyfyw yn Llandeilo, cyrchfan naturiol arall i'r Gymraeg,
- Cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yng ngweithluoedd cyngor sir ac eraill,
- Ymdrechion penodol wedi eu gwneud o fewn y maes hamdden gyda Theatrau sir Gâr yn darparu llawer mwy o arlwy Cymraeg a chanolfannau hamdden y sir a'r marchnadoedd yn chwarae cerddoriaeth Cymraeg.

### *Gwendidau*

- Effaith y pandemig ar aelodaeth yr urdd,
- Effaith y pandemig ar weithgarwch yr Atom,
- Effaith y pandemig a materion staffio ar ddarpariaeth Menter Gwendraeth Elli,
- Effaith y pandemig ar yr holl sefydliadau sy'n trefnu digwyddiadau i'r cyhoedd,
- Diffyg cynnydd mewn gweinyddu yn Gymraeg er mwyn creu gweithleoedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, sy'n caniatáu i bobl gynnal eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg,
- Ymdrechion i ganfod ffyrdd o farchnata gweithgareddau cymunedol Cymraeg ar y cyd ac yn fwy egnïol wedi pylu,
- Y gwaith o ddatblygu gallu tiwtoriaid nofio i ddarparu'n Gymraeg a dwyieithog heb olygu cynnydd digonol mewn darpariaeth o wersi nofio Cymraeg. Nid oes system wedi ei sefydlu system sy'n cynnig na darparu gwersi Cymraeg yn ddigon cyson,
- Gwaith yr Arweinwyr iaith yn yr adan hamdden wedi pylu,

### *Cyfleoedd i'r dyfodol*

- Eisteddfod yr Urdd yn sir Gâr yn gatalydd i gynyddu ymwneud plant a phobl ifanc sir Gâr yn yr urdd,
- Strwythurau staffio newydd y brifysgol yn rhoi sail gadarn i'r Atom i ddatblygu gweithgarwch unwaith eto, yn enwedig gyda myfyrwyr ifanc y sir a dysgwyr ardal Caerfyrddin,
- Bwrdd rheoli ac ail-strwythuro staff yn rhoi cyfle i Fenter Cwm Gwendraeth Elli i ailadeiladu ei gweithgarwch cymunedol yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli,
- Cyngor sir i redeg prosiect i weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un adran ac yna datblygu model i'w ymestyn o fewn y cyngor a thu hwnt
- Prosiect Llanelli yn peilota ffordd o fapio a chofnodi gweithgarwch cymunedol Cymraeg Llanelli a allai gael ei ymestyn ar draws y sir,
- Datblygiadau yng Nghalon Tysul yn darparu arbenigedd ar ddarparu hyfforddiant nofio Cymraeg,
- Adeiladu ar y gwaith a wnaed yn narpariaeth hamdden y cyngor i gynyddu sgiliau Cymraeg y staff ac i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y canolfannau hamdden,
- Ystyried ailgydio yng nghyfarfodydd y swyddogion maes
- Adran ieuenctid i gynyddu ei weithgarwch ac arlwy Cymraeg i'r bobl ifanc drwy eu denu i weithgarwch eisteddfod Sir Gâr 2023,

- Ystyried y posibiliad o sefydlu canolfan i'r Gymraeg yn Llanelli
- Strategaeth Hamdden newydd y Cyngor,
- Gwella system gofrestru a chyfathrebu rhwng y dderbynfa mewn canolfannau hamdden a'r tiwtoriaid nofio a gwella'r cynnig a'r ddarpariaeth yn gyson fel rhan o Strategaeth Newydd hamdden y sir.
- Ailgydio yn hyfforddiant a chefnogaeth yr Arweinwyr Iaith.
- Bwriad yr Atom i ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a rhieni ac i sefydlu'r lleoliad fel hwb i ddysgwyr Cymraeg tref Caerfyrddin.

## Amcan 3: Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth

### *Cryfderau*

- Creu'r Pecyn Croeso. Sir Fôn yn gweld gwerth defnyddio ein pecyn a'i addasu,
- Cychwyn ar y gwaith o gydlynu ymdrechion datblygu iaith a datblygu economi. Cychwyn cadarn o ran disgwyliadau a chyfleoedd ieithyddol ym Mhentre Awel,
- Polisïau a gweithredoedd yn y maes tai yn cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy, yn ennyn pobl leol i'r ddarpariaeth ac yn lleihau nifer y tai gwag yn y sir yn creu amodau ffafriol i drigolion lleol i aros yn y sir,
- Gwaith cynllunio iaith o fewn proses y CDLL, yn enwedig datblygu methodoleg newydd i fesur effaith defnydd tir ar y Gymraeg,
- Cryfhau'r polisi enwi tai a strydoedd y cyngor,
- Sefydlu ac ehangu prosiect Profi gan MGSG,
- Sefydlu darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yr urdd a meithrin yn y meysydd gofal plant, chwaraeon, ac awyr agored,
- Cychwyn ar y gwaith o wella darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir,
- Ymdrechion Coleg Sir Gâr i fagu hyder pobl ifanc yn eu sgiliau Cymraeg o fewn meysydd astudio sy'n arwain at waith lle mae sgiliau Cymraeg yn benodol o angenrheidiol,
- Creu'r adnodd electroneg 'Y Gymraeg mewn Busnes', a'i ddosbarthu drwy brosiectau fel rhai Menter a Busnes,
- Gweithredu nifer o brosiectau penodol i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y sector preifat.

## *Gwendidau*

- Diffyg defnydd o'r pecyn croeso,
- Trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu. Pobl ifanc ddim yn gwerthfawrogi mantais eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle,
- Colli cyfle i sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg yn natblygiadau cychwynnol y Deg Tref,
- Diffyg arweiniad o'r llywodraeth a gwybodaeth gadarn ar effaith adeiladu ar yr iaith Gymraeg o safbwynt niferoedd o leoliadau a ganiateir ar gyfer adeiladu tai a'u lleoliadau daearyddol,
- Diffyg cydlyniad ymdrechion i baratoi pobl ifanc y sir i'r byd gwaith a dwyn perswâd iddynt ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith i'w defnyddio yn y gweithle, a'u hannog i ddatblygu gyrfaoedd mewn meysydd ble mae angen siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu o fewn y sir,
- Diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn elfen astudio a chymhwyso prentisiaethau,
- Diffyg ymdrech gweithleoedd y sir i ddarparu a hyrwyddo prentisiaethau cyfrwng Cymraeg,
- Diffyg corff arweiniol i gydlynu ymdrechion i wella sefyllfa prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir,
- Ariannu Swyddogion *Helo Blod Lleol* yn dirwyn i ben,
- Cyllid datblygu'r economi yn cael ei raeadru at brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg.

## *Cyfleoedd i'r dyfodol*

- Arfor 2 yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r economi yn y sir,

- Arfor 2, a'r ffocws penodol ar werthuso a monitro, yn cynnig gwersi ac arfer dda i'w trosglwyddo i brosiectau adfywio eraill ac arweiniad ar fesur effaith prosiectau adfywio ar y Gymraeg,
- Manteisio ar arbenigedd a phrofiad y Fforwm i ddatblygu fframwaith i sicrhau bod prosiectau adfywio'r dyfodol yn rhoi'r cyfle gorau posib i'r Gymraeg ffynnu wrth gynnal prosiectau datblygu economaidd,
- Trosglwyddo'r fframwaith hwn i brosesau ariannu 'shared prosperity' ac ymgyrchoedd adfywio eraill yn y sir,
- Adeiladu ar waith y pecyn croeso i gyfathrebu gyda mewnddyfodiaid a'u cymell i ddysgu Cymraeg. Canolfan newydd i hwyrddyfodiaid yn cynnig cyfleoedd pellach,
- Adeiladu ar y gwaith o adfywio stoc tai'r sir ac edrych ymhellach ar y posibiliad o gynnwys y Gymraeg yn ystyriaeth o bwys wrth glustnodi tai fforddiadwy,
- Adeiladu ar y gwaith o fapio anghenion cymunedau gwledig o safbwynt tai i ganiatáu ffyniant y Gymraeg o fewn y cymunedau hynny,
- Yr oedi sy'n ganlyniad i faterion ynglŷn â ffosffadau yn cynnig cyfleoedd o'r newydd i ystyried ymchwil sy'n berthnasol i'r Gymraeg,
- Gweithredu'r fethodoleg ar gamau amrywiol datblygu tir wrth sefydlu ac wedi sefydlu'r CDLl,
- Sefydlogi ac ehangu cyfleoedd y prosiect *Profi* i bob ifanc y sir.
- Cydweithio i wella nifer y bobl ifanc ac oedolion sy'n ymgymryd â phrentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Hywel Dda'n recriwtio drwy brentisiaethau ac yn clustnodi rhai cyfrwng Cymraeg a chyfle i ddatblygu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg rhwng Pentre Awel a Choleg Sir Gâr,
- Adeiladu ar yr adnoddau a grëwyd a'r hyfforddiant a ddarparwyd i'r sector preifat ar ddarparu a gweithredu'n Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddosbarthu'r adnoddau yma yn gyson a thrwy ffynonellau newydd o hyd,
- Datblygu'r Gymraeg a'r economi wrth i brosiectau adfywio'r Deg Tref ddatblygu.

## Amcan 4: Targedu Ardaloedd Daearyddol o flaenoriaeth

### *Cryfderau*

- Denu cyllid i beilota prosiect yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth,
- Cydweithio'r tair Menter ar gyflawni ac adrodd ar y prosiect,
- Gwaith cychwynnol Datblygu'r Gymraeg yn Llanelli: ymdrech i weithredu gyda sail tystiolaeth gadarn a gweithredu'n strategol a phartneriaethol.

### *Gwendidau*

- Cyfnod byr y prosiect peilot,
- Anhawster capasiti'r mentrau i weithio'n feicro mewn ardaloedd penodol a darparu gweithgarwch ar draws yr ardal hefyd.

### *Cyfleoedd i'r Dyfodol*

- Data newydd, mwy cyfredol o'r Cyfrifiad.

# Amcan 5: Marchnata a Hyrwyddo Iaith

### *Cryfderau*

- Yr holl adnoddau hyrwyddo'r Gymraeg a grëwyd,
- Rhai enghreifftiau da o ddosbarthu'r deunyddiau,
- Ymroddiad holl gyrff y Fforwm i drefnu gweithgarwch ar ddyddiau cenedlaethol hyrwyddo'r Gymraeg,
- Ymdrechion i greu sianeli i rannu adnoddau hyrwyddo.

### *Gwendidau*

- Diffyg system effeithiol i ddosbarthu a defnyddio'r adnoddau a grëwyd,
- Diffyg ymgyrchoedd penodol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg,
- Diffyg effaith ar gyrff allanol i ddosbarthu deunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg,
- Rhai cyrff yn colli cyfle i ddosbarthu a grëwyd gan gyrff eraill.

### *Cyfleoedd i'r Dyfodol*

- Dylanwadu ar agweddau 1) siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio'n amlach, 2) Cymry di-Gymraeg i ddeall perthnasedd iaith a hunaniaeth, 3) Mewnfudwyr i ddeall pwysigrwydd dysgu Cymraeg a dathlu'r rhai sydd wedi gwneud hynny,
- Parhad neu ddatblygiad o'r Pecyn Croeso,
- Sefydliad y Ganolfan hwyrddyfodiaid,
- Creu system ddosbarthu a rhaglen ddosbarthu strategol ar gyfer y deunyddiau oll,
- Canfod dulliau o ddod â'r adnoddau yn fyw i garfannau o bobl ,
- Hyrwyddo'r Gymraeg drwy weithgarwch Eisteddfod yr Urdd 2023.

## Pontio i Strategaeth Dau (2022-2027)

Mae'r adroddiad hwn a'r holl waith casglu data sydd y tu ôl iddo, yn ogystal â'r holl waith craffu a wnaed yn ystod cyfnod Strategaeth un, wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer Strategaeth dau. Mae gennym ddarlun cyflawn o gyflwr y Gymraeg yn Sir Gâr sydd yn mynd ymhell y tu hwnt i ffigurau'r cyfrifiad, a golyga hyn mai tasg gymharol hawdd yw blaenoriaethu meysydd gweithredu ar gyfer hybu'r Gymraeg yn Sir Gâr i'r dyfodol. Mae'r Fforwm wedi nodi awydd i newid gêr o safbwynt nod y strategaeth nesaf. Cafwyd cytundeb unfrydol i barhau gyda'r weledigaeth o 'anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir', ond bod angen adeiladu ar waith y Strategaeth ddiwethaf gan fod yn fwy hyderus wrth drafod y Gymraeg yn y sir. Rydym yn teimlo ein bod wedi cyrraedd man yn hanes y Gymraeg yn y sir lle y dylwn symud oddi wrth 'annog defnydd' a thuag at ddatgan fod y Gymraeg yn elfen greiddiol o hunaniaeth y sir, a chroesawu pawb at yr iaith ac at gymuned yr iaith, heb ymddiheuro.  Rydym eisiau gweithredu mewn modd sy'n derbyn fod y Gymraeg yn norm yn y sir ac nid angen cael ei 'normaleiddio' bellach.

Rydym yn derbyn fod yna beuoedd ac ardaloedd daearyddol o fewn y sir sydd heb gyrraedd y sefyllfa yma o hyder ieithyddol eto, a bydd ffigurau'r cyfrifiad newydd yn sbarduno ein hymateb i'r heriau yma.

Bydd amcanion sylfaenol Strategaeth un, megis creu mwy o siaradwyr hyderus, a chynnal defnydd y Gymraeg drwyddi draw yn parhau yn Strategaeth dau wrth reswm, ond bydd yna bwyslais mwy penodol ar y Gymraeg a'r economi, y gweithlu a'r gweithle gan fod rhain yn themâu lle rydyn ni, fel fforwm, wedi datblygu dealltwriaeth gliriach o'r modd y mae angen gweithredu er mwyn gwella sefyllfa'r Gymraeg yn y sir.  Teimla'r Fforwm hefyd fod 'Marchnata'r Gymraeg' hefyd wedi symud ymlaen yng nghyfnod y strategaeth hon a bellach yn fwy addas i'w drin ymhlyg yn yr amcanion eraill, fel nodwedd o holl waith Strategaeth Dau.

Mae'n bosib hefyd, wrth newid gêr yn gyfer Strategaeth dau y byddwn yn creu amcanion sy'n debycach i themâu, ac yn gosod bwriad mwy cadarnhaol fesul thema, ond mae'r manylder yma yn dal i'w penderfynu.

## Dyma fraslun posib ar gyfer Strategaeth Dau (2022-2027).

*Gweledigaeth: Anelu i wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir.*

### Amcan 1 – creu siaradwyr Cymraeg

Meysydd gweithredu: cyn oed ysgol a gofal plant, hyrwyddo addysg, targedau'r CSGA, dysgu Cymraeg i oedolion.

### Amcan 2 – cynnal hyder a defnydd y Gymraeg

Meysydd gwaith: Cefnogi defnydd y Gymraeg yn y sector addysg, cynnal cyfleoedd hamddena yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol i blant a phobl ifanc ac i oedolion a theuluoedd.

### Amcan 3 – Y Gymraeg a'r economi

Meysydd gwaith: Datblygiadau strategol, Pentre Awel, Prosiect y Deg Tref, y Gronfa ffyniant cyffredin, cymreigio busnesau, mentrau cymunedol, iaith gwaith.

### Amcan 4 – Y Gweithle a'r gweithlu

Meysydd gwaith: Recriwtio, hyfforddiant, profiad gwaith, cyngor gyrfa, gweinyddu'n Gymraeg, defnydd anffurfiol y Gymraeg yn y gweithle, sgiliau Cymraeg yn y gweithle, prentisiaethau, gyrfaoedd a sgiliau Cymraeg i bobl ifanc.

### Amcan 5 – Cynnal Cymunedau Cymraeg

Meysydd gwaith: adeiladu ôl covid-19, Cynllunio defnydd tir, tai, Llanelli, Gwaith penodol ar sail canlyniadau'r Cyfrifiad, Busnesau Cymraeg, canolfannau Cymraeg, addysgu mewnfudwyr, cynnal cymunedau gwledig.